





L. 50

DILIAU MEIRION.

GAN
MEURIG EBRILL,
DOLGELLAU.

Thomas Thomas



Gwledd i'r dant goleda'r dôn
Ddeil ym mhêr DDILIAU MEIRION.

Gwalchmai.

DOLGELLAU:

ARGRAFFEDIG GAN EVAN JONES, BRYNTEG.

MDCCLIII.

1568 / 6156.



TO

W. W. E. WYNNE, Esq.

OF PENIARTH,

M. P. FOR THE COUNTY OF MERIONETH,

DESCENDANT OF A LONG LINE OF ANCESTRY

OF CHARACTERISTIC PATRIOTISM,

THE ENLIGHTENED AND GENEROUS FRIEND OF THE

LITERARY INSTITUTIONS OF HIS COUNTRY,

AND THE WARM PROMOTER OF THE

AWEN,

THIS HUMBLE CONTRIBUTION TO THE POETRY OF WALES

IS RESPECTFULLY DEDICATED

BY HIS MOST DUTIFUL SERVANT,

MEURIG EBRILL.

ANERCHIADAU I'R GWAITH.

I'r hen Feurig rho'wn fawredd—ei Ddiliau
Ddylent gael anrhydedd;
Rhydd ei awen lawen wledd,
Geinwych i Dde a Gwynedd.
Dinbych. D. PRICE (Deut Dinorwig).

CROESAW, hylon "Ddiliau Meirion,"
Rhagorollon pur gry' eilydd;
Ni bu "Ddiliau" mwy difesiâu,
Na mwy'u rhioau yn Meirionydd.

Sawl gŵr heirdd weithiau beirddion—ymwth
Am waith Meurig ffraesthlon; [iwn
E geir yn "Niliau Meirion"
Win a llaeth i'n gwneud yn llon.
D. J. LEWIS.

EBRILL lewyrcha'r wybren—(y "caddug"
Nid yw'n "cuddio" r heulwen)
Gwawl ei nwyf a golen nen
A ddyry i'r ddaecaren.

Dyfyd mae MORRIS DAFYDD—yn ei rym,
A'i iawn rwysg yablenydd;
Ei fawl a daen fel y dydd
Yn y "Ddiliau" dieilydd.

Morris sydd ben bardd Meirion—daw ar naid
A drynodia Arfon;
Ei wych ystwyth orchestion
A deif i lawr feirdd mawr Mon!

Gordrechwr, curwr y cawri,—a ddwg
Yn fuddugol ini
Bob mwynder, llawnder, yn lli',
O "Ddiliau mel" ddell eu moll.
Towyn, Meirionydd. IREUAN EBRILL.

EON dalent gyflawn "Ddiliau—Meirion"
Gymerer i'r byrddau;
Y llyfr hwn gwnawn oll fawrhau,
Ar berwyl, hwyr a borau.

Odlau mŵr "Ddiliau Meirion,"—o'u blysiu
Wnant bleser i feirddion;
Mawr awydd i'w hamrywion
Wella fryd anniwall fron.

Is y Gader glwys gododd—sin gwron,
Yn gaerog y canodd;
Meurig ni chamgymerodd,
Ei bert waith a barotodd.
IREUAN IONAWR.

DELED i mi y "Ddiliau"—melysion,
Mal osai i'r genau;
Mwyn yn wir dymanwn wau
'Chydid o anerchiadau.

Llafor purlau a llyfr perlog—byrddiad,
Awen bardd ardderchog;
Ddiliau llawnion dillynog—caniadau,
Oll o gydiadau diwall godidog.
GWILYM IDRIS.

MORRIS f'i "Ddiliau Meirion"—a gura
Bob gwrol orchestion,
Wela lwyth i Wallia lon
O groyw seigiau gwresogion.

"Ddiliau" i amryw dalaeth—cynnyrchion
Haelion ddoniau helaeth;
Pur iawn fodd pery yn faeth
I ddynion ei farddoniaeth.
Towyn. DEWI AP DEWI.

DA elw mawr "Ddiliau Meirion"—a nodir
Yn wiwdeg ddanteithion;
Prif drysor i lenorion,
A gorau saig i'r oes hon.
Llanelltyd. M. GLAN MAWDDACH.

ELW mawr fydd "Ddiliau Meirion"—i floedd
Mae'n felus ddanteithion,
Gwna un llesg i ganu'n llon,
Ac elweh rydd i galon.
IREUAN, Dyffryn Conwy.

"Ddiliau Meirion," llon ddarllenydd—O myn
Y mae yn yablenydd;
"Ddiliau" rhad yn odlau rhydd,
Gan Meurig, hen Omerydd.

Diwael fraint, "Ddiliau" o fri—heirdd "Ddil-
Hir ddaliant mewn mawrfri; [iau"
"Ddiliau Meirion" wna'n lloni
Yn ein hoes, llawenhawn ni.
DEWI, Glan Llwgwy.

"Ddiliau" heirdd i brif feirddion—a Ddiliau
I delaid lenorion;
Doed cannoedd yn lluceodd llon
I morol "Ddiliau Meirion."
Bala. WILLIAM DAVIES (Gwilym Tegid).

Y MOROL am "Ddiliau Meirion"—ddarllenydd
Er lloni dy galon,
Ar fel a llaeth yr arfoll hon,
A'th lleinw & choeth ddilynion.
Llanurchllyn. BARD DDOCHAN.

WELA y mŵr "Ddiliau Meirion"—iesin,
Brasaf o'r danteithion;
Yn llu, O mynwech e'n llou,
Y mawwl Gymry mwynion.
Llanidloes. GWILYM AP IORWERTH.

MEDDYLLAF yn deg am "Ddiliau—Meirion"
A'u mawrwyth rinweddau;
Dir yw eu bod, er clod clau,
A mel hyd eu hymylau.
OWEN JONES (Owain Egryn).

RHAGY MADRODD.

ANWYL A HOFF GYDWLADWYR, yn Feirdd a Llenorion Cymreig o bob graddau,—Wele fi wedi achub y cyfleusdra presenol i gasglu yn nghyd ac argraffu ychydig o'm Cyfansoddiadau Barddonol, y rhai a gyfansoddais ar wahanol amserau, ac ar amrywiol destunau. Nid ydyw y Casgliad hwn yn cynnwys hanner fy ngweithiau; oblegid dechreuais gyfansoddi pan yn fachgenyn o saith i wyth oed, ac aeth lluaws o ffrwyth fy myfyrdodau yn yr adegau hyny ar ddifancoll o herwydd fy esgeulusdra i ddiogelu yr ysgrifau gwreiddiol. Yr wyf yn *gwybod* am hymtheg o gerddi, a deuddeg o garolau, heblaw cannoedd lawer o englynion, sydd wedi myned ar goll. Nid wyf yn hōni perffeithrwydd mewn dim o'm cyfansoddiadau, ac ni anturiais ymgyrhaedd at ryw bethau mawrion, namyn ychydig awdlau byrion, englynion, ac ambell gân rydd.

Oddeutu hanner can' mlynedd yn ol, cefais rai misoedd o gyfeillach yr hen fardd athrylithgar Thomas Edwards (*Tom o'r Nant*) yn y Bala, a dygwyddodd i mi yfed cryn lawer o'i ysbryd, can belled ag yr oedd yn milwrio yn erbyn egwyddorion treisiawl a gorthymus; ond ymgedwais, hyd y gellais, rhag ymyraeth mewn un modd â chymeriadau personol neb, gan gofio ychydig linellau a welais yn un o ysgrifau yr hen fardd uchod, y rhai, yr wyf yn meddwl, oedd yn debyg i hyn,—

———— “Gorau'r lleia' siarado,
Gan y cynhyrfa llawer un swrth,
Mae'n debygol, wrth ei bigo.”

Felly cymerais addysg oddiwrthynt; ac yn hytrach na gwneud caniadau tuchanol i bersonau unigol, ymosodais ar egwyddorion a ymddangosent i mi yn ddrwg, a phleidiais, hyd y gellais, egwyddorion da. Gwel y darlennydd fod y Casgliad hwn yn cynnwys ymosodiadau collfarnol ar bron bob pechod gwaradwyddus a gyflawnir yn y byd drwg presenol.

Yn awr, nid oes genyf ond ei gyflwyno fel y mae i sylw a nawdd fy nghydwladwyr caredig, yn Eglwyswyr ac yn Ymneillduwyr, o bob graddau, y rhai sydd wedi dangos cymaint o'u hewyllys da i'm cynnorthwyo yn fy anturiaeth bwysig, a hyny

gyda'r sirioldeb a'r parodrwydd mwyaf. Gallai y cyferfydd rhai ag ambell erthygl yn y llyfr na fydd yn cyd-daro yn dda â'u harchwaeth; ond nid oes genyf well cynghor i'w roddi iddynt na choffâu hen englyn o waith Jonathan Hughes, yn ei gyflwyniad o'i lyfr, "Bardd y Byrddau," i'w gydwladwyr gynt, a dyma fo, os wyf yn cofio,—

"Praw'r seigiau, byrddau diball,—o'r dysglau
P'run orau, praw' un arall;
Oni ddoi yno'n ddiwall,
Cymro llon, cymer y llall."

Felly, yr wyf yn meddwl fod yn y DILLIAU hyn gymaint o amrywiaeth ag sydd mewn un llyfr o'i faintioli a ymddangosodd etto yn y Gymraeg, er nad yw heb lawer o wallau.

Tybiwyf nad anmhriddol fyddai crybwyll yn mhellach, er fy mod yn bleidiwr gwresog i'r mesurau caethion, ni chyfansoddais erioed ond ar saith neu wyth o honynt; ac ni ddilynais y rhai hyny yn gwbl fel y sefydlwyd hwynt gyntaf, ond arferais roddi ychwaneg o linellau yn rhai o honynt, sef Hir a Thoddaid, a Byr a Thoddaid. Hefyd, ni phetrusais roddi 8 sill yn lle 7 weithiau mewn llinellau Deuair Hirion, ac esgyll Englyn Unodl Union, os gwelwn fod y synwyr yn gadarnach drwy hyny.

Dymunwn gyflwyno fy niolchgarwch gwresocaf i bawb sydd wedi bod mor ymdrechgar i gasglu enwau Tanysgrifwyr at fy Llyfr: taled yr Arglwydd yn ddau-ddyblyg iddynt am eu cymwynasgarwch.

Terfynaf yn awr, gan ddeisyf eich nodded a'ch cydymdeimlad â henaint a phenllwydni, yr hyn yn ddiau a wna y Beirdd a'r Llenorion campus a diragfarn, er nad wyf yn dysgwyl hyny oddiwrth y crachfeirdd a'r crachfeirniaid. Byddwch wych, Gyfeillion anwyl, yw gwir ddymuniad

Eich gostyngedig Ewyllysiwr da,

MEURIG EBRILL.

DOLGELLAU, *Meh.* 27, 1853.

RHAGDRAETH.

GORCHEST Barddoniaeth ydyw bod y meddyliau yn newydd, yn darawiadol, ac yn aruchel; a'r iaith â pha un y byddont wedi eu gwisgo yn goethedig, yn ddillyn, ac yn eglur. Pa le bynag y byddo cyfansoddiad o'r fath, y mae yn sicr o gael ei ddarllen a'i wrando gyda mwy o ystyriaeth a theimlad nac unrhyw draethiad cyffredin. Goleuo, cynhesu, a boddhau, ydyw effeithiau nodweddiadol gwir awenydd. Os na bydd y pennill yn taro yn fwy grymus ar y glust a'r galon na rhyddiaith, nid barddoniaeth ydyw. Gall pob dyn rimynu, ond nid pawb a all gyrhaedd y teimlad byw.

Y mae Barddoniaeth Meurig Ebrill yn eglurhad ymarferol ar hyn. Nid ydym yn mynegu hyn heb ystyried fod ganddo ddarnau diffygiol; ond ar y cyfan, a'i gymeryd oll yn nghyd, ceir ei fod yn ateb i reol prawf barddoniaeth. Y mae ei linellau yn syml, heb fod yn ddiaddurn; y maent yn gyffredin, heb fod yn annaturiol; y maent yn ddealladwy, heb fod yn isel; y maent yn dlws, heb fod yn rhodresgar; ac y maent yn nerthol, heb fod yn afrywiog. Ni all neb eu darllen heb gael ei foddhau. Nid oes neb, wedi eu clywed, a ammheua gywirdeb rhagfyngiad ei hen athraw barddonol, **TWM O'R NANT**, am dano er's tros hanner can mlynedd yn ol, yn ol manteision y genedl y pryd hwnw, sef, *ei fod yn ei ystyried yn un o'r Beirdd ieuainc mwyaf gobeithiol yn Nghymru.*

Y mae y Gwaith hwn yn dangos dedwyddwch mewn disgyniad buan at enaid pob testun y cenir arno. Yn hyn y mae yn tra-rhagori ar nifer o'r Pryddestau meithion sydd wedi eu pynio ar gefn y wlad yn ddiweddar, y rhai sydd mor lawn o ryw fath o "wlith, a blodau, a ffrydian, ac awelon, a thywyniadau, a nentydd, a gerddi," a'r cyffelyb, nes y mae gwir farddoniaeth wedi cael ei chladdu yn hollol o'r golwg! Yn mha rai o honynt, wedi gwneud ychydig eithriadau, y ceir dwy linell gwerth eu hail adrodd? Beth sydd yn eu cynnal i fyny heblaw canmoliaethau cardodedig? Nid ydym yn petruso dywedyd, fod gan yr hen Feurig aml englyn sydd yn fwy o bwysau yn nhafol gwir farddoniaeth, na channoedd o'r llinellau gweigion, trystiol, a orfolir gan gyfeillion, y rhai a addefant, wedi i ddyddordeb y

mynydd basio, mai canmol er mwyn canmol oedd yr holl folawd o'r dechreu i'r diwedd. Y mae yn y Gwaith hwn deilyngdod syml a deifl garneddi o'r cyfryw i'r cysgod.

Nid ydym yn y sylwadau hyn yn ceisio codi y Gwaith hwn i'r dosbarth uchaf, ond yr ydym yn hōni iddo le yn rhestr barddoniaeth y wlad. Y mae ambell herlod wedi codi yn ddiweddar i fesur a phwysof y Beirdd, ac ni chaniatânt le i neb yn y rhestr ond y cyfeillion a'u molant. Cof yw genym am y ddadl ar adeiladaeth y Senedd-dai[newyddion, pa un a ga'i Cromwell le yn mysg brenhinoedd Lloegr ai peidio: ac wedi chwilio, a mesur, a dyfalu, wele, yr oedd y lle yn rhy gyfyng i gerflun Oliver gael ei wthio i mewn rhyngddynt! Ond y gwir ydoedd, yr oedd cauad allan y Diffynwr yn gosod mwy gannwaith o hynodrwydd ar ei enw! Dichon na chafodd Awdwr DILIAU MEIRION le yn mysg y prydyddion breintiedig; ond nid oedd hyn yn ei gau allan o restr Beirdd ei wlad, mwy nac y gallasai culni rhagfarn gloi Cromwell allan o restr llywyddion Brydain Fawr.

Hyderwn y caiff y Llyfr hwn y derbyniad a deilynga, ac y caiff yr hen Fardd ei loni yn fawr wrth weled fod i'w Waith le yn serchiadau darllenwyr drwy'r holl wlad. Dyma ei brif nôd a'i ddymuniad ef. Dywedodd un awenydd, "Yr wyf fi yn foddlon i chwi gael gwneud cyfreithiau fy ngwlad, os caf finnau wneud ei chaneuon." Felly y dywed yr Awdwr hwn. Y mae ysbrydoliaeth yr Awen, yn ddiweddar, dan obaith mwynhad oddiwrth y DILIAU, wedi bod yn foddion i godi ei feddwl, ac adfywio ei nerth corfforol, wedi cystudd gorweiddiog hirfaith o saith mlynedd, fel y mae erbyn hyn dan adferiad eilfydd i adgyfodiad neu greadigaeth o newydd! Caiff eraill gymeryd arnynt yr holl ofalon bydol, os mynant, ond iddo yntau gael gwasgu digon ar DDILIAU yr awen.

R. PARRY (*Gwalchmai*.)

FFESTINIOG, *Meh.* 25, 1853.

Y CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
Y Wyneb-ddalen (<i>Title-page</i>).....	1
Y Cyflwyniad.....	3
Anerchiadau i'r Gwaith	4
Rhagymadrodd	5
Rhagdraeth.....	7
Awdl Ioseph	13
Debora a Barac	18
Cân Debora a Barac	23
Elias ar ben Carmel	31
Ahab a Jezebel	52
Fflangell i Genfigen	55
Y "V Fawr," a "Fo Fo"	57
Y Cybydd	60
Eglwysi Rhufain a Lloegr—Ymdrechfa rhwng y Fam a'r Ferch yn 1851	63
Richard Cobden, Yswain, A.S.	66
Anerchiad i'r <i>DYSGEDYDD</i> ar ddechreuad ei 29 oed.....	68
Myfyrdod y Bardd yn ei 70 mlwydd oed, 1850	70
Priodas H. J. Reveley, Ysw., Brynygwin, Dolgellau	73
Ysgol Frutanaidd Dolgellau.....	74
Merched Ieuainc Dolgellau	78
Marwnad Evan James, (Ieuan ap Iago).....	79
Coffadwriaeth J. Williams, Dolgellau	80
Marwnad Daniel O'Connell, A.S.....	82
Coffadwriaeth am y diweddar Barch. Samuel Jones.....	83
Coffadwriaeth Thomas Hartley, Ysw., Llwyn, Dolgellau	85
Marwnad H. Reveley, Ysw., Brynygwin, Dolgellau	88
Marwnad J. Edwards, Ysw., Dolserau, ger Dolgellau ...	91
Achau Dafydd Frenin	93
Gwerthfawrogrwydd y Gair	95
Fflangell i'r Tyngwyr	96
Drygedd Meddwod	96
Adgyfodiad Dysgeidiaeth yn Nolgellau	98

Y Ceiliog a'i Gân, cyfansoddedig wrth ei glywed yn canu yn y bore	99
Y DYSGEDYDD—Anerchiad iddo yn ei flwyddyn gyntaf ...	99
Etto	101
Myfyrdod y Bardd wrth fyned dros Fynydd Hiraethog, Mawrth 19eg, 1825.....	102
Coffadwriaeth am y Tywysog Frederick, Duc Caerefrog.	102
Erfyniad am Goed Derw gan T. Hartley, Ysw., Llwyn, i wneud Meinciau Haf	103
Cabledd	104
Fflangell i'r Absenwr.....	105
Arwyrain Boddlonrwydd	106
Diolchgarwch am Ffon i Mr. Evan Jones, Garddwr, Nannau, dros Mr. Ellis Williams, Maentwrog	107
Cyfarchiad i Mr. J. Jones, Gof, Tanycoed, ger Towyn...	108
Rhaiadr Cain, Trawsfynydd	109
Hafdy Cader Idris.....	110
Martha, y Dafarnwraig	111
Y Ffordd o Dremadog i Faentwrog	112
"Telyn Egryn"	112
Y Bardd yn ei Gystudd	113
Dechreu y Gwanwyn.....	115
Y Mormoniaid	115
Marwolaeth pump o Feirdd yn y flwyddyn 1847	116
Marwolaeth Ieuan Gwynedd	117
Marwolaeth Jane Jones, Llanelltyd	118
Marwolaeth David Owen, Bwlchcoch, ger Dolgellau	119
Marwolaeth Lydia Jones, Dolgellau	119
Marwolaeth Hannah a Ruth, Llanymawddwy	120
Marwolaeth Morgan Jones, Gwernbarcud.....	121
Marwolaeth John Pugh, Ysw., (Ieuan Awst)	121
Y Cristion Tawel	122
Tôrwr Addunedau.....	122
Yr Amaethwyr a'r Bugsiliaid.....	124
Y Person yn darllen	126
Y Gauaf	126

Oedran Meurig Ebrill ac Isaac Jones o'r Llwyn yn y fiwyddyn 1850	127
Lletyrhys, Brithdir.....	128
Talyllyn a Dolffanog.....	129
Y Llwyn, ger Dolgellau	130
Bronwnion, Dolgellau	131
Y diweddar Robert Roberts, Caergybi	132
Rhydymain, Meirionydd	133
Fflangell i Borthweision	133
I ofyn Ysgyfarnog gan Thomas Hartley, Ysw.....	134
Diolchgarwch am y rhodd	135
Caseg Ddu Capt. Anwyl, Brynadda, Dolgellau	136
Cwynfan y Bardd pan ladratawyd ei arfau ef a'i weithwyr wrth adgyweirio Ty'nycelyn, yn 1832	137
Deuddeg Gwae	138
Priodas Mr. C. R. Jones, a Miss Tibbot	138
Y Ser	139
Thomas Ellis, baban y Parch. R. Ellis, Brithdir	140
Y Maelwyr	141
Nodiadau ar gymhwysderau Beirniaid Eisteddfodau	143
Marwnad yr Heliwr, neu Ddammeg y Pryf Llwyd.....	144
Claddedigaethau Celwyddwyr, Cybyddion, Meddwon, Godinebwyr, a Lladron	146
Towyn, Meirion, a'i Ffynnon	147
Gwragedd Rhinweddol.....	147
Y Parch. Benjamin Price (Cymro Bach)	149
Humphrey Evan, Brithdir, ger Dolgellau.....	151
Vicar Conwy	152
Bugeiliaid Eppynt	153
Harlech a'i Chastell	155
Dau Of yn gweithio	156
Anerch i Lenorion y Brithdir	157
Y Parch. E. Davies (Eta Delta)	158
Ellis Roberts (Eos Glan Wnion).....	161
Anerch i Mr. John Davies, Utica, America.....	162
Anerchiad i Meurig Ebrill, gan Gutyn Ebrill	163

Anerchiad i Gutyn Ebrill, gan Meurig Ebrill	163
Priodas Mr. Robert Pugh, a Miss Anne Jones.....	165
Cofgolofn Dafydd Ionawr yn mynwent Dolgellau	166
Gwallt gwyn hen gyfaill	167
Mynediad y Bardd mewn cwch i Abermaw.....	167
Blwydd yn lladd dwyflwydd	168
Hen ŵr gweddw yn priodi merch ieuanc	168
Bwlch Oerddrws	168
Yr Haf.....	168
Byrdra Oes.....	168
Peiriannwaith Brethynau.....	169
Mr. Ellis Roberts (Eos Meirion).....	170
Calenig i Gymdeithas Lenyddol y Bala.....	171
Mary Jones, merch fechan Mr. a Mrs. Jones, Liverpool House, Dolgellau.....	173
Aralleiriad o amrywiol ranau o'r Ysgrythyrau.....	173
Job xiv.....	173
Diarhebion iv.....	177
Diarhebion viii.....	181
Diarhebion ix.....	186
Adgyfodiad Crist	189
Adgyfodiad y Saint	190
Gofal Duw am y Saint.....	191
Cyfraith Duw—Barn y duwiol am dani.....	192
Y ddau Adeiladwr.....	193
Pa beth yw dyn i ti i'w gofio?.....	193
Y Cristion buddugoliaethus	194
Ymrysoniadau Ysbryd Duw.....	194
Gwerthfawredd duwioldeb	195
Pleserau'r byd	195
Crist, Bara y Bywyd.....	195
Cymmod drwy Grist.....	196
Hau mewn dagrau.....	196
Nesáu at Dduw.....	196

DILIAU MEIRION.

AWDL IOSEPH.

CAFODD Israel, hael ŵr hylon,—ddeuddeg
O heirdd wiwddoeth feibion ;
Rhieddawg frodyr rhyddion
O'r un tad, y pen llâd llon.

Mab gwyl o'i wraig anwyla'—oedd Ioseph,
Ddieisior ei fwyndra ;
Sef Rahel dawel a da,
Rywiog, weddus wraig wiwdda.

Ioseph, anwyl was hoff union—diwyd,
Fu'n deongl breuddwydion,
Dwyn a wnaeth, drwy arfaeth Ion,
I'r goleu fawr ddirgelion.

Ei frodyr, gan ddiolfrydu,—godent
Yn giwdawd o'i ddeutu ;
Mewn llid certh gwnaent ei werthu
I'r creulon faelyddion lu.

Hwythau i'r Aifft pan aethant—a Ioseph
Ddewisawl mewn meddiant,
Y llanc duwiol, siriol sant,
Warth oesawl, a werthasant.

Enyd hir yno tariodd—yn ufudd
 Iawn hefyd gwas'naethodd;
 Ffafr y distain, fadiain fodd,
 Yn hollawl a ennillodd.

Llywyddiaeth ei holl eiddaw,—gu flaenor,
 Gyflwynodd i'w ddwyllaw;
 Ni omeddodd ddim iddaw,
 Drwy wg ffroch, ond ei wraig ffraw.

Ond och! ei feistres un dydd,
 A golwg ddigywilydd—
 Yr hen Aiffes ddiles, ddu,
 Gas ddynes, geisiai'i ddenu
 A'i swynaidd, hudolaidd did,
 I flindorch—gwarth aflendid!
 D'wedodd y pur gredadyn,
 Mwyneiddgar, ddiweirgar ddyn,—
 “Mawr yw f'ymdrech rhag pechu
 “O flaen Iôr mât, Ceidwad cu;
 “Yn ddiau fyth ni ddeuaf fi,
 “Satan, yn agos iti.”
 Wed'yn yn ffraw, draw fe drodd,
 Was enwog, ni chydsyniodd
 A'i diewlig hell hudoliaeth,
 Ffoi o'i gwydd yn ebrwydd wnaeth;
 A'i wisg adawai o'i ol
 I'r hoeden ddengar hudol.
 Y gwaraidd ffyddiawg wron,
 Di warth weinidog Duw Ion,
 Ni wnai, â'i feistres na neb,
 Gyduno mewn godineb;
 Myg odiaeth yr ymgadwai
 Rhag gwarthus, ryfygus fai.



Ha! 'r faeden felen a fu—yn foddion
 I'w faeddawl garcharu;
 Ond Duw Iôr, drwy'i dymhor du,
 Yn wyrthiawl oedd i'w nerthu.

Haeddu parch yn y carchar—urddasol
 Yr oedd Ioseph hawddgar;
 Ef oedd Gristion gwiwlon, gwâr,
 Mwyneiddgu, amyneddgar.

Cafodd y doethwr cyfion—ei ddyrchu
 Mewn ardderchog foddion,
 Yn geidwad di frad ei fron
 I'r eres garcharorion.

E dd'wedodd wrth ddau freuddwydiwr—troellawg,
 Y trulliad a'r pobwr;—
 A d'wediad y da awdwr
 Ddaeth i ran y ddau uthr ŵr.

Yn dra doeth penoda'r dydd—i grogi'r
 Gorwgus benpobydd;
 A'r trulliad coelfad celfydd
 O'r rhwym ga'i fod yn ŵr rhydd.

Ei eiriau oll a wiriwyd—y pobydd,
 Wep wibiawg, a grogwyd;
 Tidau y llall ddattodwyd
 'Run dydd, daeth yn rhydd o'r rhwyd.

Difost fel doeth bendefig—â medrus
 Ymadrodd caredig,
 Gyda phwyll, heb dwyll na dig,
 Eba Ioseph yn bwysig,—

“Y trullydd, pan doi o’th drallod—erchyll,
 “A’th ddyrchu’n dra hynod,
 “Cofia fi’r dydd y cei fod—mewn mawrlwydd
 “Ger bron dy arglwydd, y brenin dewrglod.”

Ei gyfiawn swydd a gafodd—a Phar’o
 Hoff eirioes was’naethodd;
 Ond Ioseph gain, firain, ryw fodd,
 A’i ing hefyd, anghofiodd!

Gwed’yn, mawr ddychryn a ddaeth—i frenin
 Y freiniawl lywodraeth:
 Ffraw boenid Phar’o benaeth
 Wedi nos—breuddwydio wnaeth.

Galw a wnaeth heb gywilydd—y doethion,
 A daethant yn ufydd
 Ger bron, gaffaelion gau fydd—yn ffrostus,
 Gâd fygylus, i gyd efo’u gilydd.

Yr anferth swynwyr ynfyd—naws gwallus,
 Nis gellynt ddeonglyd,
 Methent roi dim esmwythyd,
 I Phar’o o’i gyffro i gyd.

Yna’r trulliad yn union—a gofiodd
 Ei gyfaill mwyneiddlon,
 A’i ddawn llâd ddeonglodd yn llon
 Ei freuddwyd, heb gyfareddion.

Prysurwyd, galwyd y gwâr—fynwesol
 Fwyn Ioseph o’r carchar,
 At Phar’o’n ddeffro oedd ar
 Lewychus orsedd lachar.

Phar'o a deg fynegodd—aralleg
 O'r oll a freuddwydiodd,
 Yntau mewn fflur, fwynbur fodd,
 Dianglod, a'i deonglodd.

Mynegai'r sant mwyn agwedd—a duwiol,
 Y deuai saith mlynedd
 O amldra gwiwdda mewn gwedd
 Odidog, drwy'r holl dudwedd.

“Coelia, fe ddaw i'w ca'lyn—i'th orawr,
 “Saith eraill o newyn;
 “Par'to,” eb ef, “y pryd hyn,
 “Na arbed, yn eu herbyn.

“Gan hyny, gwna yn union—ymorol
 “Am ŵr doeth a ffyddlon,
 “A gosod ef yn gyson
 “Olygydd, a llywydd llon.

“Ffraw ethawl casgled ffrwythau—cain odiaeth
 “Y cnydiawg flynyddau;
 “Boed iddo iawn gludo'n glau
 “Rad luniaeth i'r ydlanau.

“Cadwer ŷd mewn modd hydyn—ddigonedd
 “O gynnyrch pob blwyddyn;
 “Ceir toraeth helaeth drwy hyn
 “Dan awyr, pan daw newyn.”

Phar'o draethai'n hoff hyrwydd,—“Da Ioseph,
 “Dewiswn di'n ebrwydd;
 “Seirian fab Jacob sywrwydd,
 “Teg was Ion, ti gei y swydd.

“ Yn gadarn cei'th iawn godi—o benyd
 “ I binagl uchelfri;
 “ Rhyfeddawl bor a fyddi,
 “ Mawr ei nawdd ger fy mron i.”

Ioseph, mewn rhwysg dieisawr—urddaswyd
 Yn hardd iesin flaenawr;
 Gawriai pawb yn mhob gorawr,—
 “ Llwydd—Amen—i'n llywydd mawr.”

Yn llaw Dduw Ner llwyddo wnaeth—drwy addurn
 Ei dreiddiawl wybodaeth;
 Yn hylaw raglaw yr aeth,
 Llwy'r deilwng, a llyw'r dalaeth.

Diwydiawl a da odiaeth—weinyddodd,
 Dan nodded Rhagluniaeth;
 Einioes y llu, o'i ddeutu ddaeth,
 Arbedwyd drwy'i ddarbodaeth.

DEBORA A BARAC.

GWEDI Ehwd frwd ei fron—eiddigus,*
 Roi'i ddager drwy Eglon,
 A gwneuthur ger disbur dòn
 Trylanastr o'i elynion,—

Ar ol hyn ca'dd Israel hedd—dirwygiad
 Bedwar ugain mlynedd,
 Heb un dremyg boen dromwedd,
 Na chlwyf gan saethau na chledd.

* Dechreua yr Awdl uchod yn Barn. iiii. 21, a dybena yn niwedd y v, sef “Cân Debora a Barac.”

Tra'r oeddynt ar hynt yn rhwydd—yn ethawl
 Wasanaethu'r Arglwydd,
 Gan Iôr hwy gaen' yn wiwrwydd,
 Ddieisawr, helaethfawr lwydd.

Ond och! eilwaith dacw hwy'n dychwelyd
 Yn ffrawdd anferth idd eu hen ffyrdd ynyfdd,
 Gan wneud drygioni mewn anfri'n unfryd
 Yn erbyn Dofydd, drwy efrydd aufryd,
 A chroes orfeiddiawg echrys arfeddyd
 Gwallau a rhyfyg, gan gellwair hefyd,
 A'u hegr hyll feiau'n hagra'u holl fywyd,
 Y delwau meirwon wnaent ddylion ddilyd,
 Ymroi i audduwiaeth â mawr ddyhewyd,
 Heb un ter rinwedd, buont hir enyd,
 Duw Abra'm mewn modd dybryd—ddigiasant,
 Ow! gerwin gilient a'u gwàrau'n gelyd.

Yna Duw Ion cyfion eu
 Yn eu gwarth wnai eu gwerthu
 I law Jabin, erwin ŵr,
 A Sisera, draws arwr,
 Yn gaethion gwaelion eu gwedd—i'r ffyrnig
 Gwn mileinig, lawn ugain mlynedd.

Codi'u llef i'r nef yn awr,
 Ceir y dorf mewn cur dirfawr,
 Dan deimlad fel brathiad bron
 O'u tramawr feiau trymion.
 Duw y duwiau wrandawodd—eu llefau,
 A'i fyg wiw radau fe a'u gwardedd.

Duw Iôr gododd Debora
 Ffodus, ddoeth brophwydes dda;

A Barac, wr pybyrwyd,
 Ar y gâd yn flaenor gwych.
 "Barac," ebai Debora,
 "Diorn hyf-yngadarnha,
 "Dos mewn parch ar arch yr Iôr,
 "Bwynt diball, i ben Tabor,
 "A dethol filwyr doethion,
 "Ddeng mil o'r hil yr awr hon;
 "Iôr hedd sy'n addo rhoddi—dy alon,
 "Hyll abwydon, i'th llaw heb oedi;—
 "Sisera, d'wysog suraidd,
 "Hen ymfrostgar floeddgar flaidd,
 "A Jabin a'i fyddin fawr,
 "Groes anfwyn gawri swnfawr;
 "Chwai eu naw can cerbyd haiarn
 "Ddinystri, a sethri fel sarn."
 Ebai Barac, "Mae'm bwriad,
 "Yn awr, gwel, flaenori'r gâd
 "Yn astud iawn, os doi di,
 "Mam wiwfad, gyda myfi;
 "Didwyll wrthyt y d'wedaf,
 "Oni ddoi di, 'n ddiau nid âf."
 Yna Debora burwedd,
 Mwyn iawn atebai mewn hedd,
 "Rhwydd ddyfod, rhydd addefaf,
 "Barac, yn ddinac a wnaif;
 "Fy sel yn ddihefelydd
 "Dros ffyddlon blant Sion sydd;
 "Mawreddog yr ymroddaf,
 "Gyda'r llu wynebu wnaif;
 "Dy gyfnerth, paid ag ofni,
 "Yn llaw Naf a fyddaf fi:
 "Ond tebyg dylit wybod
 "Na chei'n awr ryglyddfawr glod,

“ Neu fawl gorwych fel gwron
 “ Doeth a hyf, yn y daith hon;
 “ Arwyddion in’ a roddwyd
 “ Mai llwfrhau i raddau’r wyd;
 “ Er yr atteg ro’ir iti,
 “ Coelia, frawd, cei lai o fri.
 “ Duw Ner a werth Sisera
 “ Yn llaw gwraig hardd ddigardd dda,
 “ Sef gwraig lân eirian arab—llawn pryder
 “ Y duwiol Heber, o deulu Hobab.
 “ Er hyny’n awr, o’n rhan ni—llywia’r gâd,
 “ Mae mawr alwad am it’ ymwroli.”

Yn fyddin arfog enwog hwy unwyd,
 Ac i’r hynt orwech draw acw’r anturiwyd,
 Yn llawn o obaith y llu wynebwyd,
 Cerbydau Jabin a’i fyddin faeddwyd,
 Deng mil o bybyr filwyr a falwyd,
 At afon Cison hyson hwy neswyd,
 Y lluaws gwibiawg i’r lle ysgubwyd;
 Sisera fradawg, feiddiawg, orfyddwyd,
 Ond meibion Israel fu wael, fe welwyd,
 Heddyw’n wyrthiawl gan Dduw hwy a nerthwyd,
 A chyfiawn eu dyrchafwyd—y pryd hyn,
 O law yr adyn hwy lwyr waredwyd.

Sisera’n llawn o soriant,
 Mewn lliidiawg a chwyddawg chwant,
 Ffoi a wnaeth, gyda ffun wan,
 Warth hynod, wrtho’i hunan,
 At babell Jael yn wael ei wedd,
 Ag egwan grynedig agwedd.
 Gwiwfwyn gwnai hithau’i gyfarch
 Wrth ei bodd, dan rith o barch;

Di oed wrtho y d'wedai
 Yn bwyllgar, foesgar ddifai,—
 “Bydd gefnog, hardd d'wysog da,
 “Chwai anmharch ni chei yma;
 “O dwrf y cadau dirfawr
 “Tro i mewn, rhag y taro mawr;
 “Tyred, cei, f'arglwydd tirion,
 “Bob lles yn y babell hon.”
 I mewn y daeth mewn mynyd awr
 Yn llonfwyn i'r babell wenfawr:
 Mewn serchlon ufuddlon fodd,
 Da odiaeth, wrthi d'wedodd,—

“Wraig dda, dioda fi â dw'r—tôr syched
 “Hen elyn caled sy'n wael enciliwr.”

Yn lle dw'r, heb un llid oriog—na gwg,
 Nac agwedd afrywiog,
 Rhoes hithau'n fwyn i'r llwynog—i'w foddio,
 'N helaethwych yno laeth o'i chynog.

Wed'yn ar ffrwst, ni oeddodd,
 Tan wrthban, druan, ymdrodd,
 A gwareiddiawg orweddodd—mewn cornel,
 Tremyg osgel, nes y trwm gysgodd.

Ar ol i'r blaidd delffaid du—ystyfnig,
 Milain, eiddig, lwyr ymlonyddu,
 Hithau'n ddisorth mewn morthwyl
 Gydiai'n hawdd, gyda iawn hwyl,
 A hoel hir, meddir, mewn modd
 Gwir hyddestl a gyrhaeddodd;
 Pur hylaw pwyai'r hoelen
 Yn bost drwy esgyrn ei ben!

Treiddiai i mewn trwyddo 'mhell
 I bybyr lawr y babell;
 Syrthiai'r gelyn, dremyn drwg,
 Yn gelain yn ei golwg:
 Felly Jael i'r Israeliaid
 Wrth gefn yn gynhorthwy gaid.

Yn llon rwydd allan yr aeth—i rod-di
 Gwireddawl hysbysiaeth
 Didwyll i'r llyw da odiaeth,
 A rhin wech o'r hyn a wnaeth.

“Dyred,” ebe Jael dirion—wrth Barac,
 Araith bur heddychlon,
 “Gwel, rhoes i, fe glywir son,—lem driniaeth,
 Hyd farwolaeth, i lyw dy frau alon.”

Dyna y dydd dedwydd, da,
 Siriol, gwnaed brâd Sisera;
 A'r hen Jabin, flin ei floedd,
 Faedd annwfn, a'i fyddinoedd,
 Lurguniwyd, luchiwyd i lawr—
 Darfu ea rhyfyg dirfawr.

CAN DEBORA A BARAC.

YNA Debora anwyl,
 A'i hysbryd mewn hyfryd hwyl,
 A Barac lân, seirian sant,
 Gwiw, nawsaidd, gydganasant
 Bur eirioes ber arwyrain,
 Nefolgar, gysongar sain;

“Y trullydd, pan doi o’th drallod—erchyll,
 “A’th ddyrchu’n dra hynod,
 “Cofia fi’r dydd y cei fod—mewn mawrlwydd
 “Ger bron dy arglwydd, y brenin dewrglod.”

Ei gyfiawn swydd a gafodd—a Phar’o
 Hoff eirioes was’naethodd ;
 Ond Ioseph gain, firain, ryw fodd,
 A’i ing hefyd, anghofiodd !

Gwed’yn, mawr ddychryn a ddaeth—i frenin
 Y freiniawl lywodraeth :
 Ffraw boenid Phar’o benaeth
 Wedi nos—breuddwydio wnaeth.

Galw a wnaeth heb gywilydd—y doethion,
 A daethant yn ufydd
 Ger bron, gaffaelion gau ffydd—yn ffrostus,
 Gâd fygylus, i gyd efo’u gilydd.

Yr anferth swynwyr ynfyd—naws gwallus,
 Nis gellynt ddeonglyd,
 Methent roi dim esmwythyd,
 I Phar’o o’i gyffro i gyd.

Yna’r trulliad yn union—a gofiodd
 Ei gyfaill mwyneddion,
 A’i ddawn llâd ddeonglodd yn llon
 Ei freuddwyd, heb gyfareddion.

Prysurwyd, galwyd y gwâr—fynwesol
 Fwyn Ioseph o’r carchar,
 At Phar’o’n ddeffro oedd ar
 Lewychus orsedd lachar.

Phar'o a deg fynegodd—aralleg
 O'r oll a freuddwydiodd,
 Yntau mewn fflur, fwynbur fodd,
 Dianglod, a'i deonglodd.

Mynegai'r sant mwyn agwedd—a duwiol,
 Y deuai saith mlynedd
 O amldra gwiwdda mewn gwedd
 Odidog, drwy'r holl dudwedd.

“Coelia, fe ddaw i'w ca'lyn—i'th orawr,
 “Saith eraill o newyn;
 “Par'to,” eb ef, “y pryd hyn,
 “Na arbed, yn eu herbyn.

“Gan hyny, gwna yn union—ymorol
 “Am ŵr doeth a ffyddlon,
 “A gosod ef yn gyson
 “Olygydd, a llywydd llon.

“Ffraw ethawl casgled ffrwythau—cain odiaeth
 “Y cnydiawg flynyddau;
 “Boed iddo iawn gludo'n glau
 “Rad luniaeth i'r ydlananau.

“Cadwer yd mewn modd hydyn—ddigonedd
 “O gynnyrch pob blwyddyn;
 “Ceir toraeth helaeth drwy hyn
 “Dan awyr, pan daw newyn.”

Phar'o draethai'n hoff hyrwydd,—“Da Ioseph,
 “Dewiswn di'n ebrwydd;
 “Seirian fab Jacob sywrwydd,
 “Teg was Ion, ti gei y swydd.

Eiliasant gân felysawl—soniarus,
A dawn fedrus, i'w Duw anfeidrawl.

Llawenydd uwchllaw anian
A geir yn nhestun y gân;
Sef gwaith y perffaith Dduw pur,
Teyrn ne' fâd, tirion Fodur,
Yn talu'r pwyth i'w ammwythion—ciaidd,
Draws greulonaidd dreisgar clynion.

“Clywch! O edlin freninoedd,
“Ystyriwch, gwelwch ar g'oedd;
“Chwithau'r trystiog d'wysogion,
“Gwŷr breisg, arswydwch ger bron;
“Duw Iôr, y cadarn Farnydd,
“I'r saint yn gyfnerthwr sydd.

“Myfi, myfi, fy Rhi fawrhaf,
“Gogoniant i'm Duw a ganaf.

“O'r Aifft y dygodd yr Ion—hil Iago,
“Ei olygus weision;
“Ymrwygodd y môr eigion—mewn llwyddiant,
“Hoff rwydd y glànant o ffordd eu gelynon.

“O Arglwydd Dduw y duwiau—drwy'r oesoedd
“Dirif ydd ydoedd dy ryfeddodau.

“Deilliodd, pan aethost allan
“O Seir, ddychrynadwy san,
“Rhyw nerthawl, drystiawl farn drom—aruthrawl,
“Dyrfâau swydawl, darfai faes Edom;
“Y gronwech ddaear grynodd—gan flyngfawr
“Drystiawg gni' erfawr drosti cynhyrfodd.

“ Y nefoedd eresawl a ddyferasant,
 “ Cymylau tewion, mawrion ymwrant,
 “ Diofn iawn weision y defnyasant
 “ I lawr o’r entrych fawrwyh lifeiriant;
 “ Mynyddoedd uthrawl, oesawl, doddasant
 “ O flaen Dofydd, i gyflawni difiant
 “ A’r Sinai hwnw yn eres hwy unant,
 “ Dieisawr weithredasant—dros burder
 “ Duw Ior y Gwiwner a’i der ogoniant.”

Unodd cenadau’r wiwnef
 O blaid anwyliaid y nef.

Fe ddygodd Duw’n fuddugol—y genedl
 I’r Ganaan naturiol
 Addawodd roi i’w dduwiol
 Weision mād, a’u hād o’u hol.

Tarianawg mewn tirionwch—y daethant
 Trwy deithiau’r anialwch,
 Tan unben, hoff lawen fflwch,
 Llawn aidd, i dir llonyddwch.

Y ddedwydd wlad dda odiaeth—lifeiriawl
 O fawrwyh ddarbodaeth,
 Rhi y nef ei rhoi a wnaeth
 Iddynt yn etifeddiaeth.

Achles mewn tir heddychlawn
 Fwynhasant, a llwyddiant llawn;
 Ced oesawl, tra cadwasant
 Gyfraith lân seirian Duw sant;
 Chwyrn eiddig ddychryn oeddynt,
 Lawn gwae, i’w holl alon gynt;

c

Ymledodd ofn teimladwy
 Dros y tir drwy'u harswyd hwy:
 Ond blyngder a digter du
 Droes iddynt am droseddu,
 Ingawl ryfeloedd engyrth,
 Anhap erch, oedd yn y pyrth;
 Dyddfu mewn annedwyddfyd,
 Tan gosb, yr oeddynt i gyd.

Hwythau a'u gyddfau yn gaeth—wnaent ruddfan,
 Yn dorf egwan a diarfogaeth.

Gwaewffon na glân darian nid oedd
 I weled yn mhlith eu miloedd,
 Truenus tan law estroniaid
 Hil Iago yn gwywo a gaid.
 Eu rhoddi dan geryddon
 Am bechu ddarfu Dduw Ion.

Yn lle ffyddlon fyw'n dduwiolion,
 Dawel weision, fel dylesynt,
 Dewis gwaelion dduwiau meirwon
 Yn annoethion yno wnaethynt.

“Gwelwyd hwy'n drwm eu galar—flynyddoedd,
 “Fel yn nyddiau Samgar,
 “Dan 'winedd dynion anwar—wnai'u drygu,
 “Ie 'u bradychu â braw diachar.

“Cwynaw yn fawr eu cyni
 “A wnaent yn ein dyddiau ni,
 “Cyn i mi godi'n gadarn
 “Yn y byd i weini barn.

“ Fy nghalon union anwael—sydd addfwyn

“ At syw ddeddfwyr Israel,

“ Gwrolion ffyddlon ddiffael—a llonydd,

“ O dymher ufydd a diymrafael.

“ Rhai sydd enwog farchogion—eres iawn

“ Ar asenod gwynion;

“ A'r dethawl farnwyr doethion

“ Molwch, mawrygwch yr Ion.

“ Seiniwch anthem gysonawl

“ I Dduw myg sy'n haeddu mawl,

“ Na foed ein llwythau'n fudion

“ Heb foli ein Rhi'r awr hon.

“ Deffro, deffro gyda'r côr, Debora,

“ A thithau, Barac, gyda'th iaith bura';

“ Hwylia alawon, cân halaluia

“ O groew hyfawl i y gwir Iehofa,

“ Sy'n addfwyn rymus noddfa—i'w ffyddlon

“ A'i anwyl weision y rhai ni lysa.

“ Mawl cyson Duw Ion y wiwnef

“ Gawriwn oll hyd gaerau y nef.

“ Esmwythyd gawsom weithion—dinystriwyd

“ Ein hastrus elynion;

“ Cwerylus fleiddiaid creulon

“ Ysgubwyd, daflwyd i'r dôn.

“ Unodd y Zabuloniaid—wyr erfai,

“ A'r arfog Naphtaliaid,

“ Ac o'u tu, heb lysu, 'n blaid

“ Hoff rymus fu'r Ephraimiaid.

“ Rhifer llwyth Issacer befyd—hwythau
 “ A ddaethent yn unfryd,
 “ Yn gawri llawnfri llonfryd,
 “ Ymdrechgar, gweithgar i gyd.

“ Drwy wych odiaeth ymdrechiadau—enwog
 “ Wroniaid ein llwythau,
 “ Ac arfaeth rhagluniaeth glau
 “ Yn arwedd ein banerau,—
 “ Dw’r a thân diwrthuni
 “ A’r gwynt a’n cyfnerthynt ni;
 “ Anian ei hun a wenawdd,
 “ Yn erfai gweinyddai nawdd.”

Gwiwlwys caed buddugoliaeth—ar filain
 Ryfelawg genedlaeth;
 Ar un dydd i’w rhan y daeth
 Du wgs farnedigaeth.

“ Yr hen afon hòno’n hawdd
 “ O’u holl obaith a’u lleibiaudd.

“ Llwyd ysgubwyd y llerw weis cibawg
 “ Gan ffrydiau gwylltion mawrion murmurawg,
 “ Trwy wyw ochenaid i’r eigion trochionawg
 “ Yr afon ffrochwyllt, ferwwyllt lifeiriawg,
 “ Sef Cison chwyddfawr lwyddfawr ddofn leidiawg;
 “ Fy enaid, oedd ruddfanawg,—adlonwyd,
 “ A hylwyr ddyrchwyd i hwyl ardderchawg.”

Fe unodd yr elfenau—ymwylltiodd
 Y mellt a’r taranau;
 Cenadon mawrion Duw mau—a’u dryllient,
 Ac ni arbedent hwy na’u cerbydau.

“ Y ser o'r uchelderau—yn gedyrn
 “ A godent fanerau,
 “ Gan ymladd yn eu graddau—mawreddawg,
 “ Ac uthr odidawg fu'u gweithrediadau.

“ Darfu hyder Sisera,
 “ Wr bostfawr, trystfawr, llawn tra,
 “ A'i holl ffrostgar, lidgar lu,
 “ Y gwydlaidd ffyrnig waedlu,
 “ Eu du ornaidd gadernid
 “ A fethrais, lleddfais eu llid.
 “ Minnau mewn per odlau prydlon,
 “ A mwynaidd baradwysaidd dôn,
 “ Aberthaf, rhoddaf yn rhwydd
 “ Fawrglod i enw f'Arglwydd;
 “ Gwir fawl o ddifrifawl fron
 “ Arfaethawl a ro'f weithion,
 “ I'm Hiôr addwyn am rod-di
 “ Ei nawdd a'i gymhorth i ni.

“ Ha! Meros ni ymwriodd
 “ Mewn brawdol ufuddol fodd,
 “ Trwy iawn chwaeth gyd-daro'n chwyrn
 “ Rhag rhuthrau'r cadau cedyrn;
 “ Achreth a chwerw echryn
 “ A'u gorfydd o herwydd hyn:
 “ Du afar, eb angel Dofydd,
 “ Ddaw i'w plith, a throm felldith fydd.

“ Moler Jael, wraig ddiffaeledd—wech loewrin,
 “ Uwchlaw yr holl wragedd;
 “ Am ei gwaith caed hirfaith hedd
 “ I'w heinioes yn ei hannedd.

“ Ei chlod dros fyth cofnoder
 “ I’r llwythau hyd seiliau’r ser,
 “ Darfu gyflawni dirfawr
 “ Dda orchwyl â’i morthwyl mawr;
 “ Trywanodd ben terwynwyllt,
 “ Cigeiddlyd, wr gwaedlyd gwyllt.
 “ Ni wel ei fam annilyth,
 “ Fygylog, mo’i benglog byth:
 “ Camsyniodd, ni chafodd chwaith
 “ Unrhyw fuddugawl anrhaith;
 “ A’i heres arglwyddesau
 “ Hunanawl, gwydiawl a gau,
 “ Er eu sonfawr wers ynfyd,
 “ Siomiant a gawsant i gyd.
 “ Eu hir fradawg aufrudiaeth
 “ Fel y niwl diflanu wnaeth.”

Deugain mlynedd o heddwch
 Gai’r wlad, heb un t’rawiad trwch.

“ Felly darfyddo’n hollawl—gelynion
 “ Y glân Iôr anfeidrawl;
 “ Ac iddo bo’n dragwyddawl,
 “ Amen, Amen, emynau mawl.”

ELIAS AR BEN CARMEL.

1 BREN. xvii. xviii.

Elias yn datgan wrth Ahab am y newyn—Duo yn gorchymyn iddo ymguddio wrth afon Cerith, lle y porthid ef gan gigfrain—Duo yn ei anfon ef i Sarepta i gael ei borthi gan wraig weddho ymo, yr hon yr estynwyd ei lluniaeth tra parhaodd y newyn, ac y cyfodwyd ei mab o farw i fyw—Gorchymyn Duo iddo ymddangos i Ahab—Yn cyfarfod ag Obadiah, yr hwn a ddygodd Ahab ac yntau at eu gilgdd—Ei gerydd i Ahab—Ei waith yn gwrthbrofi prophwydi Baal yn gyhoeddus, nad Baal, ond Iehofa, ydoedd Arghoydd, trwy ddwyn i lawr dân o'r nef i ysu y poethoffrum—Lladd prophwydi Baal—Rhagddywedyd am wlaw wrth Ahab, ac yn llwyddo drwy lawer o weddio.

RHAN I.

ELIAS o Gilead

Oedd ŵr mawr gan Dduw, Iôr mād,
A doniol brophwyd uniawn,
Talentog, mygedog iawn.

Dybu'n genadwr diball—at Ahab,
Hurt ehud deyrn cibddall,
Llew engyrth, a llyw anghall
Anhydrin fyddin y fall.

Neud eres genadwri—hydr ieithydd
A draethai heb oedi
I'r penrhydd fradydd di fri,
Draig annwfn, llawn drygioni.

Fel hyn, heb wād, drwy fād fodd,
Wyrth didwyll, wrtho d'wedodd,
Mewn gonestrwydd hylwydd heb
Annynol dderbyn wyneb,—

“Gwlith na gwlaw ni ddaw’n ddiau—i’th oror,
 “Faith hirion flynyddau,
 “Ond yn ol gwir reolau
 “Gair pur y pen Modur mau.”

Gadael y cadno gwed’yn
 Wnaeth Elias, gwas Duw gwyn,
 Gyda ei halogedig
 Farbaraidd wraig ddelffaidd ddig.

Galwad fawreddawg eilwaith—a gafodd,
 Drwy deg wiwfyg araith,
 Gan Dduw Nêr, mewn mwynder maith,
 Hoff ammod, i ffoi ymaith.

“Diane ag ysbryd eon—o’u cyrhaedd, ●
 “Gerllaw Cerith afon,
 “Mewn hedd ymguddia ’min hon,
 “Cei lonydd rhag gelynon.

“Pur is haul y perais i—’n garedig,
 “I’r adar dy borthi;
 “Dithau, wr coeth dy deithi—yn gyson
 “Diau o’r afon y dw’r a yfi.”

Cyrhaedd at afon Cerith—a ddarfu,
 Lle ca’dd ddirfawr fendith,
 Mewn gwlad oedd bell, tan drom felldith,
 Ar bob llaw heb na gwlaw na gwllith.

Y cigfrain eorth yno a’i porthodd
 Dros ddyddiau meithion, gwiwlon eu gwelodd
 A doniau gorfawr yn dwyn o’u gwirfodd,
 Bara a chig maethlawn yn gyfiawn gafodd,

Rhin da 'wyllys, y rhai'n a'i diwallodd,
 I'r ammod oleu yr ymdawelodd,
 Yn ol ei arfer, yn ŵyl o'i wirfodd
 Ei ddwyfol Luniwr mewn hedd foliannodd;
 A dir o'r afon y dw'r oer yfodd,
 I feddwl uniawn Duw e foddlonodd;
 O mor weddus ymroddodd—dros Dduw Iôr,
 Grasol eiddigor, gwir sel a ddygodd.

Bu enyd yn byw yno—heb wyneb
 I'w boenus lesteirio;
 Ac anian fawr yn gwawrio—o'i gwmpas,
 A'i gwên addas yn teg weini iddo.
 Gwedi hir ysbaid o wres tanbeidiawl,
 Yr afon sychodd rhyw fodd rhyfeddawl,
 A dirper addas ei dw'r pereiddiawl
 A dreuliodd weithian allan yn hollawl,
 Yna gerwin engiriawl—olygiad
 Gwan ddylanwad a ga'i yn ddilynawl.

A gair Duw Nêr, rwyddber iaith,
 Ddoeth alwad, a ddaeth eilwaith
 O'r nef at yr eirian ŵr,
 Y da fawrwydych adferwr,—

“Cyfod, brysia, cerdd oddiyma
 “Draw, a gwylia rhag drwg alon;
 “Dos, cartrefa yn Sarepta,
 “Na arswyda yn nhir Sidon.

“Herwydd siars a roddais i—ar guddoeth
 “Wraig weddw dy borthi,
 “Rhyfeddol ŵr a fyddi
 “Yn nghyntedd ei hannedd hi.”

Gwed'yn fe bybyr gododd—y doethwr,
 I'w daith y prysurodd;
 At Sidon drwy fwynlon fodd,
 A iawn obaith wynebodd.

A chyn hir trwy'r crindir cras—daeth ar **daith**,
 Heb rith o weniaith, at borth y ddinas,

A gwelai wraig hylaw, rydd,
 Bur rywiog, yn hel briwyydd;
 Gofynodd y gwiw fwynwr
 I'r wraig fâd ddognad o ddw'r,—
 “Dwg mewn llestr, cei gofrestr gu,
 “Ychydig i'm disychedu.”

Ac a hi'n myned, weithred wyl,
 I'w gyrchu yn bena' gorchwyl,
 Llefodd, fe alwodd eilwaith,
 Ar ei hol, ddewisol waith,
 A d'wedai'r gwir gredadyn,
 Oedd ddiwyll i Dduw a dyn,—
 “Dwg hefyd, wraig ddiwyd dda,
 “Firain, im' ddogn o fara
 “Yn dy law yn dawel iawn,
 “Y ddoniol weddw uniawn.”

Hithau atebai weithion,
 A braw yn llenwi ei bron,—
 “Gŵyr Duw Naf na feddaf fi,
 “Wr addwyn, ddim i'w roddi;
 “Oll yn tŷ yw llonaid dwrn,
 “Coelia, o flawd mewn celwrn;
 “Ys tan doll, ac mewn 'sten dew,
 “Gwelir ychydig olew;

“ Gwaelaidd wyf, fel y gweli,
 “ Heddyw fy swydd yn d’wydd di
 “ Yw hel dau, wrth oleu dydd,
 “ O sychion frenon friwwydd;
 “ Prysoraf, teithiaf i’m tŷ
 “ Annedd, i bar’toi hyny
 “ I mi a’m mab arabedd
 “ Serchiadol, ddewisol wedd,
 “ Etto i’n hoes bwydawn hyn
 “ I gyd—byddwn feirw gwed’yn.”

Dagrau a geiriau’r wraig ŵyl
 Swynodd Elias anwyl,
 A dioed wrthi d’wedodd
 Mewn siriawl ufuddawl fodd,—

“ Dy gyfnerth, paid ag ofni,
 “ A dy nawdd yw ein Duw ni,
 “ Gwna’n ol d’air, ddiwair wraig dda,
 “ Hoff agwedd, na ddiffygia;—

“ Cofia wneuthur o’r cyfan—a henwaist,
 “ A hyny’n bur fuan,
 “ I mi’n gyntaf, rhwyddaf rhan,
 “ Wrth f’achos, un dorth fechan.

“ Ac wed’yn, yn llawn cudab,
 “ O’th fodd, gwna i ti a’th fab,
 “ Dy adail yn lle dedwydd,
 “ Drwy wyrth Nêr, ar fyrder fydd.
 “ Yn awr, er dy lesfawr lwydd,
 “ Erglyw bur air yr Arglwydd,
 “ Dyma’r modd ’r addawodd ef
 “ O’r lonwech araul wiwnef,—

"Iôr, ei gu eirioes air a gywira,
 "Arglwydd y lluoedd, fythoedd ni fetha,
 "Yr olew a'r blawd, iawn ffawd ni pheidia,
 "Yn ystor helaeth y bydd, nis treulia,
 "Hyd nes dyfydd y dydd da—hyfrydwyh,
 "Attegawl lewych, etto y gwlawia."

Hi aeth, ac a wnaeth yn ol
 Gair dien y gwr duwiol;
 Cawsant i gyd mewn cysur,
 A mawr rin, ymborthi'n bur,
 Drwy radau, gwyrthiau Duw gwyn,
 Heb luddias, ysbaid blwyddyn.

Ystor yr olew nis treuliodd—a y blawd
 O eu blaen ni phallodd,
 Dwys geinwaith, nes diagynodd
 Gwlaw graslon drwy ferthlon fodd.

Yno bu'r teulu anwyl
 Hir enyd mewn hyfryd hwyl,
 Dan fyged nodedd y Nef,
 A heddwch yn eu haddef.

Ar ol hyn daeth dychryn du
 Toliawg, i blith y teulu,—
 Y mab bychan hoff lân a fflur,
 A glafychodd o glwyf echur,
 Nes yr aeth, ow! saeth yw son,
 Mor waelaidd a'r marwolion!
 Ei anadl aeth o hono,
 Rhyw ergyd trymllyd fu'r tro!
 Ei fam, ni wiw mo'r ammhau,
 Wnai drwst erch, gan wyw dristâu;

Codi llef a wnaeth hefyd
 Yn ei braw ar hyn o bryd,
 Ei huchenaïd a'i chwynion
 Oedd rwygiad a brathïad bron;
 Yno mewn chwerwder enaid
 Gruddfanu y bu'n ddi baid;
 Ei threm oddiwrtho ni throdd,
 A diwâd fel hyn d'wedodd,—

“ O, ŵr Duw, 'rwy'n cofio'r dydd
 “ Y daethost fel ymdeithydd,
 “ A rhydd genadydd y nef,
 “ Yn hyddestl iawn i'n haddef;
 “ Da gwn mai ein digoni
 “ Ar fyd tost a ddarfu ti:
 “ Ond yn awr, brophwyd mawr a mâd,
 “ Ofnadwy yw'r cyfnewidiad!
 “ Dylif o ddybryd alaeth
 “ I'm hoerion ddwyfron a ddaeth;
 “ Pa irad fai fu'n peri
 “ It' ladd fy mab arab i?
 “ Ha! addien fab, heddyw'n fyw,
 “ D'wedaf, och fi! nid ydyw!
 “ Dyddanwch, er dydd ei eni,
 “ Ow, ow, fy mab! a fu i mi:
 “ Trwm hiraeth tra anmharol,
 “ Ow! gwae fi! a gaf o'i ol.
 “ Fy mab, fy mab, ni chaf mwy
 “ Dy gyfarch drwy deg ofwy!
 “ Mae'n swrth yn fy mynwes i
 “ Yn awr, a'i gnawd yn oeri!
 “ Fy mab llâd, mâd yn mhob modd,
 “ Drwy ingawl boen a drengodd!

D

“O na chawn, ddewislawn waith,
“Ei weled yn fyw eilwaith!”

Elias ffyddiawg, selawg, a sylwodd,
Ar ei gruddfanau diau gwrandawodd,
A'i fâd ystyriaeth efe dosturiodd,
Ag araith odidawg wrthi d'wedodd,
I weini arfoll yno o'i wirfodd,—
“Moes dy fab dawnus, hoenus, a hunodd.”
Hithau i'r hyddestl ddoethawr a'i rhoddodd,
Hynt digamwri, yntau'i cymerodd,
I'w 'stafell iachus sawrus prysurodd,
A hynaws wed'yn ei iawn osododd
Ar ei wely, ac yna eiriolodd,
A moesau tyner arno 'mestynodd,
Dair gwaith olynol graddol gorweddodd,
Hefyd ar Dduw fe a daer weddiodd,
A dwys galon wrtho y dysgwylodd,
O wraidd ei fynwes fe a ruddfanodd,
Am ei adferiad sywfad deisyfodd,
Gwrandawiad prydlon yn gyfion gafodd,
Duw Abra'm a'i dadebrodd,—ei delaid
Graff loew enaid â'i gorff a ail unodd.

Elias â hwyl lawen—fawladwy,
Goffeidiodd y bachgen,
Mewn mwyneidd-dra gyda gwên
Siriolaidd is yr haulwen.

Yna trwy rin yn ddinam,
Fe'i dygodd o'i fodd i'w fam,
Yn ddidwyll iawn, gan dd'wedyd,
Mewn parchus, fawreddus fryd,—
“Gwel, siriol wraig lwys arab,
“Byw yw dy gain firain fab;

"Tithau'n llon dod ogoniant
 "I'r Duw mawr, gorseddfawr Sant;
 "Ti a'th fab fo'n cydnabod
 "Ei fawredd rhyfedd dan rhod,
 "Dihafal wyrthiau Dofydd
 "Yn destun mawl fythawl fydd."

Y wraig hawddgar, weithgar, -wyl,
 Dderbyniai'i hardd fab anwyl
 O law yr hen Elias,
 Drwy ddwyfol waredol ras;
 Llanwyd hi â llawenydd,
 Da ffawd, a nerthwyd ei ffydd,
 Yn onest d'wedai'n union,
 Mewn tymher hwylusber lon,—

"'Nawr gwn dy fod yn wir gènad
 "Oddiwrth Dduw Nêr, y Muner mād,
 "Prophwyd mawr dieisiawr wyt,
 "A dedwydd ŵr Duw ydwyt;
 "A gwir teg ydyw gair tau
 "Duw uniawn yn dy enau."

RHAN II.

Yn ffraw ar ol dyddiau lawer—y daeth
 Gair Duw o'r uchelder,
 Trwy wiw rin at yr ener
 Elias, anwylwas Ner.

"Ti, ŵr glân, seirian, prysura—godi,
 "A gadael Sarepta;
 "Yn hydr dos, genadwr da,
 "Syw, mirain, i Samaria."

“Yno'n hybur wyneba—'r hen Ahab,
 “Deyrn ehud—nac ofna
 “'R bradychwr, treisiwr llawn tra,
 “Satanaidd Palestina.

“Diau ar y ddaear ddu
 “Doddfawr, gan wres sy'n dyddfu,
 “Eirioes wlith ac eres wlaw
 “A roddaf i'w hireiddiaw.”

Myned drwy barch wrth archiad—Iehofa,
 Yn ddihafal gènad,
 A ddarfu'r mwyngu ŵr màd,
 Teilwng, heb un attaliad.

Niweidiawl drwm newyn ydoedd—bryd hyn,
 Er braw tost i filoedd,
 Trwy'r holl wlad, a'i daeniad oedd
 Yn ysawl mewn dinasoedd.

Elias i Galilea—y dydd
 Y deddodd ef gynta',
 Cyfarfu'r dewrgu ŵr da
 A'r duwiol Obadia.

Hwn oedd fâd wir gredadyn,
 Yn ofni Duw'n fwy na dyn,
 Breiniol benteulu'r brenin,
 Meddiannol ar reddfól rin:
 Y tirion ŵr ceinlon cu,
 Wynebus, a'i hadnabu;
 A gwiwferth wedi'i gyfarch
 Yn wylaidd, drwy buraidd barch,

Syrthiodd o'i lwyrfodd i lawr
 Ar ei wyneb eirianwawr,
 Ac mewn hawddgar, feiddgar fodd,
 Diwawdiaith, wrtho d'wedodd,—

“ Onid ti weithion y gwron gwiwras,
 “ Gloewaidd ei lewyrch, yw f'arglwydd Elias?
 “ Prophwyd agwrddawl, praff o deg urddas,
 “ Uthr a diwyrni athraw y deyrnas;
 “ Am arweddu mor addas—dy gywir
 “ Glod a daenir drwy bob gwlad a dinas.”

Rho'i yntau ar amrantiad
 Ateb gwâr, mwyngar a mâd,—

“ Myfi, sy'n ffraw rybuddiaw'r byd,
 “ Ydyw, mal 'rwyd ti yn d'wedyd.
 “ Dos, gwed i'th glwth, gegrwth gas
 “ Lywydd, it' wel'd Elias:
 “ Dos, brysia, mynega'n awr
 “ I'r bwystfil chwerw a bostfawr,
 “ Y safaf, deuf liw dydd,
 “ O flaen y teyrn aflonydd;
 “ Fy ngwaith i'r pen orphenaf,
 “ Derbyn wyneb neb ni wna.”

Y gwaraidd swyddog eirioes,
 Di rith atebiad a roes
 Yn ddiuedi, gan dd'wedyd,
 Mewn moesgar, fireingar fryd,—

“ Pa bechod mawr, drygsawr drais,
 “ Eithradwy, a weithredais,

- “Pan fyni roddi'th rwyddwas
 “Yn nwyllaw y cadnaw cas?
 “Ei fryd sydd am ddifrodi
 “Dy fywyd duwiolfryd di:
 “Nid oes llin na breniniaeth
 “Is nen, nad dy geisio wnaeth,
 “Mewn chwerwder a digter du,
 “Diachos, i'th fradychu.
 “Ond yn awr, glodfawr ŵr glân,
 “A siriol brophwyd seirian,
 “Wrthyf fi y d'wedi, Dos,
 “A dychwel, gan fod achos,
 “At Ahab gerth, anferth ŵr,
 “Trahauswyllt, ddybryd dreisiwr,
 “Iawn osb, i'w wneud yn hysbys,
 “Mewn tymher lwysber ddi lys,
 “Heb os yr ymddangosi
 “Ger ei fron mewn hygar fri:
 “Yr wyf weithion bron mewn braw
 “Yn tra isel betrusaw;
 “Ofnwyf, pan adawwyf di,
 “Dda awdwr, yn ddioedi
 “Ysbryd Ner wna'th gymeryd
 “Ar fyrder i bellder byd;
 “Yna'n ffrom, os ca'i siomi,
 “Y llewaidd ŵr a'm lladd i.
 “Ofni'r uchel Dduw Celi
 “Drwy f'oes o'm mebyd 'rwyf fi.
 “Gwyddost, f'arglwydd, im'guddio—can' prophwyd
 “Neud da mynegwyd i ti, mewn ogo',
 “Dibaid hefyd eu bwydo—wrth reol,
 “Yn eithaf manwl, a wnaethum yno.
 “Gonest iddynt yn gweini
 “O hyd fy mywyd fum i.

“ Yn awr, ai myned a wnaſ,
 “ Neu aros, beth sy'n oraf?
 “ Gomedd, nid yw'n deg imi,
 “ Ufuddhau i d'eiriau di;
 “ Ond pa fodd gwnaf adroddi
 “ Ger bron yr anraslon ri?
 “ Hen adyn creulon ydyw,
 “ Di barch i waith y Duw byw,
 “ A gelyn hyf dig'wilydd
 “ I wir brophwydi'r bur ffydd.”

Yn union ar un anadl,
 Drwy wir ddysg, i dōri'r ddadl,
 Diorn wrth Obadiah,
 Wr pwyllgar, doethgar, a da,
 Heb liwiant, eb Elias
 Ysbrydawl, ddewisawl was,—

“ Heddyw, cred, dan noded Naf—yn berffaith
 “ Ddi wanobaith i'w wydd y wynebaf.
 “ Tithau, dos ato weithian
 “ Yn genad rwydd—gwna dy ran;
 “ Brysia, ymwria, fy mab,
 “ Yn eofn o flaen Ahab.”

Yna Obadiah'n der
 A redodd mewn gwir hyder,
 I'w ffraw rybuddiaw yn bur
 A'i lwys hygryw lais eglur.

Ac Ahab, drygfab di ras—a gerddodd
 I gwrdd ag Elias,
 Gan ofyn, fel cecryn cas,
 A dieflig eiriau diflas,—

"On'd ti, i'w gyfri'n un gwael—aflonydd,
 "Sy'n hir fino Israel
 "Mor hyf? da genyf dy gael
 "Yma'n gyfan mewn gafael."

Y dewrwyd brophwyd eisioes
 Di rith atebiad a roes,
 Yn dda odiaeth, gan dd'wedyd,
 Heb gabldraith, gweniaith, na gwýd,
 O flaen y sarff,—“Ni flinai i
 “Mo'r genedl â mawr gyni,—
 “Dydi, a thylwyth dy dad,
 “Gerwinfeilch gawri anfad,
 “Iolwyr, cabolwyr Baalim,
 “Un nad yw Dduw, na da i ddim,
 “Fu'r achos i frawychiad
 “A chyni orlenwi'r wlad;
 “Ynfydion ffeilsion gau ffydd
 “Eich gwelir gyda'ch gilydd,
 “Dylion addolwyr delwau,
 “A gâlon meffion Duw mau.

“Gan hyny, dwg yn hoenwyd
 “Holl Israel, y gwael a'r gwych,
 “Y llun sydd yn llawn sel,
 “Bwnc gormwyth, i ben Carmel;
 “Hafal gwna gasglu hefyd
 “Brophwydi Baal gwamal i gyd;
 “Pedwar cant rhifant y rhai'n,
 “A dygyrch ddeg a deugain,
 “Na âd, mewn modd niweidiol,
 “Yr un o honynt ar ol.”

Ac Ahab y teyrn cyhoedd—a wysiai'r
 Lluosawg fynteioedd
 I ben Carmel uchel, oedd
 Eresawl gyrchfa'r oesoedd.

Elias dduwiol eofn
 A ddaeth, heb gyllaeth nac ofn,
 Ger bron, yn hawddgar ei bryd,
 A gwên ddidwyll, gan dd'wedyd,—

“Pa hyd, rai chwaethlyd, ’rych chwi,
 “Cwla effaith, yn cloffi,
 “Trwy anfad ymddygiad ddwl,
 “A di fudd, rhwng dau feddwl?
 “Os Dofydd sy ddieilydd Dduw,
 “I’w iawn arddel yn wir-Dduw,
 “A breiniawl Bor y wiwnef,
 “Araul Iôr, ewch ar ei ol ef;
 “Ond os Baal, ar sal seiliau,—tan furmur,
 “Orwael antur, ewch ar ei ol yntau.”

A geiriau ffraeth ni wnaeth neb
 Etto roi iddo ateb.
 Yna Elias anwyl,
 Wrolwylch, mewn harddwylch hwyl,
 Yn bwyllgar wnai lefaru
 Wrth y dorf oedd dan warth du,—

“Dyger dau fustach digoll,
 “Heb ’run nam, ger ein bron oll,
 “At yr allawr gostfawr gu,
 “Heb wrthddadl, i’w haberthu.
 “Yn awr caniatâu a wnafr—ar gyhoedd,
 “I chwi sy gantoedd, ddewis fych gyntaf.

“ Gwed’yn ar goed yn gudeg
 “ Gosodwch, darniwch e’n deg;
 “ Ond na feiddiwch, trwch yw’r tro,
 “ Roi tân o un rhyw tano;
 “ Minnau, meddaf, wna’r run wedd
 “ Yn dawel cyn y diwedd.

“ Yna’n fflwch gelwch mewn golau—ar enw
 “ Eich gorweiniaid dduwiau;
 “ Ac ar Dduw myg, Meddyg mau,
 “ Fy enaid, galwaf finnau.

“ A’r Duw atebo drwy dân
 “ O’r nef fawr, orawr eirian,
 “ Hwnw a wna wyrthiau hynod,
 “ Sy ddilyth Dduw fyth i fod.”

Hwythau’n eglur drwy bur barch,
 Atebai’r prophwyd hybarch,
 Mewn mād addefiad ddifeth
 D’wedai pawb,—“ Da ydyw’r peth.”

Y bustach addas a gymerasant,
 Y pryd dewisawl, ac a’i parotoisant,
 Ac ar enw Baal y gerwin ymbilant,
 Yn gâd, am oriau hwy gydymwriant,
 Wrth eu duw disas dan warth dywedasant,—
 “ Gwrando arnom heb siomiant—dy weision
 “ O’u dwys galon o’th flaen y dysgwylant.”
 Er bloeddio’n hir heb lwyddiant—dim ateb,
 Na iach oseb gan Baalim ni chawsant.

Ar hanner dydd, yr hen ŵr da
 Yn gadarn yno a’u gwawdia’;

Atynt ei dremynt a drodd,
A diwâd fel hyn d'wedodd,—

“Cydfloeddiwch, gwaeddwch heb gel,
“Parhewch â llais pur uchel;
“Hwyrach ei fod mewn rhyw wych fan
“Meddyddawl yn ymddyddan;
“Neu erlid y mae'n orlawn
“O rwysg, a rhyfyg mawr iawn,
“Neu ei waith yw ymdeithio
“Mewn rhyw estron freinlon fro.

“Gall fod, un hynod, yn huno—dichon
“Bod achos ei ddeffro;
“Chwyrnwyllt grochlefwch arno,
“Daw o ryw fath dir yw fo.

“Daliwch i waeddi a dulio—mewn hwyl,
“Os yw dduw anwyl, nes ei ddihuno.”

Yna'n ddigysur, mewn llafur llefant,
Fel rhyw wallgofiaid a bleiddiaid bloeddiant,
Yn hyll eu moesau yno llamasant,
Dan erchyll loesau'u cnawd archollasant,
A'u gwaed oedd ffrydiawg, ferwawg lifeiriant,
Rhaib ynfydrwydd, rhoi heibio ni fedrant,
Er gwaeddi dan hir goddiant—a chreulon
Floeddiaw'n annoethion, aflwyddo wnaethant.

Bellach, eu gobaith ballodd,
A'u helwch yn dristwch drodd!

Elias hyf, â'i lwys iaith,
A alwodd eu sylw eilwaith,

Gwiwdeg wrth bawb y gwedai,
Er eu bod mor fawr eu bai,—

“Neswch cyn y gwna nosi,
“Oll ar fyr i'r lle 'rwyf fi.”

Yn y fan seirian brysuero—a wnaeth
Yn eithaf digyffro,
I gywrain adgyweirio—yn glodfawr,
Y dêr allawr oedd wedi ei dryllio.

Gwedi'i mât adeiladu—trwy dda ffawd,
Tòrodd ffos o'i dentu,
Trefnus a gofalus fu—'r gwr duwiol
I goeth fanol wneud y gwaith i fynu.

Drachefn y coed a drefnodd—a'r bustach
Heb air bost a ddarniodd,
Ac a'i sywdeg osododd
Ar y rhai'n drwy firain fodd.

Gorchymyn wed'yn a wnaeth
A'i dd'weddiad oedd dda odiaeth,—

“Dygwch mewn sel, y telaid,—wŷr ffodiawg,
“Dri phedwar celyrnaid
“O ddw'r, yn ngwydd gau ddiriaid—gwallgofus,
“A chroes anweddu echrws swynyddiaid.

“Cofiwch dywallt y cyfan—ar y coed,
“Er cael prawf diyngan
“Nad oes gwreichionen o dân,
“Neu dwyll i'w nodi allan.”

Yn ol geiriau hoff y prophwyd—difroch
 Y dyfroedd dywalltwyd
 Yn llynau, nes y llanwyd
 Yr holl le gan y dw'r llwyd.

Pan ddaeth yr awr fawr i ferth—ffraw ammor
 Offrymu'r hwyr aberth,
 Danfon wnaï'r prophwyd iawnferth
 Weddi gref i'r nef mewn nerth,—

“ O Dduw Ner yr uchelderau—Arglwydd,
 “ Erglyw fy ngweddïau;
 “ Ateb o'r nef fy llefau,
 “ Er mwyn dy enw, Iôr mau.

“ Dyro fâd amlygiadau—o'th 'wyllys,
 “ A'th allu i wneud gwyrthïau;
 “ Yn llusern i'r holl oesau,
 “ Pur o hyd 'rwyd ti'n parhau.

“ O Dduw'r hedd, gwrando daer weddi—dy was,
 “ Duw wyt llawn tosturi;
 “ Ein Tad oll, pwy ond tydi
 “ A ddylem ei addoli?

“ O Arglwydd yr arglwyddi,
 “ Ein Tarian wyt a'n Twr ni;
 “ Dangos heb ball dy allu,
 “ Er llwyr argyhoeddi'r llu;
 “ Oddiwrth Baal dychwel bob calon,
 “ Duw Iôr fy Rhi, o'r dorf fawr hon.”

Yna gwrandawriad gwiwfad a gafodd,
 Tân melltenawl asgenawl ddisgynodd!

E

Ba wyrth ddieisawr? Yr aberth ysodd!
 Y coed a'r glodfawr allawr a ddrylliodd!
 A'r dw'r, oer wlybwr, leibiodd—mewn eiliad,
 A phwys ei d'rawiad y ffos o dreiodd!

Yna'r holl dorf ar unwaith,
 Wrth wel'd y fath aruthr waith,
 Yn y fan, bron diflanu,
 Ar y llawr y syrthiai'r llu.

Drylliawg oeddynt gan drallod—a hagrwyn
 Euogrydd cydwybod;
 Diochel farn Duw uchod—a'u daliodd,
 A'i lid a'u gwasgodd i le digysgod.

Codent lef tua'r nefoedd,
 Gan dd'wedyd i gyd ar g'oedd,—
 “Duw'r hedd, hawdd gweled heddyw,
 “Y da Bôr, yw y Duw byw.”
 Llyna'r unol dystiolaeth
 O'u geneuau'n ddiau ddaeth.
 Y dawnus brophwyd uniawn,
 Yn bwyllgar, wareiddgar iawn,
 I bybyr arwyr eirioes,
 Mwyn reddf, gorchymyn a roes,—
 “Deliwch, ebe'r gwr dilys,
 “Gwnewch ruthrawl ddifrifawl frys,
 “Anferth brophwydi ynfyd,
 “Yr eulun gwrthun i gyd.”

Hwythau cyflawni wnaethant
 Air treiddiawl y siriawl sant;
 Dygwyd, dirfrysiwyd o'r fron
 Y llu cas, gerllaw Cison;

Yno pob gradd o naddun
A laddodd, ni ddiangodd un.

Y didwyll brophwyd odiaeth
Ail esgyn wed'yn a wnaeth
Yn llawn ffydd, i'r mynydd mawr,
Arwyre uwch yr orawr,
I ddyhewyd weddiaw
Ar Ner am lawnder o wlaw;
Am wlaw mâd, drwy rad yr Ion,
Dysgwyliai â dwys galon.

Tra bu'r ffyddlawn uniawn ŵr
O flaen ei ddwyfol Luniwr,
Yn dwys weddio'n ddidawl,
A'i ffydd yn anniffoddawl,
Fe ddaeth ei was addas o
I'w gu seirian gysuro;
Ac wrtho'n deg mynega
Fod yn ei wydd arwydd dda,—

“Cwmwl glân bychan heb wâd,
“Fel ‘llaw gwr,’ lliwiog wawriad,
“A welaf yn dyrchafu
“O oror y dyfnfor du.”

“Dos weithion, un eon wyd,
“Pur wiwffel,” ebe'r prophwyd,
“At Ahab, drygfab sydd draw,
“'N orwag iawn ar ei giniaw,
“Fel hyn wrth y gelyn gau,
“Yr awr'on, ar fyr eiriau,
“Yn drefnus, barchus drwy bwyll,
“Y d'wedi mewn modd didwyll,—

“ Rhwym yn gain, drwy firain foes,
 “ Dy araul gerbyd eirioes;
 “ Na hir aros, dos liw dydd,
 “ O’r bryniawg fanawg fynydd
 “ I fro îs, a gwna frysiaw
 “ Trwy’r glyn, fel na’th rwystro’r gwlaw.”

Y santaidd Elias yntau—’n rymus
 A rwymodd ei lwynau;
 Hyd serthawg, lithrawg lethrau—prysurodd,
 Do, fe redodd yn llawn da fwriadau.

A llaw Duw mât, Ceidwad cu,
 Yn wyrthiawl oedd i’w nerthu;
 Y gwr ffel, cry’ gorffolaeth,
 I Jesreel cyn nos yr aeth.

Yr enyd, a’r awr hòno—y nefoedd
 Gan nifwl wnai dduo,
 Yn ffraw dechreuodd wlawio—a’r tir cras,
 A gloyw-wawr addas, gai’i ail ireiddio.

AHAB A JEZEBEL.

AHAB, chwibanfab ynfyd—noeth rwygwr,
 Wnaeth ddrygau dychrynlyd;
 Cofir ei wraig ddrwg hefyd,
 Jezebel, tra oes y byd.

Ymwerthu o’u bodd, a ’mroddi—wnaethant,
 I wneuthur drygioni;
 Merch diafol hudol oedd hi,
 A bleiddes heb ail iddi.

Llofruddion chwerwon a chas—iawn oeddynt,
 Yn nyddiau Elias;
 Teryll fileiniaid diras,
 Gorthrechawl, treisiawl eu tras.

Melldigedig, ddieffig ddau,
 Chwyddog, a drwg fucheddau.

Hen ormesiaid anniwair eu moesau,
 Tra llewaidd oeddynt trwy eu holl ddyddiau,
 Dreigiau anwadal a drwg eu nwydau,
 Llawnion o halawg frudiawg fwriadau,
 Hwyr roddent achles i ddiles ddelwau,
 Rhai trawsyrawg, yn rhoi eu trysorau
 A mawr ddyhewyd i'w hanmhur dduwiau,
 Aur â llawrydd ro'ent ar eu hallorau;
 Ah! ynfydion gweigion gau—gwrthnysig,
 Ac halogedig eu golygiadau.

Berwi mewn gwŷn a bariaeth—y byddent,
 A baeddu'r freniniaeth,
 Gorfodent, gwysient yn gaeth
 Iuddewon i audduwiaeth.

Ffromwyllt y gwnaent offrymu—i ddelwau
 Eiddilon y fagddu;
 Ond gweision cyfion Duw cu
 Laddent, yn lle'u coleddu.

Jezebel, tra'n oesi bu—lywyddai
 I ladd a gorthrymu,
 Gwnai ddig fileinig flaenu
 Gyda'r diawl yn gadr o'i du.

Ond Jehu a'i handwyodd—yn union
 O'i nenawr disgynodd;
 Tua'r hwyr yntau a'i rhodd'
 Yn safnau'r cwn—nis ofnodd.

Llyfwyd ei gwaed 'rol llefain—gan ddiriaid
 Gynddeiriog gwn milain;
 Chwalu a rheibio'i chelain
 Yn eitha' rhwydd wnaeth y rhai'n.

Dyna ben am dani byth,—ac Ahab,
 Coeg ehud deyrn gwarsyth;
 Nolwyd y ddau annilyth
 Gan safngwn annwn i'w nyth.

Dau oeddynt yn eu dyddiau—A ffyrnig
 Uffernol galonau,
 Weithion fe'u poenir hwythau
 Yn ffwrn boeth hen uffern bau.

I echryn derfyn y daeth—yn boenus,
 Bob un o'u hiliogaeth;
 Jehu, 'n gawr nerthfawr, a wnaeth
 Roi'r rhelyw i farwolaeth.

Da eiriau Duw a wiriwyd—i'r eithaf,
 A draethodd y prophwyd;
 Tŷ Ahab, anarab nwyd,
 Oedd foethus, a ddyfethwyd.

Dylion addolwyr delwau—rai amhur,
 Ga'u rhwymo'n ysgubau,
 Bwrir hwy oll i beiriau
 Llogfaol, uffernol ffau.

Arddelwir y gwir dduwiolion—grasol,
 Pan groesont yr afon;
 Cânt fwynhau, trwy radau'r Ion,
 Sywiol drigfanau Sïon.

Dygir y gwaredigion—i wynfyd
 Y wenfawr nef dirion,
 Lle pynciant, lleisiant fawl llon,
 I'w Prynwr a'u Pôr union.

Ond lliadiawg droellawg drallod—a ddilyn
 Addolwyr eulunod,
 Diesgus, gynhyrfus nôd,
 Ydynt i saethau'r Duwdod.

Pob addurn fedd Pabyddiaeth—â'n ufel
 Yn afon marwolaeth;
 Daw egwyl poenedigaeth—dra echrys,
 I deulu'r chwil-lys a'u dwl or'chwyliath.

O!r fath ragor ryw forau—a welir
 Rhwng duwiolaidd seintiau,
 A'r rhai sydd yn rhydd barhau—mor ynfyd
 Trwy eu holl fywyd mewn teryll feiau.

FFLANGELL I GENFIGEN.

AH!r hen ffyrnig genfigen—llawforwyn
 Hyll fariaeth a chynhen;
 Yn erch hi ladd ei pherchen—fel gwiber,
 Gwae'r rhai a huder dan gwr ei haden.

Nôd ei hymgais, nid amgen—yw drygu,
 Hi wna drafaelu fel neidr felen.
 Garw yw'r peth, ond gwir i'r pen—am dani,
 Draw gwnai nodi ei drwg yn Eden.
 Drygioni ei si a'i sen—a'i dirdra,
 Hyll ddeora drwy'r holl ddaearen.

Ffei! 'r hen sarffes, eres wŷn,
 Furgunaid, fawr ei gwenwyn,
 Archollodd, â'i herchyllwaith,
 Do, gannoedd a miloedd maith;
 Mewn bâr a chroch gynddaredd,
 Mae etto'n clwyfo fel cledd.

Hen ddraig deryll erchyll yw,
 Offer nwyd uffern ydyw;
 Ennynawl chwa wenwynig,
 Nos a dydd yw ei naws dig;
 Pob siriol heddychol ddyn,
 Gocheled rhag ei cholyn.

Brysied y dydd, ddedwydd awr,
 Y derfydd ei rhwysg dirfawr;
 Syrthied i'r pwll, mygdwll main,
 O'r golwg yn farw gelain;
 Yn llidiog ni all wed'yn
 Ddrygu na llindagu dyn.

Mynych gwnaed pawb ddymuno
 A llais cryf, mai felly fo;
 A gyrrer pob drwg arall
 O'r ddaear i fygfa'r fall;
 Brawdol gariad mād, Amen;
 Fager yn lle cenfigen.

Y "V FAWR," A "FO FO."

Y Fo, y Fo, meddai V Fawr,—gwed'yn
Dros y terfyn fe geidw drwst dirfawr.
Ni fu fath yr hen V Fawr—ond Phar'o,
A'r adyn Nero, erioed yn un orawr;
A Herod yntau, hwyrach,—teyrn cuchiog,
Ar enw llwynog, oedd o'r un llinach:
Senach'rib, asyn ochrawg—ymffrostlyd,
Oedd gâr i'r bawlyd eiddigor boliawg.

Nesa' i Nebuchodonosawr,
Fwya'i fost, yw y V Fawr;
Haera'i fod, trafod di rus,
A hwyl cawr, o hil Cyrus;
Hawlia fawrhydi helaeth,
Uwchlaw Cesar ffrostgar, ffraeth;
Rhyfyg a mawr falchder hefyd
Wnaeth yr hen fab yn Bab y byd;
Ei frawd ynyd, surllyd sain,
Brefawl, yw'r Pab o Rufain;
Teyrn Awstria, gwestfa pob gwall
Fradwrus, yw ei frawd arall;
A'i ewythr mawr, trystfawr, llawn tra,
Wrth reswm, yw'r Arth o Rwssia;
A'i gefnder, syner wrth son,
Yw Louis Napoléon.

Dyna i chwi, mae'r hen V Fawr,
Gerfyll, o deulu gorfawr;
Ei gred sydd anffaeledig,
Dreng arw bryf, dringa i'r brig;
Herio'n wyllt, a haeru wna
'N frochus, mai fe yw'r ucha'.

Ni fyn V gyfri' yn gall
 Un gwron enwog arall,
 Llywydd yr eirth a'r llewod
 O'u cyrau fyth y câr fod.

Gan V Fawr, gwr gwan yw Fo Fo,—beunydd,
 Pwy bynag a fyddo;
 Un di barch yn ei dyb o,
 Be b'ai'n uthrawl ben athro.

Crochfloeddia, dwrdia bob dydd,—chwi wyddoch
 Ei eiddig leferydd,—
 Pw, pw, Fo! pa hap a fydd
 Fyth fythoedd i'r fath fethydd?

Ha! 'r V Fawr, wrth hir fyfyrion—tybia
 Nad oes tebyg iddo;
 A llechweddawg hyll chwyddo
 Bydd V Fawr—baedda Fo Fo.

Mae'n fforchog d'wysog dieisiawr—nwydwyllt,
 A beirniedydd rhwysgfawr;
 Gwared ni rhag i V Fawr
 Weryru yn yr orawr.

Fo Fo, nid all y V Fawr—mo'i aros,
 Ymwria fel blaenawr,
 Myn V fod yn deyrn clodfawr,
 Fo'n un gwael, a V'n hen gawr.

Mewn mawr fri mae V am fod—yn eres
 Ben arwr anorfod;
 Rhaid i Fo gilio i'w gôd,
 O'r golwg tua'r gwaelod.

Rho'wch osteg freindeg heb fraw,
 Frython, i V areithiaw,
 Cewch araith, prifwaith bob rhan
 O honi, medd e'i hunan;
 Brougham goeth, arab ddoethawr,
 Beth wyt ti wrth y V Fawr?
 Dy araith sydd fel dyri
 Benrhydd, wrth leferydd V!
 Tertulus gampus o'i go'
 Oedd erthyl gwaelaidd wrtho!

V Fawr yn swnfawr iawn sydd—ond hwyrach
 Nad hir y caiff lonydd;
 Dranoeth, neu bore dreneydd,
 V Fawr dan draed y Fo fydd.

Hai, V Fawr, a hwi, Fo Fo,—bydd ddewrwyh,
 Bydd arwr diflino;
 Cyn pen hir, trefnir i'th dro
 Fwy atteg na V etto.

Ow, V Fawr, na ddawr ei ddewrach—neithwyr
 Ddynoethwyd fel bwbach;
 V ballodd,—y Fo bellach
 Fo'n gawr byth, a V'n gòr bach.

Wel, V Fawr, er mor wael Fo Fo—gwybydd
 Fod gobaith mai gwawrio
 Wna y dydd i'w newid o,
 Grwtyn, yn brif gawr etto.

Rhaid i Fo gofio byw'n gall—heb chwennyh
 Bychanu neb arall,
 A da weithgar ddyn doethgall,
 A Fo Fo'n lle y V fall.

Boed i chwi, y V a Fo—ochelyd
 Tawch halawg ymfrostio,
 Gostyngyddrwydd wna lwyddo,
 Hyn yn fflwch cedwch mewn co'.

Gwelwch fod achos gwylio—bob enyd
 Heb unwaith falchïo,
 Rhag ofn mai digrif brifio
 Yn V Fawr a wna Fo Fo.

Y dynion mwya'u doniau—îs y rhod,
 Nid oes 'run heb frychau;
 Pa ryw ddyn, sy'n bryfyn brau,
 Bendodir heb wendidau.

Na bo neb heb iawn wybod—y cyfwng
 Lle cafodd ei osod,
 Byw'n llonydd beunydd a bod,
 Mwyn fodd-der, mewn ufudd-dod.

Ac hefyd, dylid cofio—mai i'r pridd
 Mae pob rhai yn brysio;
 V Fawr, 'run fath a Fo Fo,
 Unir yn gydradd yno.

Y CYBYDD.

NYDDAF, os ydyw'n addas,
 Awdl newydd i'r Cybydd cas,
 Gwylaidd gwnaf ddwyn i'r golwg
 Rai degau o'i droiau drwg.

G'ronwy, â'i ffraeth gywreiniawl—gu awen,
 Wnaeth gywydd duchanawl
 I'r crinwas diras, a'r diawl,
 Hen ffyrnig deyrn uffernawl.

Eu dull osodai allan—a'u dichell
 Fradychus yn mhobman,
 A'u dieflig nwydau aflan
 Llawn twyll, yn nghanol llyn tân.

Minnau, fel gwael rimynwr,—hyn wnaethum
 I ddynoethi cyflwr,
 Crwba ddulwnc cribddeiliwr,
 Drygionus, drawswarthus ŵr.

Prin gwnaf fi henwi hanner—y drygau
 Wna'r dreigydd ysgeler;
 Pa gyfrifydd sydd dan ser
 Y nefoedd, ŵyr eu nifer?

Twyllwr treisgar, ysglyfaethgar,
 O dyb anwar, ydyw beunydd,
 Adyn siomgar, fel twrch daear,
 Nwyd anwiwgar, nid enwogydd.

Hylldremia, brydia mewn brad—fel llwynog
 Fo'n llawn o ddichellfrad;
 Rhyw wancus, farus fwriad,
 Ganddo sydd beunydd heb wâd.

Lefain malais, trais aeth trwy—ei fenydd,
 A'i fynwes lygradwy;
 Chwyrn uda'n ddychrynadwy,
 Moes! moes! moes! mae eisieu mwy!

Mal adyn gwna ymledu—am chwaneg,
 Mae'n chwennych pentyru,
 A'r cwbl a ball ddiwallu
 'R bawaidd dwrch mwy na'r bedd du.

Dygn yw ei wanc, digon ni wel—llunia
 Gynllwynion yn ddirgel,
 Mae'n llew du y man lle del,
 Annichon bron ei ochel.

Ah! 'r cuchiog gibog gybydd—haiarnaidd,
 Pwy ddirnad ei awydd?
 Rheibio, cribinio beunydd
 'Run sut a'r barcut y bydd.

Taeraidd orthrymwr teryll—echrydus,
 A chreadur erchyll;
 Surfalch gribddeiliwr serfyll
 Yw'r gwanciwr a'r rheibiwr hyll.

Rheibiwr, a lleibiwr enllibus—meusydd,
 Gormeswr trachwantus;
 Bywioliaeth dyn helbulus
 Ddinystria'r epa'n ddi rus.

Gwae'r hwn sydd, gerwin swyddau,—'n cydio maes
 Gyda mawr drachwantau,
 Nes bo'r gwan heb drigfanau
 O waith yr hyll gipyll gau.

Rheibia, yspeilia, nis paid—faedd annw'n,
 Feddiannau trueiniaid;
 Gwena pan welo'r gweiniaid
 Dan dristwch mewn llwch a llaid.

Brwnt a chiaidd lechwraidd chweru,
 Mal arth rhwymog, am le i orthrymu,
 Un adeg fyth ni edu—y twyllwr,
 Gwrthgryf wingwr, heb gerth grafangu.

Och! ddyn cas, gwrthgas o'i go'—cuwch olwg,
 Gocheled pawb rhagddo;
 Mae fel blaidd bustlaidd lle bo,
 Am rywbeth yn ymreibio.

Ar gam y casgla famon—hyll ferwa
 Holl fwriad ei galon,
 Fel Suddas, ys addas son,
 Am aur i'w godau mawrion.

Dyna i chwi'n gyffredinol—ryw draian
 O'i droiau uffernol;
 Mae'n bod etto'n benodol
 Ugeiniau rai, gwn, ar ol.

Chwithau, os mynwch weithion—gewch enwi
 Chwaneg o ddichellion
 Y llwynog afrywiog fron,
 Gwegilawg, drwg ei galon.

EGLWYSI RHUFAIN A LLOEGR.

YMDRECHFA RHWNG Y FAM A'R FERCH YN 1851.

TWRW mawr hyd dir a moroedd—sy weithion,
 Torsytha llaweroedd;
 Mae brwydr anferth gerth ar g'oeedd—bron dechrau,
 A hwylio heb ddoniau i hel byddinoedd.

Oes yn wir, mae rhyw swm erch—yr awr'on,
 Llwyd oerodd y traserch,
 Erlynir brwydr ar lanerch
 Rhwng y gorgam fam a'r ferch.

Ni wyddai pawb cyn heddyw
 Fod y grog famog yn fyw.
 Byw etto, 'sywaeth, yw y butain,
 Er hyll ryfel fu drwy holl Rufain;
 A byw'r ferch, nid yn bur fain—ond helaeth,
 A mawr odiaeth ei rhwysg yn Mrydain.

Gwelai'r fam yn ddiamau—hi'n pesgi
 Ar y pysg a'r torthau,
 Teimlai'n chwith na chai hithau
 Ei rhan o'i hen burlau bau.

Gwaeddodd yn eiddigeddus—bod ei merch
 Mewn byd mwyn a hapus,
 Hithau'n hen ac anghenus,
 Heb wiw rad, yn byw ar ūs.

Fe ymrwyfodd yr hen fam o Rufain
 Fel arthes wancus fradus i Frydain,
 Hi reibia frasder a llawnder Llundain,
 Rhed i ochel dan gochlau Rhydychain,
 Caiff le'n Nghaerfredydd rhwng caerydd cywrain,
 A bwyd melus gan yr abad milain;
 Llu allai 'nabod, a'r lleill yn ubain,
 Aed i'r mwlgw o'n golwg yn gelain;
 Daeth hyd Gymru i lyfu, dan lefain,
 Ca rai, hwyrach, yn mhob cwr i'w harwain;
 Caiff restr yn swydd Gallestr gain—a Bangor,
 Drysau wna agor gan dros naw ugain.

Mae rhyw Fieldings, y rhai mawr eu ffolder,
 Yn troi wynebaw at yr hen wiber,
 Gan godi swynawl ddifwynawl faner
 Y butain hudawl, a byw tan hyder
 Cael nef drwy'r coelion ofer—peth hynod!
 Safnau y llewod nis ofna llawer!

Gwel di, ferch, gwylia dy fod—yn magu
 Dirmygus Suddasod,
 I'th werthu'n llwyr a'th wrthod—fel caethes,
 Yn drist druanes, drahausdra hynod.

Cyfod i drafod y drin—ryfygus,
 Arfoga dy fyddin,
 Dod ergyd c'oedd (cwyd floedd flin)
 Marwol i'th hen fam erwin.

Yr arfau i'w llwyr orfod
 Yn nerthawl, fythawl, raid fod,
 Nid cledd gwarthus, bregus, brau,
 Byd agwrdd, na bidogau,
 Nid cloion y cyffion cau,
 Ffriw wallus, na ffrewyllau,
 Nac anfad fygythiad gaeth,
 Du wgs erlidigaeth,—
 Ond doeth bur goeth bregethiad
 Efengyl hedd, ferthedd, fâd.
 Dyna yr eirf dianaf
 Da'n wir, a drefnodd Duw Naf;
 Pob rhyfyg, Pabau Rhufain,
 Orchfygi'n rhesi â'r rhai'n.

Dinystrïa, baedda Babyddiaeth—chwerwwedd,
 A'i rhwth chwaer y Piwsiaeth,

Gwna ôl dy arswydol saeth
Ar ymenydd Mormoniaeth.

'Siga siol eulunaddoliaeth—afian,
Cau weflau paganiaeth,
Tyna Fahometaniaeth—llawn dirdra,
I'r llawr, a chwala'r hell or'chwyliaeth.

Wed'yn, prysura'n ddioedi—adref,
I edrych o ddifri'
Oes gwallau'n bod i'w nodi
Yn ffurfiau dy demlau di.

Ac os oes, mae'n bryd casâu
Pob rhithiawl ddreigiawl ddrygau.

Diwygia, bydd fyw'n gym'dogawl—rwyddwch,
Ar roddion gwirfoddawl,
Hyn-a-hyn, heb hōni hawl,—trwy orthrwm,
I doll a degwm, mewn dull daeogawl.

Santeiddiach, burach bob awr—bo'r Eglwys,
Heb beryglon dirfawr,
Yn addfwyn a chynnyddfawr,
Mewn hedd ac amynedd mawr.

RICHARD COBDEN, YSW., A.S.

COBDEN sy'n addien Seneddwr—gonest,
Ac uniawn ddiwygiwr,
Dewr addas ymadroddwr,
Pwyllawg a mygedawg ŵr.

Llygaid rhai cibddeill egyr—ŵr ethol,
 A'i areithiau pybyr,
 Dwg i'r fagl yn deg ar fyr
 Y dallaidd ddiffyndollwyr.

Dengys fawr ddybryd ingau—y gwerin
 Dan enguriawl feichiau,
 A ffordd hawdd i'w hoff ryddhau
 O'u gorthrymus gerth rwymau.

Llawnion yw ei holl gynlluniau—gwiwdeg,
 O gedyrn resymau,
 Mewn gwawl rhwydd mae'n eglurhau
 Dirwgus wraidd y drygau.

Hyrdia waith, trawswaith treisiol,—gau lysoedd
 Yr Eglwysi Gwladol,
 A gwallau certh anferthol
 Eu deddfau a'u ffurfiau ffol.

Da iawn waith yw dynoethi—afreidiawl
 Ddifrodwyr y trethi,
 Gwŷr sydd mewn segur swyddi,
 Warth cas, nad ydynt werth ci.

Dilesg, heb anwadolu,—y dalio
 I deilwng barablu;
 Coded i'w ferth gyfnerthu
 Bob tref a gwlad, yn gâd gu.

Pob enaid, pawb a uno,—i syber
 Ddeisebu'n ddiffino,
 A dawn fawr COBDEN a fo—a'i berffaith
 Hyglyw araith ger bron i'w hegluro.

BRIGHT a HUME yn bert o hyd,—ac eraill
 Sy'n gawri rhyddfrefnfyd,
 O wir foddawl arfeddyd
 Lleisiau b'ont er lles y byd.

Eu bloedd fo'n argyhoeddiad—i'n Senedd,
 Nes ynnill diwygiad
 Yn y llys, a fo'n wellhad
 I'r gwerin drwy wir gariad.

Dryllier, dattoder tidau—haiarnaidd
 Hirnos gorthrynderau,
 Gwan a chryf fo'n hyf fwynhau
 Yn dirion eu hiawnderau.

Yn lle unrhyw hyll annhrefn,
 Gwallau trais, gwneler gwell trefn;
 Gwir heddwch a gyrhaeddo
 Tros y byd—hir oesi bo,
 Llyna gyfun ddymuniad
 Pob Cristion mwynlon a mād.

I'n hanwyl ddoeth Frenines—boed hir oes,
 A byd rhwydd diormes,
 A'i gwr eirian, gwâr, eres,
 A'i phlant, bob llwyddiant a lles.

ANERCHIAD I'R DYSGEDYDD

AR DDECHREUAD EI 29 OED.

HANBYCH, y dewrwyd dirion—DDYSGEDYDD,
 Addas gadarn foddion
 Gwybodaeth helaeth wiwlon
 I'r Cymry, 'rhai sy'r oes hon.

Gwnaethost eres les i'r wlad,—rhaid addef,
 Er dydd dy gychwyniad,
 Daionus fu lledaeniad
 Dy odiaeth athrawiaeth rad.

Ymwriaist, Athraw mirain,—mel enau,
 Wyth mlynedd ar ugain,
 A'th gu eirioes iaith gywrain
 I ddysgu drwy Gymru gain.

Dysgaist, goleuaist luoedd—a rhoddaist
 Wir addysg i filoedd
 O ddyliaid, mal deilliaid oedd,
 Rai diles, mewn ardaloedd.

Aml ergyd surllyd a sen,—a gefaist
 O geufol cenfigen;
 Amcanodd rhai mewn cynhen,
 A llid balch, eillio dy ben.

Llwyr gilwg llawer gelyn—gwywedig,
 A gododd i'th erbyn,
 Teg awdwr wyt ti gwed'yn,
 Heb un briw, ar ben y bryn.

Llafuriaist, daliaist dy dir,—yn wrol,
 Fanerawg a chywir,
 Di orn goeth darian y gwir,
 Cain foddawg, y'th ganfyddir.

Di yraist drwy rym dy eiriau—ymaith
 A'mhur draddodiadau;
 Ffodd rhagot ffaidd ddrygau
 Hen ddych'myigion gweigion gau.

Dy eiriau nerthol, rhyfeddol foddion,
 Gwiwrwydd eu tremynt, megys gyrdd trymion,
 A chwilfriwiasant yn wachul friwsion
 Wag dybiau anferth a dinerth dynion,
 Gwnaethost rai drwg annoethion—yn glodwych
 Wâr ddwysgu degwych wir ddysgedigion.

Dos rhagod, cei fod yn fawr—ac enwog,
 Dy gynnydd fo'n ddirfawr,
 Da gweddai dy egwyddawr
 Gael lle'n holl gonglau y llawr.

O hyn allan yn hollawl—llafuria
 A lleferydd nerthawl;
 Dy arwyddair fo'n dreiddiawl—
 Rhyddid i'r byd, hyfryd hawl.

Dynion yn gyffredinawl—fo er gwell,
 Heb enw o ddichell, yn byw'n heddychawl:
 I Dduw'r hedd sydd wir haeddawl—o foliant,
 Trwy wiwgu weddiant, boed clod tragwyddawl.

MYFYRDOD Y BARDD

YN EI 70 MLWYDD OED, 1850.

DYGYFOR mae adgofion—olynol,
 Lonaid fy meddylion,
 Mal dw'r yn taflu aml dòn
 Frigog, o'r dyfnfor eigion.

Para i redeg rai prydiau—'n ormodol,
 Wna'r mud fyfyrdodau,
 Mor bell a thymhor borau
 Ieuenctyd a mebyd mau.

Golygaf, cadwaf mewn co'—y mirain
 Dymhorau aeth heibio;
 Ffur yw'r drych, a phair ar dro
 Wneud i f'awen adfywio.

Ond agwedd enwedigol—y meddwl
 Yw moddus arganmol
 Lluosawg freintiau llesol
 Ge's fwynâu flynyddau'n ol.

'Rwy'n cofio y ter amserau—dyddan,
 A'r dedwyddawl oriau,
 Cerddem yn nghyd i'r cyrddau—eglwysig,
 Yn dorf unedig, dirfion eneidiau.

Llewyclus gyfeillachau—yn gydweidd,
 A gadwem am oriau;
 Caem gyd yn hyfryd fwynhau
 Da wyneb Duw a'i wenau.

Ymddyddan mewn modd addas—y byddem,
 Er budd i'r Gymdeithas,
 Am gyfoeth hardd-ddoeth urddas
 Tragwyddawl, waredawl ras.

Ein llon ddybenion beunydd—oedd esgud
 Addysgu ein gilydd,
 Gweini er dwyn ar gynnydd,
 Hoff waith, y gwan yn y ffydd.

Son am groes a mawr loesau—ein Iesu,
 A'i aneisor glwyfau,
 Oedd wledd werthfawr, glodfawr, glau,
 Hynodawl, i'n heneidiau.

'Rwy' weithion yn hiraethu—gan fynych
 Gwynfanus alaru;
 Deolwyd yr hen deulu
 Ar wasgar i'r ddaear*ddu.

Hen ddifyr frodyr iawn fryd—wych arwyr,
 A chwirydd hefyd,
 Gorwedd mae'n awr mewn gweryd
 Eu breuon gyrff bron i gyd.

Dyddiawl, nosweithiawl nesâu—mae oerddig
 A mawrddwys awr angau,
 A'r funyd y rho'ir finnau
 I orwedd mewn cuddfedd cau.

Er rhoi tadau a hen famau
 Yn eu beddau, hyn wybyddir,
 Ie'nctyd ddegau'n llenwi'r bylchau,
 Wiwgain foddau, a ganfyddir.

Meibion mâd yn lle'r tadau—a'r merched
 Yn lle'r parchus famau,
 A morwynion mawr rinau
 Yn nheml Iôr sydd yn amlhau.

Duw Ion, yr union Arweinydd,—digoll,
 A'u dygo ar gynnydd,
 Mewn gwastad *gariad* gwiwrydd,
 A *gobaiith*, a pherffaith *ffydd*.

PRIODAS H. J. REVELEY, YSW.,
BRYNYGWIN, DOLGELLAU.

HENFFYCH hoff ddydd rhydd i'w fawrhau—wawriodd
Ar oror Dolgellau;
Gwenawl y ceir ugeiniau
A llon hwyl yn llawenhan.

Wele iawn achos i lawenychu,
Heddyw priodwyd, gwaith hawdd yw prydu,
HUGH REVELEY, Yswain, â'i fungain fwyngu,
Ein beirdd hyfedrus wnan' beraidd fydru
Eu priodasgerdd, felusgerdd lwysgu,
A mil a unant i ymlawenu,
Gan weddaidd deg weinyddu—yn barchus,
Ar duedd ddawnus, er eu dyddanu.

Clych ein gorawr, gan erfawr gynhyrfu,
Clir ddiattal eu clywir o ddeutu,
Rhai yn prysur hoff eglur fonffaglu,
Rhyw amgen olwg, a rhai'n magnelu,
Eraill yn talgryf, loewgryf gyflegru,
Pawb ar dda fwriad i'w pybyr ddifyru,
Pob anrhydedd ceinwedd cu—ymdrechid
Roi fel y dylid i **REVELEY** a'i deulu.

Ein corau gwiwnod sy'n cywir ganu
Alawon llafar, seingar, cysongu,
O wraidd eu mynwes, gan rydd emynu,
Llwyr ymroddant oll er mawreddu
Y ddau anwyliaid, yn addien hoywlu,
Dewis hefyd y maent, a deisyfu
I'w hil ddaionus dan hylwydd wenu,

Fwyneiddiawl gyfanneddu—mewn tangnef,
Yn Mryngwin haddef, a mawr gynhyddu.

Dedwyddwch hyd eu dyddiau—a gaffont,
Heb gyffwrdd â drygau;
Boed hir oes ddiloes i'r ddau,
A'u hil yn fyrdd o'u holau.

Gwedi hir oesi'n rasawl—a gorfod
Eu gyrfa ddaearawl,
Duw mât i goethwlad y gwawl
A'u dygo'n gadwedigawl.

YSGOL FRUTANAIDD DOLGELLAU.

HAWDDAMAWR glodfawr ddydd glân—a gorwych,
Sy'n gwawrio mor seirian,
Digolliant y dwg allan
Fâd wych les i'r holl fyd achlan.

Gwawl araul, bri gloew euraidd—eresgoeth,
Yr Ysgol Frutanaidd,
A welir yn rheolaidd—ardderchog,
Yw ei dull enwog, da, a dillynaidd.

Wele ddwys godiad i hylaw ddysgeidiaeth
Bair nthr iawn oddeg i bur athronyddiaeth,
A da arwyddair o du daearyddiaeth,
Ar hynt eirioes, a llwyddfawr ei hanturiaeth,
Hi fyn aur dilyn o hen fwnau'r dalaeth,
A rhiaidd iawn wed'yn y rhydd hi'n odiaeth -
Gampus gyf'rwyddyd o gwmpas gwefryddiaeth;
Gwersi a rodde i garwyr seryddiaeth;

Dybla fawr arwedd ar dablau'r forwriaeth;
 Dwg uniawn addysg i deg anianyddiaeth;
 Hael a rhyfeddol mae'n hwylio rhifyddiaeth;
 Dawn ei dull dirion sy'n dwyn dealldwriaeth
 Goleu, heb oedi, i'r gwaela'i wybodaeth;
 Holl waith rhinweddol trefn llythyrenyddiaeth
 A gaiff ei dyru i wiw goffadwriaeth;
 Heb un trawsarglwyddawl fydwyl orfodaeth,
 Yn rhwydd i dylodion y rhydd adeiladaeth,
 A manwl edrych y mae am iawn lywodraeth,
 A'i gwiwrwydd fawr ragoriaeth—yw trefniad,
 Dwysgu ymroad ei dysg a'i hamrywiaeth.
 Chwilia drwy'i holl or'chwyliaeth—am drwydded
 A ddaw a nodded i dduwinyddiaeth.

Myn allan burlan berlau—lluosawg,
 Llesiant celfyddydau;
 Trwy ddawn glir treiddia yn glau
 Hyd eithaf gwybodaethau.

Rhyw gannoedd o rai gweiniaid—addurna'n
 Ddiornaidd Newtoniaid;
 Eres hwylia rai'n Herscheliaid,
 Hynod oleu, a Handeliaid,
 Pan daw eraill yn Pindariaid,
 Enwog rywiau, o'n gwrrywiaid;
 E geir degau'n Garadogiaid,
 Wiwgu ddynion, a Gwuddoniaid
 Eitha' doniol, a Thydainiaid.
 Da fanylwys, a Dyfnwaliaid,
 Rhai wyth iawnach na'r Atheniaid,
 A chlir hoffder uwchlaw'r Aiffitiaid,
 Synu wna'r holl Saesoniaid—at ffaethlon
 Deithi mawrion y doeth Omeriaid.

O mor enwog fydd gweis a morwynion
 Dan wir ddylanwad rhwyddlad rheidlon
 Mêr y ddysgeidiaeth, mawreddus gedion,
 Cywir feddyliawl a theg grefyddolion,
 Eu hagwedd eirioes a'u hegwyddorion
 A'u dwg i gynnydd yn deg ac union;
 Byw yn addas wnant megys boneddion
 Astud a phwyllawg, selawg foesolion;
 Pawb a wir gara eu pybyr ragorion,
 Gorwiw a fyddant, a gwir ufuddion;
 Gwylaidd, a phur o galon—ymddygant,
 Difyr efrydant mewn da fwriadon.

I'r olwg daw llawer Elen—foesawl,
 A f'asai dan niwlen,
 Pe heb gynnar weithgar wên
 Da reolau dysg drylen.

Rhoi enaint ar ben rhianod,—gwelir,
 Mae'r ysgolion uchod;
 Daw enwau aml rai dinod
 Mor glir, nes ennill mawr glod.

Dygir llenorion gwiwlon i'r golau,
 Heirdd weis dinam eu hurddas a'u doniau,
 A beirddion treiddiawl gwreiddiawl mewn graddau
 Mirain, gweinyddfad, mawrion gynneddfau,
 Ac o rianod cywir eu rhinau,
 Llon ddewisiad, y gwneir llenyddesau;
 A mynir o domenau—pob goror,
 Fyrdd o aneisor deg farddonesau.

Hoff ethol dda effeithiau—gwir addysg,
 A wreiddio'n mhob parthau,

Llenorion llawn o eiriau
Miwail a heirdd fo'n amlhau.

Nid arian a wna awduriaid—enwog,
Yn llawn doniau telaid,
Ond dysg a synwyr—llwyr o'r llaid,
Ar unwaith, gwyd wroniaid.

Eirian frodyr o'r un fwriadau,
Ac aml chwaer ddiell sy'n Nolgellau,
Yn enwog deuwn ninnau—wrth bybyr,
Barhau'n noddwyr i bob rhinweddau.

Blagured, llwydded yn llawn—dan ofal
Dynion ufudd ffyddlawn,
Cynnydd ei haddysg uniawn
Yn fwy'r el—ie'n fawr iawn.

Goresgyn ein gwir ysgol—o'i rhyddid,
A'i rhoddion gwirfoddol,
Ni ddichon ffeilsion rai ffol,
Cynhenus, coeg, hunanol.

Y doniawl uthrawl Athro,—erésawl,
Hir oesi a gaffo;
A'i barch cyfateb y bo,
Dan wiwlwydd, i'r da wnelo.

Ei swydd ferth barchus a fo
Yn addurn fawr iawn iddo,
Llafurio byddo bob awr
Yn addfwyn a chynnyddfawr.

MERCHED IEUAINC DOLGELLAU.

*Canmoliaeth iddynt am eu hymdrechion llwyddiannus i werthu tocynau
er cynnorthwy arianol i'r Ysgol flaenorol.*

RHINWEDD gwaith da rhianod—a urddodd
Ein harddwych gyfarfod,
Cannoedd o fân docynod
Werthasant, rhyglyddant glod.

Aethon' yn heirddion mewn hwyl—gu wempawg
O gwmpas eu gorchwyl,
Yn drefnus, gweddus, a gwyl,
Ar unwaith, do, rai anwyl.

Gonest fuont heb gynen—na phoethwyllt
Effeithiau cenfigen,
Mal un corff, nes llwyr orphen
Yn goeth bur eu gwaith i ben.

Gwelwyd eu bod o galon—yn meddwl
Am addysg i'r tlodion,
A rhoi'r ysgol haeddol hon
Uwch eraill dan ei choron.

Haeddent gael clod cyhoeddus—ac hefyd
Eu cyfarch yn barchus,
Hawdd iawn yr ân' hwy'n ddi rus,
Gwyddom, at bob gwaith gweddus.

Effeithiau doniau rhyw deg—yn nerthol
Wnan' wyrthiau heb attreg;

A gwir ehwaeth eu geiriau chweg
Agorant galon gàreg.

Gwae'r dynion geir i'w denu—â bwriad
Wiberaidd o'u llygru;
Cyrcher i delm carchar du
Y gwylliaid i'w fflangellu.

MARWNAD EVAN JAMES,

(IEUAN AP IAGO,)

*Bardd o Lanfachreth, swydd Feirion, yr hun a ymadawodd â'r
fuchedd hon Medi 18fed, 1804.*

GALAR o bryd bwygilydd—a chroesau,
Echrysawl ystormydd,
Rhyw chwerw boen a chur beunydd
Dwys iawn, i'm gorfodi sydd.

Angau, gawr nerthfawr ei nôd—gyrhaeddiff
Bob graddau i'r beddrod,
Gorfydd ei finiawg arfed
Bob dyn ar hynt, bawb dan rhod.

Dygodd fy ngharedigol—wir gyfaill,
Wr gwiwfwyn crefyddol,
Mimau gaf ofid mewfol
Mawr iawn yma ar ei ol.

Mewn hiraeth trwmgaeth bob tro—'rwy'n myfyr
Am Ifan ap Iago;
Wyf yn brudd o'i ddwfn briddo
Mewn main rych yn min mân ro.

Tôrwyd fy athraw tirion—abl ieithydd,
 O blith daearolion
 I'r dugaeth feddrod eigion,
 Mydr frawd, lle madra ei fron.

Gwr awenyddawl, myg ei rinweddau,
 Digam ei rodiad, da'i gymeriadau,
 Llon urddunawl ŵr, llawn o wir ddoniau,
 Dethol ydoedd, a doeth ei ddaliadau,
 Gwiw nodawl rydd ganiadau—a brydodd,
 Fe gywir eiliodd rif o garolau.

Braw dygn i'w briod wiwgar,—dda, gallwych,
 Oedd golli hardd gydmar,
 Egr wyla ddeigr o alar,
 Ffrwd gerth, am ei phriod gwâr.

Minnau â briwiau i'm bron—fy hunan,
 Wyf hynod ddigalon,
 Am guddio'm mrawd, llestrgwawd llon,
 Mawrwyd, yn mhlith y meirwon.

COFFADWRIAETH J. WILLIAMS,
 DOLGELLAU,

*Hen Fardd dysgedig, a Pheroriaethydd cyfarwydd, yr hwn a
 hunodd Mawrth 11eg, 1821.*

OCH! mor frau yw dyddiau dyn!
 Fel diwyrth wael flodeuyn!
 Bèr iawn yw pybyr einioes,
 Bèrach ydyw afiach oes;

O ethryb angau athrist,
Pob cnawd sydd mewn trallawd trist!

Chwerw glwy' a mwyfwy myfyr—yn Meirion,
Oedd marw SION RHAGFYR,
Bardd doniawg, serchawg, dan sŷr,
A dyfal athraw difyr.

Dyddanus, fedrus fydrydd—iach ydoedd,
A chadarn gywreinydd,
Pur eithaf peroriaethydd,—
Tra bo gwawl ei fawl a fydd.

Mesurau, tŏnau tyner—a luniodd,
I loni plant Gomer;
Astud fu drwy ystod fêr
(Was hybarch) ei oes wiwber.

Ei enw a'i barch yn y byd—a crys,
A'i arogl yn hyfryd;
Ei hyfawl gerddi hefyd,
Ar g'oedd, a berchir i gyd.

Gwiwfyg ofydd, pêr ganiedydd,
A dyddanydd mād ei ddoniau;
Odiaeth wawdydd doeth a chelfydd,
Cysoniedydd cu syniadau.
Mal athrawydd, lles a defnydd
Oedd ei gynnydd i ugeiniau,
Mal perorydd, dyry beunydd
Fawr ddywenydd i fyrddiynau.

Gwr duwiolfrydig, miwsig gymhwysodd,
Addien glerwr, ei ddoniau eglurodd,

Odlau plethedig, puredig, prydodd,
 Dwys aberthwr, ei hoff waith dosbarthodd,
 Y gwiwfad dalentau gafodd—bob rhyw,
 Mae yn iach heddyw—mi wn na chuddiodd.

MARWNAD D. O'CONNELL, A.S.

GALAR sy'n mysg trigolion—llawenaf,
 Holl ynys Iwerddon,
 Daniel, prif lyw eu dynion,
 Gollasant, synant wrth son.

Daniel oedd berchen doniau—a chedyrn
 Wych odiaeth gynheddfau,
 Rhyddhawr cwlwm gorthrwm gau,
 A thòrwr llyffetheiriau.

Gwir ethawl fyg areithydd
 Digyfref, oedd ef i'w ddydd;
 Ef oedd ben yn y Senedd,
 O lawn faint hyd làn ei fedd;
 Er gwiwrwydd fawr ragoriaeth,
 Y mirain ŵr, ow! marw wnaeth!

Yn Ffrainc draw'n ddigon tawel—trwy angau,
 Y trengodd O'Connel;
 G'nawd yn rhwydd i bob Gwyddel,
 Am dano gwyno heb gel.

Dygwyd mewn modd diogel—i'r Werddon,
 Gorff harddwych O'Connel;
 A'i galon, ffyddlon ŵr ffel,
 Sy'n Rhufain, o swn rhyfel.

A'i enaid wrtho'i hunan—sy etto
 Ryw sut yn y purdan
 Tan ei fai,—ond daw'n fuan,
 Os gwir, yn bur glir a glân.

Wedi'i iawn buro a'i wneud yn barod,
 A i fewn yn siriol heb fai na sorod,
 At yr hen Babau, rhinâu gorhynod,
 Rhy' pawb le i Connell, 'be'r publicanod;
 Yno bydd dan newydd nôd—meddianna
 Y man ucha' yn nghôr y mynachod.

COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR BARCHEDIG SAMUEL JONES,

*Gweinidog yr Eghoys Annibynol yn Maentwrog, swydd Feirion.
 Bu farw Tach. 1, 1843, yn 25 oed.*

GWELIR prudd-der ac alaeth—yn fynych,
 O fewn y wladwriaeth;
 Dan alar ceir dynoliaeth,
 Gan gur blwng mewn cyfwng caeth.

Angau certh, anferth eonfawr—astrus
 Ddinystrydd dieisawr,
 A orfydd â'i law erfawr
 Fywydau holl lwythau'r llawr.

Hyf anturio i Faentwrog—a ddarfu
 A'i ddirfawr saeth dreiddiog;
 Ei nôd oedd pur weinidog—efengyl,
 Ah!'n Samwel anwyl, un syw molwynog!

Mawr golled a thrwm argyllaeth—ddeddyw
 Ar ddydd ei farwolaeth;
 Pregethwr, awdwr odiaeth,
 A mawr iawn oedd; ond—marw wnaeth!

Gwr o ddawn gwiwgar oedd ef—un hyddysg,
 Anhawdd cael ei gyfref;
 Dwyslawn mewn hyfryd oslef,
 Llafuriaudd dan nawdd Duw nef.

Gweinyddai'n ogoneddus—wrth reol,
 Wir athrawiaeth iachus,
 Geiriau Nêr, nid gerwin ûs,
 Neu ryddiaith anwireddus.

Duwinydd cadarn, iach ei farnau,
 Agwrdd odiaeth ei gyrhaeddiadau,
 Llon arweinydd yn llawn o rinau,
 Cyson awdwr, cu ei syniadau;
 Bri ei goethion bregethau—ddangosant,
 Hoff urdduniant ei hyffordd ddoniau.

Lles hynodawl lluaws o eneidiau,
 Fu llafur didwyll ei fyfyrdodau,
 Dewr a chedyrn oedd ei ymdrechadau
 I ddwyn, mal bugail, ei gail i'r golau;
 Ac addurn ei agweddau—oedd wastad,
 Heb wyrni girad mewn barn na geiriau.
 Gwiwlon efrydydd glân ei fwriadau,
 A gwirfoddolydd treiddgar feddyliu,
 Dihalogedig, da'i olygiadau,
 Athraw gweinyddfawr, uthr ei gynheddfau,
 Perarogl oedd pur eiriau—'i athrawiaeth,
 Dirper odiaeth yn llawn darpariadau.

Gwyladawl fugail ydoedd—idd ei braidd,
 Bu ddibrin o'i wleddoedd;
 Gwnaeth ei ran, a'i amcan oodd
 Diwallu'i ddeadelloedd.

Un llawn pwyll, didwyll nodedig—doethaidd,
 A'i deithi'n goethedig;
 Tawel frawd duwiolfrydig—oedd heb wâd,
 A'i dda wiw rodiad yn ddiwyredig.

Er hardded, wyched ei wedd—ddianaf,
 Ei ddoniau a'i rinwedd,
 Dygwyd ei gorff o'i degwedd
 Yn forau i bau y bedd.

Ei ganaid enaid union—a godwyd
 Gan gedyrn angylion
 I'r nefolaidd, lwysaidd, lon,
 Fâd araul wynfa dirion.

Mor ddinam yn mhlith myrddiynau—o deg
 Gadwedigol seintiau,
 Mae'n moli Nêr, Muner mau,
 Yn Salem, ddinas olau.

COFFADWRIAETH

THOMAS HARTLEY, YSW., LLWYN, DOLGELLAU.

Bu farw Awst 28ain, 1850.

TEYRN engyrth terwyn yw angau—orfydd
 A'i arfog genadau,
 Holl ddynawl fydawl fodau,
 Hyd feithder, pellder pob pau.

H

Er Abel dawel, diau—boreufab,
 A brofodd ei loesau,
 Hynt deg, ni chafodd ond dau,
 I ddiengyd o wydd angau.

Tyr angau i lawr trwy ingol loes—gedyrn,
 Fyg odiaeth wŷr eirioes;
 Arian na dim, rhin nid oes,
 Tan nen, all estyn einioes.

Boneddion gwiwlon eu gwedd—teleidwych,
 A'r tlodion 'run agwedd,
 Ryw awr a ro'ir i orwedd
 Yn welwon, bydron mewn bedd.

BARD D IDRIS, mae'n brudd adrodd—un moesgar,
 O'n mysg ymadawodd,
 O'r golwg fe lwyr giliodd,
 Y gweryd tew hagr a'i todd.

Oer athrist fraw aruthredd—a duloes
 I'w deulu dillynwedd,
 Oedd symud yn fud i fedd
 Yr ynad mawr ei rinwedd.

Gwr enwog, hawddgar, union,—rhieddawg,
 A rhwyddaidd ei galon,
 Heddynad di frad ei fron,
 Prawf eraill, fu'r prif wron.

Bu'n llywydd, noddydd, flynyddau—doethaidd,
 Cymdeithas y Biblau;
 Ow! 'r hen flaenawr clodfawr, clau,
 A gollwyd o Ddolgellau.

Mae afar, galar, ac wylo—ar ol
 Yr haelwylch fwyn Gymro;
 Porth tau i ddegau oedd o,
 A'u tŵr pan fyddai taro.

Digoll y gwrandawai gwyn—trueiniaid,
 Trwy hynaws gydymddwyn;
 Noddfa gyda gwên addfwyn
 Gai wan a llesg yn y Llwyn.

Ei fwrdd oedd rydd i feirddion—bob enyd,
 Caent dderbyniad serchlun;
 Mewn modd mwynaid, llariaidd, llon,
 E noddai awenyddion.

Ynad enwog, tarianog, tirionwedd,
 Gwiwlad onestwr, gwelwyd e'n eistedd
 Uwchlaw arswyd ar y wychawl orsedd,
 Yn mrawdlys tirion Meirion mewn mawredd;
 Deallus yn mhob dullwedd—gweithredai,
 Diwg yr unai o du y gwirionedd.
 Barn deg heb wyrni digus—ni phallodd,
 A gu weinyddodd yn ogoneddus.
 Mawr a gwrol mewn amryw ragorion
 Ydoedd yr enwog wladyddwr union;
 Ymddwyn at eraill wnai mewn modd tirion,
 Ni fanai gilwg o fewn ei galon;
 Och! arw saeth echrys weithion—ein prydfferth
 Gu awdwr mawrwerth sydd gyda'r meirwon!

Rhoed Iôr graslon gynnorthwyon
 I'w wraig union, rywiog, anwyl,
 A'i blant tirion fo'n gysurlon,
 Gyda'r ŵyrion, gwedi'r arwyl.

MARWNAD H. REVELEY, YSW.,

BRYNYGWIN, DOLGELLAU,

*Un o brif Ynadon swydd Feirion, yr hwn a fu farw Tachwedd
9fed, 1851, yn 79 oed.*

YMDAENODD, lledodd trallodion—trosof,
Tra isel yw 'nghalon;
Clwyfwyd, merwinwyd fy mron,
Gan aethus gyni weithion.

Ingawl genadon angau—ergydiant
Eu rhwygiadol saethau;
Gwŷr mawrion, pigion ein pau,
Orfyddant i oer feddau.

Daeth chwerwder, blyngder, cur blin—oer, athrist,
Fel aruthrol ddryghin,
Sef noswyl, arwyl erwin,
Frwynawg, erch, i Frynygwin.

Y penteulu, trwm a fu'r traill—gwympodd,
E lwyr faluriodd i lawr fel eraill.

Profir yn mysg peryfon—hir aflwydd
Am HUGH REVELEY ffyddlon,
Arwr hardd yr orawr hon
Etto fwriwyd at feirwon.

Ein mwyn Yswain mynwesol—a gludwyd
I gleidir mynwentol;
Bydd treiddgar alar ar ol
Arch-ustus mor orchestol.

Yn llys barn lleisiaw y bu,
 A'i lais ni cha'dd ei lysu;
 Ei lais treiddgar, moddgar, mât,
 Beunydd a gai dderbyniad.

Arddelid ei wir ddilys
 Eiriau llâd gan wŷr y llys;
 Gnawd i bob gradd oedd addef
 Eglurdeb ei burdeb ef:
 Yn ben astud bu'n eistedd,
 Enyd hir, fel Ynad Hedd,
 A blaenawr llwyddfawr a llon,
 Da'i nôd, i'w gydynadon;
 Cawr o ddyn cywir oedd ef,
 Teg wiwfryd, sad, digyfref;
 Diornaidd bôr cadarnwych,
 Caed erioed, yn cadw'i rych,
 Gwae ni bawb gau yn y bedd
 Ganwyll ynadon Gwynedd.

Prif ustus dawnus, diweniaith—ydoedd,
 Yn adwaen y gyfraith;
 Ni wyrai yn ei araith
 At goegni na checri chwaith.

Barn addas bur weinyddai—cyfiawnder
 Cu fwyndeg a fynai;
 Derbyn wyneb neb ni wnai,
 Am wiredd yr ymwriai.

Mewn iach hwyl mynai chwilio—i'r eithaf,
 Bob rhaith a ro'id ato;
 Er diles iraw dwylo
 Ar y fainc, ni wyrai fo.

Digyrith fendith a fu—ei fadiain
 Ddyfodiad i Gymru;
 Ef oedd rydd ŵr celfydd cu,
 Llawn aidd i gynllunyddu.

I adeiladwyr deheulaw ydoedd,
 A'u diflin noddwr hyd ei flynyddoedd,
 Addurnai'n enwawg luosawg lysoedd;
 Yn llwyr y dylid drwy'n holl ardaloedd
 Gyd nabod mai diymmod oedd—helaeth
 Iawn, a thra odiaeth yn ei weithredoedd.

Band tlws y crafaï â'i bwyntl a'i 'sgrifell
 A mawr ddyhewyd, ie, mor ddiell,
 Tan lawenu y tynai ei linell,
 Bu ddewr, i'w ga'mol, heb ei ddirgymhell;
 Cywir oedd, p'le ceir ei well—na chystal,
 Gwr gonest, dyfal, ar graig neu 'stafell.

Canllaw a noddwr y cynllunyddion,
 A'u hoff hardd ddoniawl hyfforddydd union,
 E wnaï'i gymeriad enwogi Meirion,
 Carai iawn weddiant y cywreinyddion;
 Bydd hirfaith gufaith gofion—am ei fri,
 A'i fawr ddaioni i fyrdd o ddynion.

Gwiwdeg bendefig ydoedd,
 Mawr ei werth yn Nghymru oedd.

Bu megys tad mâd i mi—y' nghanol
 Anghenion a thlodi,
 A'i brif nôd oedd fy nghodi
 Mewn gwawl, i hyfyrdawl fri.

Hoff anwyl ymddiffynwr—i Meurig,
 Oedd y mirain wladwr,
 Tòri'n lân trwy dân a dw'r
 I'm noddi, wnai'r mwyneiddiwr.

Ow! roddi'r muner addien—a gafwyd
 Yn gyfaill mewn angen,
 Yn ei fedd, dan lygredd len
 Y ddu oeraidd ddaearen.

Boed iechyd hyfryd a hedd—i'w ddimam
 Ddaionus etifedd,
 A'i briod wiwglod 'run wedd,
 Lon feinir, o lân fonedd.

MARWNAD J. EDWARDS, YSW.,

DOLSERAU, GER DOLGELLAU.

Bu farw Hydref 19eg, 1852.

OCH! angau, ei groch ingoedd—gwasgedig,
 Ysgydwant deyrnasoedd,
 Ei loesion draidd i lysoedd,
 Boneddion gwychion ar g'oedd.

Loes irad yn Nolyserau—heddyw
 Enhuddodd fwynderau;
 Parodd hon i bawb bruddhau
 Gan lwythawg ddygnawl aethau.

Tòri boneddwr tirion—o fynwes
 Ei fwynaidd gyfeillion,
 Bair drallod a briwdod bron
 I'w anwyl deulu union.

Dyn ydoedd dianwadal—a gwron
 Hawddgaraf yr ardal;
 Llid a gw'radwydd—swydd rhy sal—
 Na gweniaith, ni wnai gynnal.

Nid hawdd ei canfyddid heb
 Lon wên ar ei lân wyneb.

Mynwesawl gymwynasydd—cu hyfwyn,
 Y cafwyd e beunydd;
 Didwyll gyfranwr dedwydd
 Oedd ef—ow! darfu ei ddydd!

Priod gwastad, ceinfad cu,
 Dihalog yn ei deulu;
 A thad hawddgar, clodgar, clau,
 Gwiwdeg ei ymddygiadau;
 Gonest bendefig uniawn,
 Haelionus, croesawus iawn;
 A gwladwr mawr ei glodydd,
 Llawroddiog, rhywiog, a rhydd;
 Siriol gymydog seirian,
 A gwir gyfnerthydd y gwan;
 Gwr myg yn haeddu gair mawr,
 Y daliodd hyd ei elawr;
 Ceir llu'n hiraethu ar ol
 Y dianair ŵr doniol;
 Gwae i luoedd fu glywed
 Farw gwr oedd mor fawr ei gêd;
 Hunodd—diweddodd ei daith—
 Ni welir mo'no eilwaith;
 Gorwedd wna'i gorff mewn gweryd,
 Nes bydd Iesu'n barnu'r byd;
 Ffarwel, yr ynad cadarn,
 Mawr ddoniau, hyd forau'r farn!

ACHAU DAFYDD FRENIN.

GWEL linach y gwiw lenwr—olygwyd

Gan Lug, y prif achwr,—
Dafydd Frenin, deddf freiniwr,
Hyd at Addaf, gyntaf gwr.

Dafydd oedd fab dihafarch—i Jesse,

Ddewisol hen batriarch,
Wyr Obed, arwr hybarch,
Gorwyr Boos, gwr o wir barch.

Boos oedd fab gwâr Salmon arab—nawsaidd

Fab Naason llawn cudab,
A Naason ferthlon oedd fab
Mwyn odiaeth Aminadab.

Aminadab yma nodir—yn bur,

Oedd fab Aran gywir,
Fab Esrom deg, mynegir,
Fab Phares goeth, ddoeth, mae'n ddir.

Phares oedd fab hoff eirian—i Juda,

Lywiawdwr mwyneiddlan,
Fab Jacob syw, a glyw glân,
Ceinwych boblogwr Canaan.

Jacob oedd fab Rebeca—ac Isaac,

Oesai'n Palestina,
Fab Abram, dinam wr da,
Tirion, oedd Fab i Tera.

Tera oedd fab naturiawl—i Nacor,

Enwoghael wr breiniawl,

Fab Sarug, hyf hap siriawl,
Fab Ragau forau ei fawl.

Mab oedd Ragau glau ei glêr—hoff wiwlwys,
I Phalec, fab Heber,
Fab Sala, ddyn da, ddawn dêr,
Hybarch fab Cainan hoywber.

Cainan, ŵr ffraeth aceniad—a'i wedd fwyn,
Oedd fab i Arphacsad,
Fab Sem brydferth ei dreimiad,
Benaf ŵr, fab Noah fâd.

Mab ffyddlon eon oedd Noa—lyw mawr,
I Lamec didraha,
Fab hawddgar, doethgar, a da,
Mwyth oslef, i Methus'la.

Methus'la, gwrda mawr gêd—byw anian,
Fab Enoc, fab Jared,
Fab Maleleel, y gynfilfed,
Fab Cainan groywlan ei gred.

Cainan oedd fab cu iawna'—i Enos,
Hynod ei fwyneidd-dra,
Fab Seth, y difeth ddyn da,
Wybyddir, oedd fab Adda.

Ac Addaf, araf wron,—nodedig,
Yn dad i ddynolion,
Heb anaf, ddyn byw union,
Di warth, a greodd Duw Ion.

G WERTHFAWROGRWYDD Y GAIR.

Gair Duw Iôr, gwir diwyro—sy'n llusern
Llesawl i'n goleuo,
Wrth ei wawl pelydrawl o
Mae'r doethion am wir deithio.

Puredig arf ysprydawl—cry' astalch
I'r Cristion milwrawl,
Cleddyf prydfferth a nerthawl
Yw Gair Duw, a gur y diawl.

Gair Iesu, ein Duw grasawl—drwy'r oesoedd,
Sy'n drysor annhraethawl;
Drwyddo caid bendigaid wawl
I ddynion anhaeddiannawl.

Dengys yn ysbys i ni—yn dorfoedd
Ein dirfawr drueni,
A'n Ceidwad ddaeth i'n codi,
Mor rasol i freiniol fri.

Yn unawl parchwn ninnau—ei ddedhawl
Ddoethaidd addysgiadau,
Didawl fo'n myfyrdodau
Yn Ngair pur ein Modur mau.

Yn y farn y Gair hwn a fydd—clirwych
Deg glorian y Barnydd;
• Ofwn, gan wneud iawn ddefnydd
O'n tymmor cyn delo'r dydd.

Astudiwn o'n wastadol—a llefwn
Am y lleufer nefol,

I'n dysgu weinyddu'n ol—ei helaeth
Bur hoff athrawiaeth, a'i berffaith reol.

Ymroddwn gan ymarweddu—'n deilwng,
Gan delaid broffesu,
Dan arweiniad coethfad cu
Dewisol Ysbryd Iesu.

FFLANGELL I'R TYNGWYR.

O! DYNGWYR! fradwyr di fri—dwl anian,
Dilynwyr drygioni,
Na feiddiwch, gochelwch chwi
Yn rhagor dyngu a rhegi.

Atgas a diras yw'r dyn—a dyngo,
Mae'n dangos yn wrthyn,
Dylid peidio a dilyn
Llwybrau'r fall mewn gwall a gwŷn.

Llawer sy'n tyngu llwon—heb ystyr,
A bostio'r arferion;
Iaith ffyrnig hyllig yw hon
Y diawliaid a'u hudolion.

DRYGEDD MEDDWDOD.

FFEI! feddwdod! drewdod direidi—ydyw,
Pwy edwyn ei fryntni?
Fe dreiddiodd ei fudreddi
'N barddu noeth i'n broydd ni.

Meddwi, hawdd profi bob pryd,—bai uchel,
 Sy'n bechod dychrynlyd,
 A rhyfedd flaenor hefyd
 Holl ddrygau a beiau'r byd.

Meddwi, mae hyn fal moddion,—heb rinwedd,
 Yn braenu'r coluddion,
 Anurddo, difriō'r fron,
 Gwelwi a phydru'r galon.

Meddwdod sy'n hynod wanbau—y synwyr,
 Os uniawn fy marnau,
 Pair gryndod i'r aelodau,
 Fath na cheir fyth yn iachâu.

Meddwdod, 'rwy'n gwybod, ar g'oedd—du loddest,
 A laddodd ei filoedd;
 Dyfetha er Adda 'roedd,
 Ac etto'n waeth nag ytoedd.

Meddwdod yw y nôd niweidiawl—penaf,
 O'r poenau tragwyddawl,
 Sy'n aros ansynwyrawl
 Hudolion deillion y diawl.

Meddwdod dry'n drallod ryw dro—heb obaith
 I bawb a'i dilyno;
 Tyred, cyn dydd y taro,
 O'i greulon afaelion fo.

ADGYFODIAD DYSGEIDIAETH YN NOLGELLAU.

*Un o destunau misol Cymdeithas y Cymreigyddion yn y lle, Tach.
20fed, 1822. Yr Englynion canlynol a farnwyd yn fuddugol.*

HENFFYCH well yn Nolgellau—frwd araul,
Frodorion diwallau,
Dywenydd bod eu doniau
A'u mawl o hyd yn amlhau.

Helaeth goleddwyr hylwydd—dysgeidiaeth,
Dwys gedawl serchawgrwydd,
Gosgordd rydd fraich ac ysgwydd
O'i phlaid, pan fo rhaid, yn rhwydd.

Mewn bedd bu'n gorwedd yn gaeth—y fronawg
Fireinwych Ddysgeidiaeth,
Yn awr adgyfodi wnaeth
I'w chyfiawn hen uchafiaeth.

Ffrydiodd, tarddelodd allan—mal afon,
Mil yfant win purlan,
Meithriniad maith i'r, arian,
Yn llysoedd ei gwleddoedd glân.

Pa arwyrain mewn peroriaeth—hyddysg,
Rydd haeddawl ganmoliaeth?
Pa wir fawl, dreiddiawl ar draeth,
Addas gaed i Ddysgeidiaeth.

Mor weddaidd yw ymroddi—i'w cha'mol,
A chymhell pawb ati;
Dynion fo'n cael daioni,
Amen, dan ei haden hi.

Y CEILIOG A'I GAN.

Cyfansoddedig wrth ei glywed yn canu yn y bore.

Y CEILIOG enwog a gân—yn brydlon
Bêr odlau greddf gyngan,
Yn unol â threfn anian
Dyry glod i'w Awdwr glân.

Yn ei glwyd e gwyd, ac wed'yn—ysgwyd
Ei esgyll yn ddilyn;
Siimpl felly ddyry i ddyn,
Deilwng i bawb ei dilyn.

Heb aros yn y borau—un eiliad,
Yn ol ei drefniadan,
Mae'n adwaen y mynydau
I ddechreu'i gân fwynlan fau.

Y DYSGEDYDD.

ANERCHLIAD IDDO YN EI FLWYDDYN GYNTAF.

HENFFYCH well! heb ddichellion—ddwys gadarn
DDYSGEDYDD hyfrydlon,
Tyred, mal athraw tirion,
Nac oeda, brysia ger bron.

Tyred mewn modd naturiawl—i'n brodir,
Buredig lyfr buddiawl,
Dwg newyddion heirddion hawl,
Iawn foesaidd, ini'n fisawl.

Doeth rywiog fâd athrawiaeth—tras eurfyg
 Trysorfa gwybodaeth;
 I'r Gogledd degwedd y daeth
 Dawn addysg duwinyddiaeth.

DYSGEDYDD newydd i ni—'r gwerinos,
 Gwirionedd diwyrni,
 Pur gadarn y pair godi
 Llenorion i freinlon fri.

Sylwir ar eglwys wiwlon—yr Iesu,
 Er oes'r apostolion;
 Gwel flinfyd a hawddfyd hon,
 Drwy'r araith, hyd yr awr'on.

Ceir hanes gan wŷr cywreinion—amryw
 Emwrys weinidogion;
 Sonir mewn gwersi union
 Am rai sydd yma'r oes hon.

Sylwadau, nodau beirniadol—wiw rin,
 Ar ranau neillduol
 O'r diofer air dwyfol,
 Nid chwedlau a ffurfiau ffol.

Hylwydd draethodau helaeth—iachusol,
 A chyson farddoniaeth,
 Dwfn bynciau, mal ffrydiau'n ffraeth,
 Gem rywiog, ac amrywiaeth.

Llwydda nes ennil heddych—a difa
 Dyfais y tywyllwch,
 Dysg i'n gwlad, rhag t'rawiad trwch,
 Gyrhaedd at wir frawdgarwch.

ETTO.

Daioni llawn dywenydd—a gafwyd
 O gyfoeth DYSGEDYDD,
 Gwersi glân, dyddan bob dydd,
 Llawnion i bob darllenydd.

Da genym wel'd dy gynnydd—mor enwog,
 Mireinwych DDYSGEDYDD,
 Tydi mae llu'n farnu fydd
 Goleudeg haul y gwledydd.

Mal tirion afon mewn tangnefedd—tardd
 Heb ddim twyll na serthedd ;
 Mwynhad o'th ffrydiau mewn hedd
 Ddigonant Dde a Gwynedd.

Mawryga'r fwyn Gymreigiaith—ymorol
 Am eiriau dilediaith,
 Llwyr goetha, nithia'r hen iaith
 O'i sothach, hyd yn seithwaith.

Bydd dreiddiawl, siriawl dan ser—a manwl
 Gyda mwynaid dymher,
 Dysg i Gymru barchu'n bêr
 Wyth gymaint ar iaith Gomer.

Llwyddiant fo i'th allweddau—i agor
 Ar wiwgoeth drysorau,
 Gan gyson egluro'n glau
 Iawn addas wirioneddau.

MYFYRDOD Y BARD

WRTH FYNED DROS FYNIDD HIRAETHOG,

Mawrth 19eg, 1825.

BRONYDD a lleithdir brwynawg—a mân-wellt,
Yw Mynydd Hiraethawg,
Lle dyrus a rhwystrus rhawg,
Anaele, ar hin niwliawg.

Lle anial rhwng y Bala—a Dinbych,
Ond ambell gysgodfa;
Lle tirion bryd hinon ha'—
Gerwin ar rew ac eira.

Minnau, ar ben y mynydd,—yn guferth
A gofiais am Gruffydd,
Bardd doniawg Hiraethawg, rhydd,
Ffynnon yr hoff awenydd.

Baen uthr bryd, bu'n athraw braf—bu urddwr
I'r beirddion enwocaf;
Adgofio yn effro wnafl
Am y gwron myg, araf.

COFFADWRIAETH

AM Y TYWYSOG FREDERICK, DUC CAEREFROG.

Bu farw Ionawr 5ed, 1827, yn 64 oed.

[ENGLYNION AROBRYN.]

OCH! alar, heb le i ochelyd,—dolor
A'n daliodd yn ddybryd,
Trystfawr olwynion tristfyd
Sy'n gwau drwy holl barthau'r byd.

Rhyw lwythawg farwolaethau—awr dduoer
 Orddiwes bob graddau;
 'Does dan rhod yn bod un bau
 I dd'engyd o wydd angau.

Tòrodd ein Rhaglaw tirion—dewisawl
 Dywysog y Brython;
 A'r gwr a gawsai'r goron
 Ar ol ei frawd araul fron.

Siglawdd y deyrnas hyglod—yn dwyn baich
 O dan bwys y dyrnod;
 DUC CAEREFRAWG, nerthawg nôd,
 Eurfyg, a ga'dd ei orfod.

Yn ei oes dadleu a wnaeth—ŵr doniawl,
 Er dinystr Pabyddiaeth;
 Mynai'i dwyn i'r gadwyn gaeth,
 Gan agor drws Cris'nogaeth.

Mewn hwyl ei anwyl enaid—a garai
 Y gwir Brotestaniaid;
 Rhag wynebdrist Bapistiaid
 Yn llew dwys cyfrwys ei caid.

ERFYNIAD AM GOED DERW

GAN T. HARTLEY, YSW., (BARD D IDRIS,) LLWYN,

I wneud Meinciau Haf.

I'r Llwyn, a hyny er lles,—prysuraf,
 Heb hir siarad rhodres,
 Traethaf trwy deg fy neges,
 Wrth y Bardd, tra tardd y tes.

Fy araith, heb fyfyrrio,—na dwnad,
 Fel dyn yn gwenieithio,
 Mewn trefn fydd dweyd, am un tro,
 Yn gyson beth wy'n geisio.

Cardod o flaenion cordiau—i wneuthur
 Iawn ethol gadeiriau,
 Rhai ceimion, gwydnion, i'w gwau
 'N Gothic a Liptic weithiau.

Os caf, anfonaf yn fwyn—hynawsaidd
 Hen asyn a chertwyn,
 I'r goedwig dewfrig i'w dwyn
 Yn ddilwgr ar ddwy olwyn.

ATEBIAD BARD D IDRIS.

Y Ffridd Arw yw'r ffordd orau—i Meurig
 Ymorol am briciau,
 Dyna'r gwir, y rhai'n sy'n gwau
 'N Liptig a Gothig weithiau.

Cychwynwch, ewch eich hunan,—yn gadarn
 I'r goedwig yn fuan,
 Efo'r lli' a'r fwyall lân
 'Rhai hyllaf tòrwch allan.

C A B L E D D .

CABLEDD sy ryfedd sarhad—gau orchwyl
 Ag erchyll ganlyniad;
 Cablu a bair lygru'r wlad,
 Ac oeri brawdol gariad.

Cablu dyn mewn gwŷn meginawl—sydd warthus,
 Swydd wrthun annhraethawl,
 A'r dynion anghrediniawl
 Gablo Dduw, sydd gwbl o ddiawl.

FFLANGELL I'R ABSENWR.

*Ar ystyr Araith Brodor o Fon, yn NYSGEDYDD Ionawr, 1826,
 tudalen 6ed.*

DYN gwag, lle bynag mae'n bod,—heb synwyr,
 Abseno â'i dafod;
 Dyn yw'n bucheddu dan nôd
 Ffwrn ysawl uffern isod.

Absenwr, bradwr ein bro—ar unwaith,
 Yw'r enw ro'ir arno;
 Mab anghall y fall yw fo,
 Bawddyn yn mhob lle byddo.

Absenwr, beins anian,—maleisgar,
 Ymlusga i bobman
 Lle gallo, er gwthio'r gwan,
 Drais goleu, dros y geulan.

Sarph dorchog, fradog, anfrawdol,—ydyw,
 Adyn gelyniaethol,
 'Rol brathu, mae'n nesu'n ol,
 Dan warthu dyn o'i wrthol.

Rhydd w'radwydd blin mewn casineb—yn gerth,
 Pan ga absenoldeb;
 Ni ddwg yn amlwg i neb
 Un anair yn ei wyneb.

Dan ddedfryd mae'n bryd i'r bradwr—newid
 Ei annuwiol gyflwr;
 Boed y byd i gyd o'i gwr
 Heb swm yr un absenwr.

ARWYRAIN BODDLONRWYDD.

O, F'AWEN addien rinweddawl—esgyn,
 Bydd wisgi a threiddiawl,
 I brydu yn barodawl
 Arwyrain gywrain mewn gwawl.

Gwna fâd agoriad gwiwrwydd—da ystyr,
 Ar destun Boddlonrwydd,
 Myn olrhain mewn manylrwydd
 Meithder ei helaethber lwydd.

Boddlonrwydd, dedwydd yw'r dyn—pwy bynag,
 Pob enaid a'i hedwyn,
 Nid oes gecrus, warthus wŷn
 Ddialus, yn ei ddilyn.

Heddychawl rodd oddiuchod—ydyw,
 Mae'n odiaeth ei hanfod;
 Rhydd heb ball yn nydd trallod
 Gysuron rhadlon dan rhod.

Er drygfyd, croesfyd, er cri,—oer derfysg,
 Er dirfawr galedi,
 Boddlonrwydd yn mhob swyddi
 Ddaw a nawdd bob dydd i ni.

Tangnefedd a phob rhinweddau—eraill,
 Yw ei araul ffrwythau,

Mewn hedd boed pawb yn mwynhau
Mwy o'i naws i'w mynwesau.

DIOLCHGARWCH AM FFON

*I Mr. Evan Jones, Garddwr, Nannau, dros Mr. Ellis Williams,
Maentwrog.*

YN union i Arddwr Nannau—gyraf
Gu eres ganiadau,
Nid coegwaith, llawn gweniaith gau,
Mal gwelir, ond mawl golau.

Gyraist, 'rwy' heddyw'n gwiriaw—i'm hanerch,
Mae hyny'n fy moddiaw,
Ffon hawddgar, lungar o'th law,
Dilwgr y daeth i'm dwylaw.

Ffon union â phen enwawg,—ffon iraidd,
Ffon aruthr ardderchawg,
Taeru mae pobl Maentwrawg
Na welir un o'i hail rhawg.

Da Ifan, mwy yw d'ofal—am danaf,
Na dynion fy ardal;
Mae'r ffon,—ca' hon i'm cynnal,
Ifan Siôn, pan âf yn sâl.

Gallu wna ballu bellach,—a minnau
Sy'n myned yn wanach,
Crefaf am ffon beth cryfach,
Ddaliu byth, o'th ddwylo bach.

Heddyw, am a ge's, heb ddim gwall—yn dawel,
'Rwy'n diolch, wr doethgall;

A phan yri ffon arall,
Cei glod eglur, pur, heb ball.

CYFARCHIAD I MR. J. JONES,

GOF, TANYCOED, GER TOWYN, MEIRION.

HENFFYCH, Siôn, gwron a garaf—gwiwfyg
Ben Gof ardderchocaf,
Puredig i ti prydaf
Newydd gerdd, a'th nawdd a gaf.

Dy nawdd yn bur hawdd rhoddi—iawn destun,
Ond ystyr fy nhlodi,
Tyst eraill fod tosturi,
Hen stôr, yn dy fynwes di.

Dygyddodd, rhedodd i'm rhan,—ddu golled,
Hawdd gallaf fi gwynfan;
Nid diachos 'rwy'n tuchan
Mewn anfad amgylchiad gwan.

Rhyw ddiwrnod, parod mae pall—yn dirwyn,
E ddrodd fy mwyall;
Mae'n awr heb gel, gwel y gwall,
Oes yn wir, eisiau un arall.

Wrth ddulio nerth y ddwylaw—pren caled,
Prin coeli, 'rwy'n tybiaw,
Dyrnodiaid wnai i'r dur neidiaw,
A'r min a drodd i'r man draw.

Y da ŵr hael, cael durio hon—eilwaith,
Yw 'nihalawg eirchion,
Genyt ti, er bri i'm bron,
Fy llonwych gyfaill union.

Dy glod, y parod ŵr pur,—hyd Wynedd
 A daenaf yn eglur,
 Am fwyall ddiball ddabur,
 Ddeil ei min i ddulio mur.

RHAIADR CAIN, TRAWSFYNYDD.

RHAIADR CAIN, ei sain arw sydd—derwynllawn
 Daranlyd rhwng gelltydd;
 Disgyn yn hyll bistyll bydd,
 Gwyn fwlwg anhefelydd.

I'r llawr ymdywallt wna'r lli'—a'i gynhwrf
 Gannoedd o latheni;
 Pwy all yn deg fynegi
 Mor fawr yw ei swafawr si.

Ys canfod ei gerth ddisgynfa—orwyllt,
 Sydd erwin olygfa,
 Dynion a bensyfrdana,
 A'i swm erch eu synu wna.

Uthr ffrochwyllt fawrwyllt ferwog—ymarllwys
 Fel morllif trochionog;
 Hyd gilfachau'r creigiau crog,
 Gwreichiona'n grych ewynog.

Rhaiad' Cain, ei ruad c'oedd—enwoglais,
 Fu'n eglur drwy'r oesoedd;
 Rhydd etto'n ddiflino floedd
 Ruadwy fel yr ydoedd.

Galwyd e'n un heb gelu—o ddidawl
 Ryfeddodau Cymru;

Rhyfedd dan ser y peru
Tra sai'r leithgar ddaear ddu.

Cannoedd a miloedd ymwelant—â'r lle,
O mor llon y tremiant!
A chael i'r pen uwchlaw'r pant
Eu boddio'n fawr y byddant.

Gwedi cael yn hael fwynhau—gwiw elwch
I'r golwg a'r clustiau,
Cân y tafod glod yn glau—i'r gwrthddrych,
Ar lethrau gorwych, drwy lithrig eiriau.

HAFDY CADER IDRIS.

GWNAETHPWYD plas addas dan ser—i fawrion
Ddifyrn eu hamser,
Hwyliwyd coed, a heliwyd cêr,
I'w godi'n mhen y Gader.

Tŷ clodwych, mawrwych, mirain,—tŷ iachus,
Tŷ ucha' yn Mrydain,
Caerog adeilad cywrain,
Nerthawl, o anferthawl fain.*

Ei fuddiawl ethawl dylathau—gwiwrwydd,
Sy'n geryg difylchau;
Byrddau trwchus, clodus, clau,
O dderwydd, yw ei ddorau.

Ei gelloedd heb ddim gwallau—dda hinon,
Sydd hynod o olau;

* Meini.

Lle braf tra bo i'r haf barhau,
Draw i edrych drwy wydrau.

Drychwydrau'n ddiau a ddwg—dêr hirfaith
Dir Arfon i'r amlwg;
Gwelir ar yr un golwg
Dir Mon pan 'madawo'r mwg.

Gwelir golygiad gwiwlon—oddiyno
Hyd ddinas Caerlleon,
Ac o'r un lle ceir yn llon
Gweled mawredd gwlad Meirion.

Gwelir, pan dremir drwy'r drych,—o'r celloedd,
Dir Callestr a Dinbych,
A swydd Maldwyn werddlwyn wych,
Trwy wiwdrefn, ond troi i edrych.

Gwiwlwys oddiyno gwelir—yr un fath,
Ran fawr o'r Deheudir;
Mae'n werth (nid rhaid amheu'n wir)
Myn'd yno,—y man adwaenir.

MARTHA, Y DAFARNWRAIG.

A MARTHA 'rwy'n ymwrthod—o herwydd
Dyhirwch ei diod;
Nid gweddus yfed gwaddod
Lle tybir fod bir yn bod.

Cu odiaeth fir pe cadwa'—iachusol,
Fel ei chaws a'i bara,
Ni wnai un dyn o enw da
Ymwrthod â thŷ Martha.

Y FFORDD

O DREMADOG I FAENTWROG.

MUDAIS oddiwrth Dremadog—drwy dywod
A daear wlybyrog,
Daethym mor gyflym a'r gog
Mewn teirawr i Maentwrog.

Ffordd domlyd, fawlyd, anfelys,—geisym,
Un gas a pheryglys,—
Llaid a baw, nid oedd lled bys,
Felly, yn ol fy 'wyllys.

“TELYN EGRYN.”

DILYS caed newydd Delyn—etholwych,
O waith Elen Egryn,
Pob sill o'i mydrau dillyn
A rydd ddywenydd i ddyn.

Mynwch, y Cymry mwynion,—gorenwog
Rianod a meibion,
I'ch meddiant, wycha' moddion,
Y Delyn rwydd hylwydd hon.

Telyn y caiff pob teulu—o'i harfer
Ei hirfaith ddyddanu;
A thôn cân ei thannau ou
Gwyd genedl i gydganu.

Rhianod mawr eu rhinâu—wych reol,
Chwareuant ei thannau,
A'i pheraidd lwysaidd leisiau
Yn llawn hwyl wna'u llawenhau.

Ei miwsig hyd y meusydd—olynol,
 A lona'r amaethydd;
 Dymunol hyd y mynydd,
 Efo'i gail, i fugail fydd.

Crefftwyr, mastachwyr is nen,—derbyniwch
 Arbenig lyfr Elen;
 Dilys cewch yn mhob dalen
 Gathlau eglur pur i'r pen.

Yn erfai gweddai ar g'oedd—i bob dyn,
 Roi lle i'r Delyn drwy'r holl ardaloedd.

Cywir y bernir na bu—yn fynych,
 Un fenyw yn Nghymru,
 Mor fedrus am wir fydra
 Gwiwlon gerdd ag Elen gu.

Dylid cydnabod Elen—yn gampus
 A gwempawg ei hawen,
 Sywddoeth ofyddes addien,
 Hufen y beirdd, hi fo'n ben.

Mawr fudd drwy holl Gymru fâd
 Fo'i Thelyn, wiwfwyth eiliad;
 A gwnaed Elen gymen, gall,
 Lân, eirioes, Delyn arall.

Y BARD D YN EI GYSTUDD.

Duw Sant, dy foliant a fydd—i'm genau,
 Mi ganaf dy glodydd,
 Olynol drwy lawenydd,
 Pa well gwaith, deingwaith yn dydd.

Ac eilwaith ar Dduw y galwaf—liw nos,
 O'i flaen ef ymbiliaf;
 Myfyrio tra'n effro wnaf
 Yn ei air, ac ni w'yras.

Iôr anwyl, pan yr hunwyf,—di wyddost,
 Mai d'eiddo di ydwyf;
 Duw byw, dan dy nawdd di b'wyf,
 Da hyny, nes dihunwyf.

'Rol deffro, pyncio mawl pêr—yn ddilys,
 A ddylwn bob amser,
 I'r Iesu, anwylgu Nêr;—mal diliau
 Mel i'm genau fydd moli'm Gwiwner.

Dan y baich mae dyn heb iechyd—beunydd,
 Mae'n boenus ei fywyd,
 Rhoi'i aur a phrif berlau'r byd,
 Cêd fawr, pe cai'i adferyd.

Llidiawg a blin drallodau—a gofid,
 A gefais i'm dyddiau;
 Fy nghorff clwyfus, bregus, brau,
 Ddaw i lawr dan ddoluriau.

Blaenodd y dyddiau blinion—'rwy'n ysig,
 'Rwy'n isel fy nghalon;
 Dan gystudd, mor brudd yw'm bron,—
 Cofia fi, Arglwydd cyfion.

Ciliaf at borth Duw Celi,—'n bur isel,
 A brysiat heb oedi;
 Iôr myg, 'does tebyg i ti,
 Gwyddom, am wrando gweddi.

DECHREU Y GWANWYN.

Y GAUAF garwaf ei gorwynt—ddarfu,
A'i ddirfawr ryferthwynt;
Yr eira gwyn a'r oerwynt,
A'r rhew, aeth heibio ar hynt.

Diballiant y daw bellach—dynesiad
Hin nawsaidd glauarach,
A dir yw fod awyr iach,
Rywfodd, yn lloni'r afiach.

Daw Ebrill, y mis dibryn,—y'm ganwyd,
Bu'n gwenu'n gyffredin;
Fe ddaw hefyd hyfryd hin,
Mai hafaidd, a Mehefin.

Y MORMONIAID.

MAE "Seintiau'r dyddiau diweddaf,"—dallaidd,
Yn dwyllwyr i'r eithaf;
Gelynyon eon Duw Naf
Yw'r rhithweilch, o'r rhyw waethaf.

Proffesant, gawriant mewn geiriau—madraidd,
Y medrant wneud gwyrthiau;
Ond bleiddiaid yw'r gwylliaid gau,
Coleddant ddweyd celwyddau.

Didanc ddewiniaid ydynt—a bwriad
Gwiberaidd sydd ganddynt;
Olyniaid Endoriaid ynt,
Dyna y gwir am danynt.

Gwallus, anweddus swynyddion,—heintus,
 Tuhwnt i'r hen Simon;
 Hadl addig hudolyddion
 Drygionus, barus o'r bôn.

Hônant iddynt eu hunain—draddodiad
 Dreiddiadwy mal lefain;
 Athrofa waetha' Rhufain,
 Dan felldith, yw rhith y rhai'n.

Gwae'r dynion rydd grediniaeth—i'w ffyrnig
 Uffernol athrawiaeth;
 Allai diawl, hyll hudoliaeth,
 Yn llawn gwŷn, gynllunio'i gwaeth?

Gwylid pob dyn o'i galon—fyth goelio'r
 Fath gelwydd echryslon;
 Ymaith a'r druth ddiffaith hon
 Fel niwl o flaen awelon.

MARWOLAETH PUMP O FEIRDD

YN Y FLWYDDYN 1847.

CAWRDAF & GWYNDAF deg wedd—cadeirfeirdd
 Cu, dewrfig, o Wynedd;
 Dau wron roed i orwedd,
 Glywiau'r byd, dan gloiau'r bedd.

A'r eirian HYWEL ERYRI,—ddoniawl,
 Oedd enwog ei deithi;
 A BARD D MEIRION, freinlon fri,—dau ddestlus,
 Mae'n wybyddus, sy'n huno mewn beddi.

A'r Eos fwynber awen—ei gathlau
 Oedd goethlwys a thrylen;
 Cuddiwyd y bardd cu addien,
 Hirhoedlawg, dan leidiawg len.

Llithrig, buredig brydydd,—yn ddiau,
 Oedd Eos y Mynydd,
 Ei Hymnau a'i Salmau sydd—yn orlawn
 O'ffrwythau uniawn ei ffraeth awenydd.

Y pump llon feirddion a fu—yn addurn
 I lenyddiaeth Cymru;
 Galar ydoedd argelu
 Eu mygredd mewn dyfnfedd du.

Ninnau bawb yn mhen enyd—a'u dilyn
 I dyle y gweryd,
 Buan bydd taith ein bywyd
 Oll ar ben, er allo'r byd.

MARWOLAETH IEUAN GWYNEDD.

Ow! ein gwenawl IEUAN GWYNEDD—gwron
 Hawddgaraf ein tudwedd;
 Gwae Walia, (fu'n hir goledd,)
 Roi ei fath yn ei oer fedd.

Llafuriodd, a'i holl fwriad—drwy synwyr
 Dros iawn lywodraethiad,
 Gorwych oedd grym ei gariad
 At bendant lesiant ei wlad.

Dolurus gydalaru—ar unwaith
 Ceir rhianod Cymru,

Am y call ŵr gemawg cu,
Hoff anwyl, wnaï'u diffynu.

MARWOLAETH JANE JONES,
PRIOD MR. JOHN JONES, CRYDD, LLANELLYD.

OCH! ruthrawl ingawl angau—diorfod
Yw dy erfawr saethau;
Dygi i'r bedd, du hagr bau,
Rai anwyl, llawn o rinau.

Galar, heb le i 'mogelyd,—a daenodd
Hyd wyneb Llanelltyd,
Rhoed gwraig hawddgar freingar fryd,
Gu eirioes, yn y gweryd.

Soriant i'w rhïaint seirian—a ffrewyll
I ei phriod mwynlan;
Galarus ynt gloi ar Sian
Garuaidd yn y graian.

Ei brodyr sydd yn brydio—a'i hunig
Chwaer hynaws sy'n wylo;
Tan goddiant cadwant mewn co'
Ei gwiwder cyn eu gado.

Hon ydoedd wraig hynodol—ddiwegi,
O ddygiad crefyddol;
Gerwin hiraeth engiriol,
Gwirir hyn, geir ar ei hol.

Hunodd a phwys ei henaidd—ar rinwedd
Crist, yr Oen bendigajd,
Y teilwng aberth telaid,
A'r Iawn yn gyflawn a gaid.

MARWOLAETH DAVID OWEN,

BWLCHCOCH, GER DOLGELLAU.

Ow! Dafydd, wiwrydd wron—fu'n oesi
Yn fynwesawl Gristion,—
Y brawd mwynaid, llariaidd, llon,
A ddygwyd i fedd eigion.

Du ofid ar ol Dafydd—bair edwi
Brodyr a chwaerorydd;
Dyn oedd ef da yn ei ddydd,
Cry' ei afael mewn crefydd.

Trem alarus, trwm i Laura,—wenferch,
Fu anfon i'r gladdfa
Mor gynnar, darpar ei da
Gu addien briod gwiwdda.

Seļog, dduwiol was hylwydd,—y'i cafwyd,
Cyfaill pur didramgwydd;
Bu'n weithgar iawn mewn llawn llwydd,
A'i rodiad yn ddiw'radwydd.

MARWOLAETH LYDIA JONES,

DOLGELLAU.

AETH Lydia etholedig—drwy rinwedd
Yr Iawn bendigedig,
O'r byd brau a'i delmau dig
I baradwys buredig.

Hynod goeth ei henaid gwyl—a ddyrchodd
I'r ardderchog breswyl,
Lle seinia â'i llais anwyl
Fawl i'w Hiôr mewn nefol hwyl.

MARWOLAETH HANNAH A RUTH,
LLANYMAWDDWY.

Bu y flaenaf farw Meh. 6, 1846; a'r olaf Ion. 22, 1852.

HANNAH a Ruth, ddwy hynod—o glodus,
A gludwyd i'r beddrod;
Seirian ddwy wraig ddisorod,
Dwy erfai ryglyddai glod.

Dwy oeddynt anrhydeddus—dwy luniaidd,
Dwy lân a darbodus,
Dwy ddianair, dwy ddawnus,
O natur iawn, nid rhyw ũs.

Gweddus heirdd wragedd gwiwdda—i'r eithaf,
Oedd Ruth a'i chwaer Hannah;
Dia'mharch i'r byd yma,
Di dwyll yn ngwaith eu Duw da.

Cur blwng oedd hebrwng y ddwy—ryglyddfawr,
I'r gladdfa lygradwy,
O'r Pennant, lle tariant hwy,
Meddynt, i Lanymawddwy.

Gorphwysant, hunant enyd,—ddwy anwyl;
Oddiyno i wynfyd
Duw Ddofydd, Barnydd y byd,
Deg ofwy, a'u hadgyfyd.

Ail unir, drwy lawenydd,—hynodawl,
Eu heneidiau dedwydd,
A'u cyrff mewn trefn, o ddefnydd
Ysbrydol,—anfarwol fydd.

MARWOLAETH MORGAN JONES,

GWERNBARCUD, DOLGELLAU.

MAE argoel i enaid Morgan—gyrhaedd
I gaerau'r nef seirian,
Lle'r arwedd ogonedd gân
I'w Brynwr o bur anian.

Ail unir ei dduwiol enaid—a'i gorff,
Mewn teg wedd fendigaid;
Dilwgr ddydd barn yn delaid
Daw i'r làn o'r duoer laid.

MARWOLAETH JOHN PUGH, YSW.,

(IEUAN AWST), DOLGELLAU.

MIS Chwefror, dymhor oer du,—ow! darfu't
Ein dirfawr golledu,
Lleddaist ein bardd, coethfardd cu,
Do, yn union, dan wenu.

Briw, godwrdd, braw ac adwyth—oedd ei farw
I'w ddifyrus dylwyth;
Mae galar du'n llethu llwyth
Ieuan Awst, awen ystwyth.

Gwr oedd a garai ryddid—y gwerin,
A gwiriai'i addewid;
Gorthrymder a llymder llid
Ni oddefai'n ddiofid.

L

Y CRISTION TAWEL.

Y GWR anwyl a gâr rinwedd—mae hwnw
Am ennyn tangnefedd,
A dewis yn ddiduedd
Hau da i bawb hyd y bedd.

Rhyw afiach sothach rhy sal—yw croesder
I'r Cristion ei gynnal;
Y dyn da nid yw'n dial,
Dywed ef mai Duw a dâl.

A chalon dirion bob dydd—mal Enoc,
Molianna'i Greawdydd,
Gan geisio rhodio'n w'r rhydd,
Rhag briwdod a rhwyg bradydd.

TORWR ADDUNEDAU.

ARFAETHU 'rwyf fi weithion—mydryddu
Mâd rwyddwych englynion
O hêr i ddrwg arferion
Anwar sydd yn yr oes hon.

Ni feiddiaf, gwiriaf mewn geiriau,—miniog,
Ddim enwi personau;
Onid gwell nodi gwallau
Hudolion gŵyrgeimion, gau?

Llwyr yw'r cwyn, ceir llawer cant—o ddynton
A ddinam addawant,
Ond prin iawn y cyflawnant
Eiriau llon mwynion eu mant.

Arferion bryntion mewn bro—gwŷn aethus,
 Yw gwenieithawl addo;
 Ond nid hir cedwir mewn co'
 Ymgyrhaedd am gywiro.

Rhyw ddiriaid gorïaid geirwon,—taeogaidd,
 Wnant deg addewidion,
 Am wirio sillau mawrion
 Eu gwers hir, 'does gair o son.

Niweidiawl yw addunedu—'n ffodus,
 A pheidio byth dalu,
 C'wilyddus yw coleddu
 Erchyllod y ddefod ddu.

'Sawl dyr ei air bair heb wâd—yn oerddig
 Anurddo'i gymeriad,
 Gwna hyn e'n fawddyn anfad,
 Llwyd-ddu gôr lled ddigariad.

Bawaidd ymddwyn mewn beiau—at eraill,
 Wna tôrwyrr ammodau;
 Eu rhithiawg wŷrawg eiriau
 Drygnwyd, sydd fel breuddwyd brau.

Mae'n bechod hynod i'w henwi—mae'n warth,
 Mae'n wrthun ddireidi,
 A chas y pair achosi
 Braw a nych yn ein bro ni.

Gweddus wrth fwyndeg addo—yw meddwl
 A oes modd cywiro;
 Os nad oes, rhag drygfoes dro—twyllodrus,
 A gwall enbydus, gwell i ni beidio.

Er clod, 'rol gwneud ammodau,—yn bybyr
 Gwnawn bob ymdrechiadau
 I dalu'n glir, gwir nid gau—heb attal
 Yn ddianwadal ein haddunedau.

Ein rheol fuddiol hyd fedd—fo gwiwrwydd,
 Fyg air y gwirionedd;
 Os dilynwn hwn mewn hedd—ni lithrwn,
 Etto ni ŵyrwn mwy at anwiredd.

YR AMAETHWYR A'R BUGEILIAID.

*Cyfansoddiwyd yr Enghynion dilynol mewn canlyniad i Gyfarfod
 a gynnalwyd gan yr Amaethwyr a'r Bugeiliaid yn mhlwyf —
 yn y flwyddyn 1823.*

BLWYFOLION union eu nôd—a ellir
 Yn hollol gael gwybod
 P'run orau mewn cyrau côd
 Ai'r offrwm, ai treth yr heffrod?

Treth yr ŵyn trwyth erwinol—yw hòno,
 A hynod ormesol;
 Beth a wneir—ddaw byth yn ol
 Y groew gyntefig reol?

Codan' ddegfed ran o'r oenyn—dewrgu,
 Deirgwaith yr un flwyddyn;
 Rhoed cyfiawnder hêr i hyn,
 Ei rwysg a ga'i oresgyn.

Degfed oen wiw hoen o hyd—ac mwy glew
 Ddegwm gwlan 'run ffunydyd;
 Mynant dreth waeth beth fo'r byd,
 Hafal eu porfa hefyd.

Ow! 'r ŵyn bach, rheitiach dan rhod—eich meithrin
 Na'ch mathru yn ormod;
 'Does odid flaidd a faidd fod,
 Dybiwyf, mor ddigydwybod.

Er cael gan farcut a'r ci—a'r llwynog
 Dir llonydd i bori,
 Degymwr wna gamwri
 Bob blwyddyn i'ch erbyn chwi.

Ac hefyd heblaw'r cyfan—a godir
 O gêd y praidd purlan,
 Gwefriant am gael rhyw gyfran
 O'r gwartheg rhwydd-deg i'w rhan.

Y gwair a'r ŷd rhagorawl—nodedig,
 Nid ydyw'n ddigonawl,
 Ymwithiant, a hōnant hawl
 I'r laswerdd borfa lesawl.

Yr ŷch a'r bustych heb wâd—maen' hwythau
 Mewn aethus amgylchiad;
 Lloi bach sy'n hyll eu beichiad
 Yn ofni cânt brofi'r brâd.

Y buchod sy dan eu beichiau—a'r teirw
 Bron tōri'u calonau,
 Gwaeddi mae'r moch a'r gwyddau
 'N mhob cŵr rhag degymwr gau.

Wel, gwaeddwch, llefwch yn llu—am ryd'id,
 Mae'r adeg yn nesu
 Cewch rwy'deb a'ch gwaredu
 Rhag gorthrwm y degwm du.

Prysured, deled y dydd—i'ch gwared,
 O'ch geirwon ystormydd,
 Cewch brancio a rhodio'n rhydd
 O gerth rwymau'r gorthrymydd.

Y PERSON YN DARLLEN.

SYLWAIS yn graff is haulwen—ar agwedd
 Clerigwr yn darllen;
 Rhyw *nac* yn lle gwir acen
 Ro'i'r gwr bach bob gair o'i ben.

Darllenwr, llusgwr llesgwedd,—pais laeswen,
 Pwysleisiwr mwngleredd,—
 Fel hen Bab o flaen y bedd,
 A'i eiriau yn o oeredd.

Nid da, heb wall, i'm tyb i,—ond oerllyd
 Mae'n darllen ei weddi;
 Rhy ddirym, fel rhyw ddyri
 Lled benrhydd ei hedrydd hi.

Rhoi ambell wers i'r hen Berson—ddylai
 Ei ddilys ddysgyblion;
 Darllennai, gawriai'r gwron
 Yn dda bur 'rol dysgu'r dôn.

Y GAUAF.

Y GAUAF llwm, drwm ei dro,—du olwg,
 A'n daliodd ni etto;
 Cannoedd lawer sy'n cwyno
 Gan ias ei hin erwin o.

Rhai welir ar eu haelwyd,—yn gulion,
 A gwelwedd wyneblwyd,
 Ar rynu gan fawr anwyd,
 Ac hwyrach rhy fach o fwyd.

Llwydaidd yn mhob dull ydynt—a dillad
 Go dyllog sy ganddynt,
 Gwrthddrychau'n ddiamhau ynt
 Sy'n werth i syniaw wrthynt.

Ochain yn wan eu hiechyd,—dihoeni,
 A'u heinices yn aethlyd,
 Dyddfu mewn annedwyddfyd
 Mae degau drwy barthau'r byd.

Ow! 'rhai bach, mae'n arw eu bod—mor adill,
 Mawr ydyw eu rhyndod;
 Pwy all ddweyd maint eu trallod,
 A'u braw dan gurwlaw ac ôd.

Rhwyddaidd gyfranau rhoddion—yn wiwlwys
 A wnelo'r boneddion,
 I eiddilod tylodion,
 Yr adeg gaeth rwydawg hon.

O E D R A N

MEURIG EBRILL AC ISAAC JONES O'R LLWYN,

Yn y flwyddyn 1850.

TR'UGAIN a deg, 'rwy'n mynegi,—'n gyfan
 A gefais o flwyddi
 Eisoës, faint etto i oesi
 Sy gan i'n ol nis gwn i.

Isaac sydd yn cydoesi—â Meurig,
 Ond marw a raid ini;
 Ganwyd ni'n dau heb gyni
 'Run awr, am ddim ar wn i.

LLETYRHYS, BRITHDIR.

LLETYRHYS, harddlys urddlon,—ger annedd
 Caerynwch yn Meirion,
 Saif ar ddeiliog, frigog fron,
 Ban enwog, uwchben Wnion.

Lle mae pren derwen cadeiriawl—gododd
 Yn gadarn aruthrawl,
 Fel t'wysog gwyrddglog mewn gwawl,
 A brenin y derw breiniawl.

Pren brigawg, osglawg, teg wedd—cwmpasog,
 Campuswych ei agwedd,
 Cywreiniawl blethgar annedd
 Yr adar seingar, a'u sedd.

Teraidd chwareudy tirion—y doniawl
 Adeiniog gantorion,
 Nawddle i'r côr mwyneiddlon
 Gydbyncio a lleisio'n llon.

Mae'n achles gynhes i'r gog—a'r eos,
 Gre' awen ddihalog,
 A'r fwyalch gerddgar fywiog—a'r fronfraith
 Berffaith ei haraith, lwysiaith berleisiog.

Eu cyson goethlon gathlau—sain eglur,
 Sy'n hyglyw i glustiau;

A thôn lafar, glodgar glau,
Telynant alawonau.

Swynant, hwy ddenant ddyinion,—i wrando'u .
Cywreindeg alawon;
Sylwir ar fydrau sywlon—yr hyddestl
Bur foesawg wiwddestl ber fiwsigyddion.

Perchenawg enwawg a gwyl—y deglan
Odidoglwys breswyl,
Tan nen, fu'r Capten Anwyl,
Gwr digardd a hardd ei hwyl.

Weithian ei ben perchenawg—da hyawdl,
Yw Owens, Dolffanawg;
Gwiw rinwedd y gwr enwawg,
Pur a rhwydd, fo'n para rhawg.

TALYLLYN A DOLFFANOG.

TALYLLYN, tawel le llonydd—iachus,
I ochel ystormydd,
Cysgodawl freiniawl fronydd,
Gwempus oll, o gwmpas sydd.

Lle destlus hoenus hynod—lle nodwych,
Llawn adar a physgod;
Pob cysur eglur hyglood,
Anian bur, sydd yno'n bod.

Yn min y llyn, mewn lle enwog,—gwiwlwys,
Y gwelir Dolffanog;
Da odiaeth le godidog,
Meithringar i'r gerddgar gog.

Lle sywiawl yw llys Owen,—mewn hirddol,
 Man harddaf tan wybren,
 Ei ddawnus barchus berchen,
 Heb wanhau, fo byw yn hen.

Dihalog bo ef a'i deulu—anwyl,
 Yn uniawn fucheddu,
 Gan addas fawr gynnyddu
 Yn wastad mewn cariad cu.

Gwiwdeg fo'u hymddygiadau—a'u hurddas
 A harddo'n gororau;
 Gormeswyr hagr eu moesau
 Is y rhod, na fo i'w sarhau.

Y LLWYN, GER DOLGELLAU.

LLWYN eirian, gwiwlan, golau,—Llwyn siriol,
 Llawn o sawrus flodau,
 Llwyn enwog gerllaw Nannau,
 Llwyn y beirdd a'u llawen bau.

Llwyn hen ydyw'n llawn hynodion—llachar,
 A lloches cantorion,
 Llwyn deiliog dan frigog fron,
 Llwyn eurawg yn llawn aeron.

Llwyn prydfarth, mawrwerth i Meurig—nesu
 Bob noswyl arbenig;
 Llwyn destlus, trefnus, lle trig
 Difalch a rhydd bendefig.

Man anwyl yw'n min Wnion—y ffriwdeg
 Loyw ffrydiawl afon;

Canfyddir mewn cain foddion
Lwyni heirdd hyd lànau hon.

Gerddi rhosynog urddawl—a llawnion
Berllenydd cynnyrchawl,
Per ffrwythau, llysiâu llesïawl,
Dillynion, gwychion mewn gwawl.

Da adail pur odidog—yw'r annedd
Gywreinwych a chaerog;
Mae coed fyrdd mewn glaswyrdd glog
O'i gwmpas yn dra gwempog.

BRONWNION, DOLGELLAU.

BRONWNION bery'n enwog—am oesau
Uwch meusydd blodeuog;
Mor wiwddestl a mawreddog
Mae'n edrych dan glaerwych glog.

O'i gwmpas mae teg wempog—gadeiriawl
Goed irion gwyrdd-ddeiliog,
Lle hawddgar i'r gerddgar gog,
A'r eos fwyngu rywiog.

Band hyfryd ar hyd yr haf—eu gwelir
A golwg prydfferthaf;
Parhant yn eu tyfiant daf,
Nis gwywant hirnos gauaf.

Llonwych rodfeydd dillynion—sy yno,
Rhwng rhosynau gloywon,
Oll yn ferth, mor brydfferth bron
A sawrus flodau Saron.

Ei syw fâd addurniadau—a'i harddwch
 A urddant Ddolgellau;
 Gwir ethol ragoriaethau
 Ddyry'r blagur pur i'n pau.

Sylwer mai Williams haelwedd—ŵr anwyl,
 Yw'r uniawn etifedd;
 Caffed fyd hyfryd a hedd
 I'w einioes yn ei annedd.

A'i seirian deulu siriawl—hynawsaidd,
 Fo'n oesi'n grefyddawl,
 Ac esgyn wed'yn i wawl
 Cain wiwfyg Gwynfa nefawl.

Y DIWEDDAR ROBERT ROBERTS,
 CAERGYBL .

*Englynion a gyfansoddiwyd wrth wrando arno yn darlithio ar
 Seryddiaeth yn Nolgellau yn 1825.*

GWR doniawl, breiniawl, llawn bri—arabaidd,
 Yw Roberts, Caergybi;
 Gwnaeth ddangos, y nos, i ni
 Bur anian yr wybreni.

Seryddwr, awdwr odiaeth,—deallydd
 Dull y greadigaeth;
 Amlygu'n wiwgu a wnaeth
 Hen addurn anianyddiaeth.

Anrhegodd Gymru yn rhagor—â darlun
 O'r du oerwlyb ddyfnfor,
 A'r llun y mae gorllanw môr,
 Da gofiant, yn dygyfor.

RHYDYMAIN, MEIRIONYDD.

YN Rhydymain gain deg wedd—pregethir
Pur goethwych wirionedd,
Efengyl eryl eurwedd,
Gan ffyddlon genhadon hedd.

Yno ceir dan wên cariad—iawn frodyr
Unfrydol yn wastad,
Rydd ddilys wir addoliad
I Dduw Nêr, y Muner mād.

Ymgynnull mae ugeiniau—yn fynych
O fewn i gynteddau
Tŷ Iôr hedd, i gael gwledd glau
Yn ei waed i'w heneidiau.

Yno ca'dd llawer enaid—ei gynnal,
A'i gànau yn delaid;
Duw'r heddwch o'r llwch a'r llaid—a'u cododd,
Fyny eu dygodd i'r nef fendigaidd.

Diattal parhaed etto—yr achos,
I oruchel lwyddo;
Dyger i dŷ Duw Iago
Holl ddynion y freinlon fro.

FFLANGELL I BORTHWEISION.

HEB lwyddiant bum yn bloeddiaw—er gofid,
Ar gyfer Abermaw;
Dyrchefais fy llais a'm llaw,
Gwiriondeb, neb yn gwrandaw.

Ffei! aros wrth y fferi—am oriau
 Bu Meurig mewn oerni;
 Ystyriwch mewn tosturi
 Fod awr yn rhy fawr i fi.

Dau ddynyn diddaioni—dir ydych,
 A rwydwyd gan ddiogi;
 Ar dymbor oer rhaid i mi
 Deithio'r nos o'ch achos chwi.

Ni feiddiaf, rhag ofn im' foddi,—mwy byth
 Fyn'd mewn bâd ar weilgi;
 Aed cwch tyllog i'w grogi,
 Nid da'r môr, ond tir i mi.

I OFYN YSGYFARNOG

GAN THOMAS HARTLEY, YSW. (BARDD IDRIS).

AT Fardd Idris ar hyd grisiau—hylithr,
 Gan hwylio fy nghamrau,
 Yn o swrth 'rwyf am nesâu
 'Min nos, fel dyn mewn eisiau.

Dyn gwan a â dan gwyno—yn fynych
 I'r fan caiff ei wrando;
 Angen bair iddo wingo
 Heb baid, mae'n rhaid, rhaid rhoi tro.

Minnau'n awr, y mwyn wron,—anturiaf
 Cyn tòri fy nghalon
 I'ch gwydd yn rhwydd yr awr hon,
 Yn nghanol blin anghenion.

Llawer rhodd o'ch llaw'n rhwyddwch—a gefais,
 Ond ei gofyn genych;
 Un rhodd etto, Gymro gwych,
 Yn chwaneg wyf yn chwennych.

Bellach, mi wnafl grybwylliad—obeithiawl,
 Pa beth yw'n newisiad,
 Nis celaf, mae'nysgwylid—ei derbyn,
 Ar ol ei gofyn, gan ŵr hael gwiwfad.

Os gyrwch yn o scwarog—i Feurig
 Fawrwych ysgyfarnog,
 Cewch ganddo, cyn cano cog,—saith englyn,
 Neu wyth gwawdodyn o waith godidog.

DIOLCHGARWCH AM Y RHODD.

Eich teg hoff anrheg, heb ffael,—iawn d'wedyd,
 Nad ydoedd yn orwael,
 Yma gefais i'm gafael
 Ar g'oedd, a gwych oedd ei chael.

Mi gefais am ei gofyn—loew geinach
 O law gannerth ddichlyn
 Y bardd hael, e barodd hyn
 Lawenydd i wael annyn.

Glân geinach holliach oedd hi—gu ddilwgr
 A ddaliwyd gan filgi;
 Yn ei gwâr y cydiai'r ci,
 Treiddiodd ei ddannedd trwyddi.

Yr heliwr dewr a hylaw—yn nwydwyllt
 A neidiodd i'w chipiaw

O'i safn gerth, â'i lyfnferth law,
Ar hoewgais, cyn ei rhwygaw.

Ac yna gyru'r geinach—a wnaethoch
Yn eitha' dirwgnach,
Yn anrheg hardd i'r bardd bach,
Llwyd ofydd, sy'n lled afiach.

'Roedd arni gig lawa digon—hawdd addef,
I ddeuddeg o ddynion;
Ar air, bu'r plant a'r wŷrion
Ryw hyd yn gwledda ar hon.

Minnau ar eiriau'r awr'on—diolwch
A dalaf o'm calon
I'r hedd ynad, pen llâd llon,
Mawreddog, am ei roddion.

CASEG DDU CAPT. ANWYL,

BRYNADDA, DOLGELLAU,

Yr hon a ehoid Gipsei, ac a gyrhaeddodd yr oedran o 37.

GIPSI yn wisgi wnai waith—tair caseg,
Tra ceisiodd, ar unwaith;
Heb orphwys bu fyw'n berffaith
Droediog, sionc, dri deg a saith.

Carlamai, neidiai'n ofnadwy—ysegafn,
Pan wisgid ei chyfrwy;
Nid ofnai, hi dreiddiai drwy
Goedwig 'run fath ag adwy.

Er ei hanferth nerth dinych—byw iawndrefn,
 A'i buandra hoewwych,
 Yn gyflawn oed rhoed mewn rych
 I fraenu—llen fireinwych.

CWYNFAN Y BARDD,

Pan ladratwyd ei arfau ef a'i weithwyr wrth adgyweirio Ty'nycelyn, ger Dolgellau, yn 1832.

GWAE'r drygnaws lewdraws leidryn,—diwireb
 Dòrodd Dy'nycelyn;
 Lladratodd, gwanciodd mewn gwŷn,
 Y gelach, eirf i'w ga'lyn.

Plaeniau a llifiau un llaw—ac ebill,
 'Rwy'n gwybod am danaw;
Lefel a chŷn—burgyn baw,
 Breulyd,—ac *umberelav.*

Pwy bynag, pe b'ai i'w enwi,—ydoedd
 Yr adyn didd'ioni,
 Diboen iawn, e dybiwn i,
 Gwnai'r gwragedd ei ddarngrogi.

Bardd Idris, wedi chŷwed am yr anffawd flaenorol, a gânt fel hyn—

Rhedwch a daliwch y dylion—ddiogwyr,
 A ddygodd ebillion;
 Cerddwch yn ffest, curwch â ffon,
 I lifo'u gwaed fel afon.

Ateb Meurig Ebrill i Bardd Idris.

Cyfraith rwydd hylwydd yw hon—go hysbys,
 I gosbi mân-ladron;

Lainio'n ddig â phwysig ffon
Bellach sy am ddwyn ebillion.

DEUDDEG GWAE.

GWAE'R dyn cecrus, gresynus groesineb,
Gwae'r enllibiwr, fradwr, byr fo'i rwy'deb,
Gwae'r rhagrithiwr, gau leisiwr, gwael oseb,
Gwae y masweddw, wydiwr diwiwdeb,
Gwae'r hustyngwr, swynwr llawn casineb,
Gwae'r anudonwr, daerwr diwireb,
Gwae'r absenwr, swniwr heb rasineb,
Gwae'r balch diwylder heb elwch duwioldeb,
Gwae'r cybydd teryll, erchyll ei archeb,
Gwae'r dyn di rin, fo'n byw mewn glythineb,
Gwae'r meddwyn ynfyd coeglyd rhwth cegwleb,
Gwae'r anllad yn anad neb—a fyddo
Gwedi'i gadwyno gyda godineb.

PRIODAS

MR. C. R. JONES, A MISS TIBBOT.

LLEWYRCHODD, debrodd dibrin—wawr araul,
Ar oror Llanfyllin,
Pair godiad, mawrhad a rhin,
Drwy y foesawl dref iesin.

Deddyw degwedd dydd digas—y gwneddwyd
Gweinyddu priodas,
Deuddyn â bywyd addas,
Boddlongar, tringar eu tras.

Cadwaladr doethgadr ŵr da—a unwyd
 A'i anwyl Maria;
 Hawddamor i'r ddau yma—a digoll
 Oreudeg arfoll ar hyd eu gyrfa.

Mewn bri hir oesi'n rasawl—a gaffont,
 Yn gu hoff a siriawl,
 Dan aden gref Duw nefawl,
 A gwynfyd o hyd i'w hawl.

Mal Abram ddinam ddoniau—a Sarah,
 Seirian ei chynneddfau,
 Byw mewn cariad, c'lymiad clau,
 Y byddont hyd eu beddau.

Eu hil wiw ferth o'u hol a fo—gannoedd,
 Yn gwenawl flaguro;
 Cu rinwedd a'u corono
 Yn delaid, freiniaid y fro.

Y S E R .

MÆ'R ser yn uchder y nen—oddiarnom,
 Yn addurno'r wybren;
 Eu drych sy'n burwych dros ben
 Ar ol machludo'r heulwen.

Heirdd lampau golau, gwiwlon,—a dysglaer,
 Megys dysglau gloewon;
 Fe daera'r prif awduron
 Mai bydoedd yw'r lloedd llon.

Lloer a ser, eu lleuer sydd,—dealler,
 Yn deilliaw'n ysblenydd,

O wawl araul yr haul rhydd,
Llyw difai, yn llaw Dofydd.

THOMAS ELLIS,

BABAN Y PARCH. R. ELLIS, BRITHDIR.

Cyfansoddedig ar ddymuniad ei fammaeth, pan yn ymadael â'i Ue.

THOMAS, diau 'rwyf imi—yn eulun
Anwylaidd i'w hoffi;
Nis gwn pa fodd gwna'i'th roddi
O'm gafael, a d'adael di.

Mewn hedd dy ymgeleddu—fynaswn,
A'th fynwesawl fagu,
A'th ddwyn yn fwyn i fynu
Drwy feithriniad ceinfad cu.

Dy adael, trwm yw d'wedyd,—ryw dymmor,
Raid imi, f'anwlyd,
Ond llawn a mawr iawn yw 'mryd
Yn iach eilwaith ddychwelyd.

Collaist dy ddinam fami—er niwaid,
Bron newydd dy eni,
Dy adael a wnaed wedi
Heb laeth, yn fab maeth i mi.

Duw anwyl, rhoddwr doniau—cu odiaeth,
A'th gadwo bob prydiau,
Dan dirion union wenau,
Darbodaeth rhagluniaeth glau.

Didwyll fel dy hen deidiau—adwaenid
 Eu dinam rinweddu,
 Dilyn dan wybr heirdd lwybrau—y ffyddlon
 Gu hoff wŷr doethion, y'th gaffer dithau.

Dy dad yn wiw fâd a fo—ddoeth fanwl
 I'th fynych gyflwyno
 I ofal Nêr,—o'i flaen o,
 Le addas, fe wna lwyddo.

Wel, wel, mae rhaid ffarwelio—gwn bellach,
 Gan bwyllus obeithio
 Cyn hir, y trefnir i'm tro
 Atat gael dychwel etto.

Y MAELWYR.

Y MAELWYR rhwng y moelydd—ffei honynt,
 'Run ffunud a'u gilydd,
 Canant, a dawnsiant bob dydd,
 Os daw yn rhochus dywydd.

Aml wenant gan ymloni—a didawl
 Y d'wedant heb oedi,
 'R olwynion sy'n troi 'leni
 Etto un waith o'n tu ni.

Ond ni chlywir, dir, air da—o'u parabl
 Tra pery'r cynaua';
 Os hin hafaidd nawsaidd wna,
 Mawr ochant am yr ucha'.

Tremiant oddiar y trumau—am arwydd
 Daw mawrion gafodau,

Gan ddysgwyl mewn hwyl mwynhau
'R adeg gwaethyga'r ydau.

Ar hin deg rhai hynod wguſ—fyddant,
A rhyfeddol gecrus;
Gwerthu ga'r teulu gwarthus
Lai ar goel o lèr ac ùs.

Codiad y farchnad a fydd—yn destun
Eu distadl lawenydd;
Ond marchnad fâd rad a rydd,
Erwin boen i'r rhai'n beunydd.

Gwae'r maelwyr, tremwyr trymion,—sy'n achos
O nychu'r tylodion;
Twyllwyr breisg ynt oll o'r bron,
Cribddeiliawg grybaidd âlon.

Coeliwch y gwna Duw Celi—eich gwysio,
Grach gasweilch, i gyfri';
Dwg i lawn deg oleuni,
Eich geirwon ddichellion chwi.

Ni châr Nêr, ener union,—halogwyr,
Lewygant reidusion,
Di rith anwyliaid yr Iôn
Yw'r hygar drugarogion.

Anamlach bellach drwy'r byd—fo'r maelwyr
Milain a thrachwantlyd,
Cyn hir fe'u gelwir i gyd
Adref, i gael eu dedryd.

NODIADAU

AR GYMHWYSDERAU BEIRNIAID EISTEDDFODAU.

TONAWG grachfeirniaid dinod—byr ddeall,
Bardduant Eisteddfod;
Henwi rhyw feiau hynod
Wna'r rhai'n lle na bydd bai'n bod.

Myner beirniaid cymenus—gwroniaid
Gwir enwog a dawnus,
Wyr ragor rhwng difregus
Ddarawn pur, a'r a'mhur ũs.

Rhaid eu bod yn feirdd clodfawr—cadeiriawl,
Ac awduron treiddfawr,
Eryrod craffa'r orawr,
O drås gwell nag Idris Gawr.

Dynion o ddysg a doniau—da, araul,
Diwyrwg feddyliau,
Ofyddion doethion, di au,
Arweddynt naw o raddau.

Gwŷr ethawl â rhagoriaethau—dirbur,
Rhag derbyn wynebau,
A stôr o gymhwysderau—prif farnwyr
Llon iesin arwyr llawn o synwyr.

Er clod i eisteddfodau—a lluddias
Hyll eiddig gabledau,
Rhaid cael call a diwallau
Feirniadon—pigion ein pau.

Trwy fawr rin eu doethineb—amlygant
 Em loewgoeth eu purdeb;
 Tirion wŷr na wnant er neb
 Un enyd dderbyn wyneb.

Eglurant yn y glorian—eangder
 Teilyngdod pob cynghan;
 Y bardd coetha', gwycha'i gân,
 Ennilla o hyn allan.

Daw byd gwell, e geir bellach
 Farn deg gan wiw feirniaid iach;
 Rhoi'n oddaith ar unwaith raid
 Goeg farnau y gwag feirniaid.

Mae'r gair ar led y gwledydd
 Yn o gryf mai felly fydd;
 Gawried can mil y gorair,
 Felly bo—rhaid gwirio'r gair.

MARWNAD YR HELIWR,

NEU DDAMMEG Y PRYF LLWYD.

Y LLWYDAIDD bryfyn lliidiog—a lithrodd
 O lethrau Maentwrog
 I lechu, rhag gwlychu'i glog,
 Mewn man sydd yn min mawnog.

Y pry' llwyd, 'rol darpar lle,—ni erys
 Yn hir oddicartre',
 Pan wel dipyn o ole',
 I'w ffau fawr y ffy efe.

Os egyr ddrws ei ogo'—mewn dychryn
 Mae'n dechreu clustfeinio,
 Rhag i gwn, frathgwn y fro,
 Draw o'r wig droi i'w rwygo.

Y Sabbath ni fyn seibiant—mae'n gwibio
 Mewn gobaith am borthiant;
 Ni wna swn corgwn ddau cant
 Ei drechu i ladd ei drachwant.

Hèria bawb (hir yw ei ben)—y Sabbath,
 Gau swbach aflawen;
 E ddaw'r nos, pan dduo'r nen,
 I'w geudwll yn un goden.

Ac yno bydd coginiaeth—heb attal,
 A bwyta'r ysglyfaeth,
 Fu'n hela i'w gigfa gaeth
 Hyd y fro, mewn difriaeth.

Wyn gwâr, ac adar gwiwdeg—yw'r abwyd,
 A reibia'n ddiattreg;
 Gwed'yn, â phoer gwyn o'i geg,
 Chwennych ysglyfio 'chwaneg.

Ar fyr fe ddaw ryw forau—ddaeargwn
 Yn ddirgel fel bleiddiau
 Dros y ffos, ar draws ei ffau
 Ddrewllyd, i'w dynu'n ddrylliau.

Ac wed'yn gwneir ergydio—ei esgyrn
 Ar wasgar oddiyno;
 A gerwin fydd y gawrio—
 Darfu ei rwysg dirfawr o.

CLADDEDIGAETHAU

CELWYDDWYR, CYBYDDION, MEDDWON, GODINEB-
WYR, A LLADRON.

CLADDER y rhai celwyddog—yn eigion
Mawnogydd Pwll Arthog,
A'r cybyddion creulon crog
Yn mhydew Morfa Madog.

Holl feddwon bryntion ein bro—ergydier
I geudod Corsfochno;
Y llanerch erchyll hòno
I'r giwdawd yn feddrawd fo.

Gwydiawg buteinwyr gwed'yn—anfoner
I fynydd y Berwyn;
Cladder a chuddier fel chwyn—gwenwynig,
Y llun eiddig yn nghors Llanwddyn.

Helier y lladron halog—a gwarsyth,
I gorsau Hiraethog,
Yn fyddin ddu anfoddog—i'w claddu
'N mhell ar i fynu'n mhyllau rhyw fawnog.

Eu cyrff dan warth ddosbarthir—ar wasgar,
A'u rhwysg a ostyngir;
Eu beddau'n awr, gwybyddir,
(Pwy ammau?) sydd mewn pum sir.

Felly, bobl, fe allai bydd—yn weddus
Cael gweinyddiaeth Clochydd;
Ni ddaw'r Person rhadlon rhydd
Yn agos i'r mawnogydd.

Fe syna rhai defosiynawl—didwyll,
 A d'wedant yn foesawl,—
 Dyma ogan dammegawl
 Wrth gladdu, 'n lle mydru mawl!

TOWYN, MEIRION, A'I FFYNNON.

HYFRYDLON, rhadlon, a rhydd,—le tawel,
 Yw Towyn, Meirionydd;
 Am ei ffynnon, son mawr sydd,
 Dreigladwy, drwy y gwledydd.

Dw'r oeraidd, puraidd, o ddarpariaeth—deg
 A digoll rhagluniaeth;
 Drwy Dduw Nêr dyroddi wnaeth
 I gannoedd feddyginiaeth.

Mor hoff, ca'dd amryw gloffion—wir iechyd
 Wrth ymdrochi'n gyson
 Foreu a hwyr yn nwfr hon,
 Nes daethant yn ystwythion.

Rhinwedd yr oerddwfr hynod—a bery,
 Heb arwydd o ballodod,
 A'i darddiad rhydd fydd i fod
 Drwy oesoedd daear isod.

GWRAGEDD RHINWEDDOL.

DEDWYDDAWL ein hendad Adda—d'wedir,
 Nad ydoedd yn Ngwynfa,
 Nes cael rhodd a'i gwir foddia',
 Sef gwraig hawddgar, ddoethgar, dda.

Caffael hon a'i mawr lonodd—ei hurddas
 A'i harddwch a hoffodd;
 A'i fyg eulun fe'i galwodd
 Yn wraig fâd iawn rywiog fodd.

Mor wiwdeg yn Mharadwys—oedd Addaf,
 A'i ddyddan wraig gymhwys,
 Prydfertnach, gloywach na glwys—heirdd liwiau,
 Ac addurniadau y perlau purlwys.

Rhoddant ogoniant yn gu—i Ddofydd,
 Gan ddyfal foliannu,
 Cyn i'r diafl mewn cynhwr' du—'n faleisus,
 A'i dybiau awchus eu hudo i bechu.

Er llithro, gŵyro dan gerydd,—wgus,
 Drwy ddogio'u Creawdydd,
 Parausant mewn trefniant rhydd—yn ffyddlon,
 O gywir galon i garu eu gilydd.

Dylai gwŷr mewn dihalog wedd—garu
 Eu gorwych hoff wragedd,
 A rhoi iddynt barch rhwyddwedd
 Bob pryd, yn hyfryd mewn hedd.

Hyd fedd eu hanrhydeddu—sy'n weddus
 Weinyddiad mwyneiddgu,
 Heb chwerwder na digter du,
 Ymrodder i'w mawreddu.

Gwedaf, ni wadaf wed'yn,—tra oeswyf,
 Mai trysor mwy dillyn,
 Gŵyr miloedd, nag aur melyn,
 Yw gwraig gall, ddiwall, i ddyn.

Darbodus, hoffus yw hi,—hap siriol,
 Heb soriant na choegni;
 Mewn llawn serch ei gwir berchi—a ddylid,
 Dan droi'n gwir ryddid yn dringar iddi.

Ni thry'i chefn heb iawn drefnu—achosion
 A chysur ei theulu;
 Puredig ddarpariadu
 Mae'n wastad mewn cariad cu.

Dan ei bron dirion nid oes—yn llechu
 'Run llwchyn o anfoes,
 Na du ragfarn na drygfoes,
 Nag un gradd o gynhen groes.

Dilys y gwna â'i dwylo—ei gorchwyl,
 Gan chwai gyrchu ato;
 Mewn gwirionedd mae'n gryno,
 A drych hyfrydwyd y fro.

I'w thylwyth, mewn iaith olau,—y dyrydd
 Dirion addysgiadau;
 Enaid y gwir, ac nid gau,—ddaw'n gyson,
 A ffriwdeg union yn ffrwd o'i genau.

Fel yna dybena bill,
 Mêr gobryn Meurig Ebrill.

Y PARCH. BENJAMIN PRICE,
 (CYMRO BACH.)

GOHEBYDD FFRAETHBERT Y GYMRAES.

HENFFYCH well, medd pawb bellach,—wiw hybarch
 Ohebydd disothach;
 P'le ceir coeth awdwr doethach,
 Ac mor bert a'r Cymro Bach?

Dy gywrain ffraethdeg eiriau—synwyrddoeth,
 Sy'n urddo'th draethodau,
 Cywir y gwelir hwy'n gwau
 Drwy'u gilydd yn dra golau.

Mae agwedd dy ddammegion—mawreddog,
 Mor hydestl a chyson,
 Arabaid ddiarhebion,
 Mwy eu bri na'r gemau bron.

Helaethach, hyfach o hyd,—yr elych,
 Areilia'r ieuenctyd;
 A'r plant a gofiant i gyd
 Dy eiriau fel diawryd.

Manwl sylwa pob meinwen—ddeallus,
 Ar ddullwedd ddoeth addien
 Gwraig Adda gyda'i theg wên,
 Gem geinwch hen Gwm Gwenen.

Goddeg amlwg yw iddyn'—ochelyd
 Pob crach halog feddwyn,
 A'r gwarthus ddigus ddiogyn,
 Llawn o dwyll, naw llai na dyn.

Gwir addysg teg a roddi—heb lun twyll,
 I blant a rhieni;
 Cedyrn bo hwythau'n codi
 At eu gwaith wrth d'araith di.

Y Cymro Bach, cymer y byd—o'th flaen,
 Ac na'th finer hefyd;
 Dy radlawn ddysg dirydlyd
 Sy'n gweddu drwy Gymru i gyd.

HUMPHREY EVAN,

BRITHDIR, GER DOLGELLAU.

Hoff ŵr ufudd yw Humphrey Evan—pur,
Yn cael parch yn mhobman;
Dewr siriol frodor seirian,
Mawr ei glod, a Chymro glân.

Dyngarwr â doniau gwiwrwydd—ydyw,
Odiaeth ei onestrwydd;
Da ŵr oediawg diw'radwydd,
Fel hen sant cyflawna'i swydd.

Yn ddidig mewn naw o ddyddiau—teithia
At waith mynydd Bucklau;
A daw'n ol o dan hwyliâu—yn deilwng,
Drwy ddal a gollwng, i dre' Ddolgellau.

Ei ddewisol ddau asyn—cwplysog,
Pleser yw eu canlyn;
Diochri, heb ofn na dychryn—i'w taith,
Yr ânt ar unwaith, ni ŵyrrant ronyn.

Dan gerdded yn agwrddol—y draulfawr
Bedrolfen gysgodol
A lusingant, tynant o'u hol
Yn araf ac yn wrol.

Dau ydynt, mae'n hawdd d'wedyd,—odiaethol,
Gydweithiant yn unfryd;
Rhy anhawdd unrhyw enyd
Cael dau o'u bathau drwy'r byd.

Ercher mawr lwydd rhwydd dan rhod—i'r gwron,
 A'r gwaraidd asynod;
 Na chaed tramgwydd afrwydd dd'od
 Cwyf erfawr, i'w cyfarfod.

Boed iachus, hapus oes hir,—i gludydd
 Hyglodus y Brithdir;
 Ni feiddiodd wneud, fe wyddir,
 Un tro sal yn y tair sir.

Aethus, ddirwgus ddreigiau,—e goelir,
 A giliant o'i lwybrau;
 Hen ellyllon gwyllion gau
 A ffoant draw i'w ffauau.

Bri mawr a gaiff bro Meirion—o herwydd
 Ei harwr mwyneddlon;
 Pery ei enw pur union
 Drwy y sir wedi'r oes hon.

VICAR CONWY.

CANER i Vicar Conwy—wir eres
 Arwyrain bletheadwy;
 D'weder yn bur glodadwy
 Am y gwr, pleidiwr y plwy'.

Dyma ŵr da'i ymyraeth—a haeddai
 Gyhoeddus ganmoliaeth;
 Treth yr offrwm, gorthrwm gaeth,
 Ysgubodd o'i esgobaeth.

Ffromodd wrth wel'd offrymu—o byrsau
 I Berson am gladdu;

Hawddamor!—mae'n diddymu
Toll deddf yn nghylch y "twll du."

E ballir offrymu bellach—d'wedir,
Nid ydyw'n gyfrinach,
Y gellir cael trefn gallach
I fwrw i'r bedd fawr a bach.

Gwel'd swm ei ddegwm yn ddigon—o dâl
Mae'r dihalog Berson,
A thâl teg i'w landeg lon
Hoffeiddllys Glochydd ffyddlon.

Dyna i chwi, 'r Cymry doniawl,—diniwaid,
Un newydd rhagorawl;
Yn Nghonwy, mwyfwy fo'r mawl,
Boddwyd y ddeddf babyddawl.

Mae'r hanes hwn mor hynod—gwnai destun
Dwysteg mewn eisteddfod;
Hwyrach, pan clywir Herod
Yn coffa'i fai, caiff o fod.

Anrheged rhyw feirdd yn rhagor—y doeth
Odiaethol Beriglor;
Er dim, caffed hir dymmor
Y man y mae, 'n min y môr.

BUGEILIAID EPPYNT.

DIHAP Fugeiliaid Eppynt—rhyw faeddod
Rhyfeddol iawn ydynt;
Gwehilion drwg eu helynt,
O chwaeth gas—go chwithig ynt.

Bugeiliaid, gwylliaid gwallus,—annoethion,
 Eithaf cenfigenus;
 Ow, gwŷr gwellt, sofr, gwair, ac ūs,
 Yw'r bratiau—fe ŵyr Brutus.

Bugeiliaid yn bygylu—a lluchiau
 Eu llwch ar i fynu;
 Lluddia'u cwmwl dwl a du,
 Erchyll, i'r "Haul" lewyrchu.

Bugeiliaid yn labio'u gilydd—ydynt,
 Dros ddaliadau crefydd;
 Ond Ifor, yn enw Dafydd,
 Cawr o'r De, sy'n cario'r dydd.

Llewelyn, ddwlyn, a ddulia—Ifor,
 Myn e fod yn drecha;
 Pwnia Sierlyn wed'yn, a
 Yr hen Idwal ddyrnodia.

Pedwar llais, dyfais *un* dyn,—a'i wawdiaith,
 Yw Idwal a Sierlyn,
 Ac Ifor, gwelltor llawn gwŷn,
 Hyll olwg, a Llewelyn.

Wel, yn awr, feddyliwn i,—mai anhawdd,
 Er mynych ymholi,
 Cael tan nen *un* i'w enwi,
 Wrth ddadlu, yn trechu *tri*.

Ond gerwin nwyd engiriol—ennyna
 Yn anian sel bleidiol,
 Bydd fel tân yn syfrdan siol
 Wenwynig dyn hunanol.

Yn awr, goddefwch i ni
Roi iachus gynghor ichwi.

Gwylwch eich praidd, fugeiliaid,—rhag dinystr,
A rhwyg dannedd bleiddiaid;
Rho'wch heibio bwnio'n ddibaid,
Fel annoeth gerth fileiniaid.

Bwriwch, rhag tristwch, y trawstiau—hyllig,
Allan o'ch llygadau,
Hawdd wed'yn i bryfyn brau,
Heb roch, fydd gwel'd y brychau.

Di glod ar hyd y gwledydd—yw llafur
Rhai'n gwelleifio'u gilydd;
Pob diabsen ddarllenydd
Cosi'i ben a'u casâu bydd.

Byw'n ddidig, bwyllig, bellach—a wneloch,
Mewn hylwydd gyfeillach,
Fel brodyr, a gwŷr teg iach,
Eirian llon, o'r un llinach.

HARLECH A'I CHASTELL.

HARLECH sy bentref hirlwm—oer hefyd,
A rhyfedd o noethlwm,
Lle creigiog, ochrog, achrwm,
Rheng o dai gwael rhwng dau gwm.

Er hyny mae'n wir enwog—o achos
Mawrwychedd godidog
Y cywrain Gastell caerog,
Binacl claer, sydd ar ben clog.

Ac hefyd, dylid cofio—y gwesty
 Hardd gwastad sydd yno,
 Plas-yn-Harlech, drwy'r frech fro,
 Gwyddys, 'does tebyg iddo.

I deithwyr mae'n lle odiaethol—anwyl,
 Am luniaeth iachusol,
 A rhyw swm pur resymol
 A raid ei dalu ar ol.

Dirwystrus, heb drahaustra,—yn llonwych,
 A llawn o fwyneidd-dra,
 Heb omedd, caiff pawb yma
 Fwydydd a diodydd da.

DAU OF YN GWEITHIO.

GWELAF ddianaf ddau o'—tra dawnus
 Yn trydanawl weithio;
 Daliant i droi a dulio
 Haiarn noeth tra'n boeth y bo.

Terwynwyllt bob tu'r einion—y pwniant,
 A'u penau yn noethion,
 Labiant nes chwysu'n wlybion,
 A'u dwylaw yn brydiaw bron.

Gwed'yn ei lunio'n gudeg—a wneddynt,
 Yn addas i'w gofeg
 Bwriadol, yn bur wiwdeg,
 Heb grychni, brychni, na breg.

Dau ŵr odiaeth dewr ydych—dau ddigon
 Diddiogi'n edrych;

Dau ôf doethgar, gweithgar, gwych,
A dewrion, fel dau eurych.

ANERCH I LENORION Y BRITHDIR,
DOLGELLAU.

LLAWN o aidd ydyw llenyddion—gwiwlwys
Broydd Gwalia'r awr'on;
Adrodd gwaith prif-feirdd heirdion
Geir braidd yn mhob lle ger bron.

Dibrin rhoddir da wobrau—llawn addurn
I'r llenyddion gorau;
Pur o hyd y mae'n parhau
Emwrys iawn ymrysonau.

Milwaith y mawr ganmolir—llenorion
Llon eirioes y Brithdir;
Canfod eu gwell nis gellir
O Fon deg i Fynwy dir.

Gorwych a da ddirguraw—eu clywir
Yn cloiawg bwysleisiaw;
Eu llais ac amnaid y llaw
Naturiol sy'n cyd-daraw.

Llywyddu mewn dull addas—ragorawl,
Y mae'r gwr o Wanas,
A llun hardd yn llawn urddas,
A bri, heb ddim coegni cas.

Da eithaf gwedi'i ethawl—a'i godi
I'r gadair lywyddawl,
Dangosodd, a hõnodd hawl
Llåd 'reithydd llywodraethawl.

Ymwriwch, lanciau mirain,—a gawriwch,
 Nes bo'ch geiriau madiain
 Yn cyrhaedd â dawn cywrain,
 Radau myg, i Rydymain.

Eich gweled gyda'ch gilydd—mor odiaeth,
 Mawr ydyw'r llawenydd;
 A'ch gwaith campus hoffus sydd
 Yn glodus hyd ein gwledydd.

Eich cyfflym awgrym wiwgreth—a daeno
 Hyd wyneb Llanfachreth;
 Drwy hyn, heb fymryn o feth,—daw'r ardal
 Yn llawn o'r dyfal ddarllenwyr difeth.

Y PARCH. E. DAVIES,

(ETA DELTA.)

ARFER beirdd ein erfawr bau
 Fu siarad rhyw fwys-eiriau;
 Amser fu er dysgu'r dwl,
 Da fyddai gair dauffedwl.

Mae Eta Delta bob dydd—i'w nodi
 Yn wiwdeg ohebydd,
 A'i ddur bin ni ddaw'r beunydd,
 Heibio i bawb gohebu bydd.

Ni wel neb un gohebydd—diaball
 O'i debyg drwy'r gwledydd;
 Dyfnion wersi llawn defnydd
 Gan Eta'n drysorfa sydd.

Dyn yw hwn â dawn hynod—olwynawg
 I lenwi pob cyfnod;
 Heb Delta ni bydda'n bod
 Gwir elw mewn dim Grealod.

Yn hyawdl mewn hen a newydd—selog
 Fisolion ein broydd,
 Rhyw ddarlith ddi rith a rydd,
 Goeth, rinawl, gu athronydd.

Mor eon a'i amrywiaeth—awdurol
 Y dyry ddysgeidiaeth;
 A gwên lon dirion y daeth—hyd Gymru,
 I dda weinyddu ei dduwinyddiaeth.

Mae'n dreiddiawl mewn daearyddiaeth—cadarn
 Y cwyd at seryddiaeth;
 Ac athraw, gall ffrostiaw'n ffraeth
 Rhyfeddol mewn rhifyddiaeth.

Baedda'r hen FAM babyddawl—ag aethus
 Fygythion arswydawl;
 Ond i'r FERCH y dyry fawl
 Trwy ryw fodd tra rhyfeddawl.

Unwaith â'i araith eirian—cyffyrddodd
 A ffordd i gael allan
 Gu iesin glir gosyn glân,
 Tewflith, o gawsellt aflan.

Gorwych am phisgygwriaeth—ei cafwyd,
 Cofir ei wasanaeth;
 Adfer drwy rin ei driniaeth
 Yn ddigon iach ddegau wnaeth.

Rhwydd heb wâd rhydd wybodaeth—gu wempawg
 O gwmpas coginiaeth;
 Dysg yn deg â'i chweg wiw chwaeth—i'r gwragedd
 Yn bert a llonwedd barotoi lluniaeth.

Rhyfedd mor glodfawr hefyd—a dwysgall,
 Y dysga'r ieuentyd;
 Fe rydd bob cyfarwyddyd
 I'r rhei'ni iawn bobli'r byd.

I'r meibion dan rhod fe noda—'r adeg
 Briodol i wreica;
 Ac i'r merched d'wed air da,
 Eres, pa bryd i wra.

Rhydd ddengmlwydd (arwydd orau)—ar hugain,
 Neu ragor i'r llanciau;
 Cu enethod, cân' hwythau,
 O'i ran ef, wra yn iau.

Plant ffol i ddiafol, medd o,—yw pob un,
 Pawb oll na phriodo,
 Er mwyn cael, ar drafael dro,
 Hap hylwydd wrth epilio.

Os gwir hyn, ys gwae rhei'ni—na feiddiant
 Feddwl am briodi;
 Gresyn na wnaent ymgroesi—a chanfod
 Mor dra hynod yw eu mawr drueni.

Mae Eta'n trin y mater—is wybren
 Yn sobraidd bob amser,
 Er hyny, prin yr hanner—o'r Cymry,
 A dŷn i fyny o dan ei faner.

Da gŵyr yr adeg orau—i'r hynaws
 Rïanod a'r llanciau
 Fyn'd dan rwymiad, c'lymiad clau,—parhäawl,
 Hyny hyd ingawl wahaniad angau.

Onid oes seiniau dwysion—yn berwi
 Yn ei bur gynghorion?
 Gwell eu ceir, os eir i son,
 Drwyddynt na rhai'r derwyddon.

Ar len os gwna neb benu—un rhinwedd
 Yn rhïanod Cymru,
 Gwrthddadl rydd ef i'w gwarthu
 Ar dalen y ddalen ddu.

Taro'n flin erwin a wnaeth—ar gynnydd
 Drygioni puteiniaeth:
 Y prif bwnc mewn cyfwng caeth—sydd ganddo
 A lleisiau drosto, yw lles dirwestiaeth.

Ni fetha Eta roi ateb—parod,
 I'r pura'i ddoethineb;
 Cawr o awdwr cry' wiwdeb,
 Dwfn iawn yw, nad ofna neb.

Yn ŵr iach bellach bob awr—bo Eta,
 Heb attal dysg werthfawr;
 Dalied yn deg hyd elawr,
 Caiff helaeth ganmolïaeth mawr.

ELLIS ROBERTS (EOS GLAN WNION.)

WYTH llinell eitha' llawnion—a weaf
 I Eos Glan Wnion,

Bardd treiddgar, breingar ger bron,
A llenydd doethgall union.

Y siriawl Eos eirian—sy' reddfól
Syw rwyddfardd o anian,
A'i brif waith brofa weithian
Ei fedr coeth i fydru cân.

ANERCH I MR. JOHN DAVIES,
UTICA, AMERICA,

Mab Mr. John Davies, Llyfr-rwymydd, Dolgellau.

Y GWARAIDD rywiog wron—drwy gariad,
'Rwy'n gyru yr awr'on
O wlad bell y llinell hon
I'th anerch mewn iaith union.

Diystryw mewn gwlad estron—Amerig,
Dros y moroedd meithion,
Duw Iôr a rano dirion
Einioes hir i fy nai Siôn.

Draenog o ddyn dirinwedd—wnaeth anfon
Noeth ynfyd anwiredd;
D'wedai it' gael, mewn gwaeledd,
O'r byd dy hebrwng i'r bedd.

Dedwydd a hyfryd ydyw—dy rywiog
Fâd riaint diledryw,
A'th frawd destl, hyddestl, heddyw,
'Nol gwybod dy fod yn fyw.

Minnau o wraidd fy mynwes—wy'n manwl
 Ddymuno heb rodres
 Yn rhwydd it' bob llwydd a lles,
 Fy llariaidd gyfaill eres.

ANERCHIAD I MEURIG EBRILL,
 GAN GUTYN EBRILL.

MEURIG EBRILL, pill o'm pen—a ganaf
 I dy geinwech awen;
 Doniau Nudd ge'st ti dan nen
 I ganu heb un gynen.

ANERCHIAD I GUTYN EBRILL,
 GAN MEURIG EBRILL

I GUTYN, heb goeg watwor,—y gyraf
 Rai geiriau yn rhagor,
 Ni wnaif erwin gyfri'n gòr
 Deg wiwddyn da'i egwyddor.

Nid poen i mi wneud pennill—yn gonglog
 Ag englyn tri-deg-sill,
 I'r bardd bach llwybreiddia'i bill,
 Tan wybren, Gutyn Ebrill.

Heddyw y'th daer wahoddaf—i'm hannedd,
 Am hyny'r ymbiliaf;
 Tyred yn hardd, brif-far-dd braf,
 Gutyn, trwy goedwig ataf.

Cuchiog mae'r Gaua'n cychwyn—a'r barug
 Drwy'r boreu sydd glaerwyn,

Ac etto ni wna Gutyn
Oeri'i gorff gan eira gwyn.

Gwell fy sut pan ddel Gutyn—a fyddaf,
'Rwy'n rhyw feddwl, gwed'yn;
Brysia ddyfod, ddewrglod ddyn,
Gonest, cyn dechreu'r Gwanwyn.

Pan ddelych, geinwch ganwr,—cei luniaeth,
Cei le yn y parlwr;
Cei eistedd fel cu westwr,
Cei fyd da, cei yfed dwr.

Dyfydd fel glân bendefig—iach hylwydd,
A chalon garedig;
Cei fyw'n ddestl, heb dymhestl dig,
Am oriau yn nhŷ Meurig.

Dyna'n o gwta, Gutyn,—ti weli,
It' waelaidd wyth englyn,
Etto toc ti gei at hyn
Gydiedig wyth gwawdodyn.

ETTO.

Cyn y Pasc rhaid canu pill—teg etto
I ti, Gutyn Ebrill,
Cadwynawg, banawg bennill,
Yn gerddgar, seingar, bob sill.

Da'r haeddit, awdwr rhwyddwch,—difalais,
Gael dy foli'n fynych;
Manwl bryddestydd mwynwch
Gwiw iawn wyt, ag awen wych.

Canu i "Lythyrdoll Ceiniog"—a wnaethost
 Yn eithaf godidog;
 Cei wobr mawr iawn, a llawn llog,
 Am ragorwaith mor gaerog.

Dos rhagod, cei glod yn glau—o ethryb
 Dy uthrawl bryddestau,
 Ca'r Brython hylon fwynhau
 Diddanawl firwyth dy ddoniau.

PRIODAS

MR. ROBERT PUGH, A MISS ANNE JONES,

Gwesty'r Alarch, Dolgellau.

HAWDDAMOR heddyw yma—i Robert,
 Y gwir hybarch wrda;
 Ag Anne ddoeth, ei gu iawn dda
 Rywiog weddaidd wraig wiwdda.

Dylid dyrchafu dolef—aruthrfawr,
 Yr wythfed o Hydref;
 Boed byd hawdd dan nawdd Duw nef,
 A heddwch yn eu haddef.

Gan mai hwn, d'wedwn, yw'r dydd—yr unwyd,
 Yr anwyl bâr dedwydd,
 Hir goffâd iawn fâd a fydd
 Am dano'n ngrym dywenydd.

Robert sydd fab arabwych—Ieuan Awst,
 Hwn oedd yn ŵr callwych,
 Gyfreithydd ac ieithydd gwych,
 Diwyo, a bardd dewrwych.

Hefyd, ei briod hafarch—mae'n weddus,
 Ei mwynneiddiawl gyfarch,
 Sydd ferch Ieuan, burlan barch,
 Rheolwr Gwesty'r Alarch.

Puwiaid, ac Io'niaid, cannoedd—o'u llinach,
 Fo'n llenwi'n hardaloedd;
 Cenedl gref, ddigyfref, g'oedd,
 Eresawl, f'ont drwy'r oesoedd.

COFGOLOFN DAFYDD IONAWR,
 YN MYNWENT DOLGELLAU.

A wnaed ar draul y Parch. J. Jones, M.A. Borthwnog.

EURFYG gofgolofn erfawr—gre' foddawg,
 Ar fedd Dafydd Ionawr,
 Gywrain wych, a geir yn awr,
 O galedfain gwiw glodfawr.

Cofgolofn bardd, hardd yw hon—llawn addurn,
 Lle noddir gweddillion
 Corff mawr arwr craff Meirion—lladmerydd,
 Mwyn dêr awenydd yn min dw'r Wnion.

Gwir enwog bur gywreinwaith—neud ydyw
 Nodedig o berffaith;
 Ni welir un manylwaith
 Cadarnach na choethach chwaith.

Diodid, er mor glodadwy,—gwelir
 Y golofn safadwy,
 Mydrau'r bardd mâd profadwy
 Sydd ganmil a milfil mwy.

Ei chweg gain wiwdeg ganiadon—gorwvch,
 A gerir gan Frython
 Tra rhed dw'r, tra rhua tòn,
 A'r môr wrth odre Meirion.

Mewn bri, fel meini mynawr,—hyd foreu
 Adferiad o'r dulawr,
 Y gu lefn ferth golofn fawr,
 Bydd yna uwch bedd Ionawr.

GWALLT GWYN.

A gyfansoddiwyd wrth edrych ar hen gyfaill.

YN ben coch y bu'n cychwyn—ac eilwaith
 Fe'i gwelwyd yn felyn,
 Gwyddys fod gwallt y gwiwddyn,
 Hawdd i ni wel'd, heddyw'n wyn.

E rydd hyn arwydd hynod—tra eglur,
 Mai trigle y beddrod
 Yw'r fan cei'n bur fuan fod,
 Dy yrfa sydd bron darfod.

MYNEDIAD

Y BARD D MEWN CWCH I ABERMAW.

DAETHOM yn hawdd hyd Fawddach—dan hwbian
 Heibio Aberamffrach;
 Yn bwyllig ni gawn bellach
 Laniaw yn Abermaw bach.

BLWYDD YN LLADD DWYFLWYDD.

YSTYRIAIS mewn dystawrwydd—rhyfeddais
Wirfoddawl ffyrnigrwydd
Llyffant anwar, bleiddgar, blwydd,
Dieffig, yn lladd y dwyflwydd.

HEN WR GWEDDW YN PRIODI MERCH IEUANC.

YN ffyddlon rhodd Siôn ei serch—ar Feti,
Gwir fater o draserch;
A rhoddodd Huw Siôn Rhydderch
I Siôn, yn foddlon, ei ferch.

BWLCH OERDDRWS.

BWLCH OERDDRWS serth, gerth o'i go'—lle uchel,
Heb un lloches ynddo,
Ar hin oerllyd, drymllyd dro,
Tristwch geir wrth fyn'd trosto.

Y R H A F.

FE ddaeth yr haf braf ger bron—er llesiant
I'r llysiâu a'r meillion;
Cryfhau'r eginâu gweinion
Mewn pryd mae'r hin hyfryd hon.

BYRDDRA OES.

MAL chwedl mae'r holl genedloedd—trwy waeledd,
Yn treulio'u blyneddoedd;
Ymryson myn'd mae'r oesoedd—yn brysur
Heibio, 'run fesur a byrion fisoedd.

PEIRIANNWAITH BRETHYNAU

JOHN AC ELIZABETH MILLS, FELINUCHAF,
DOLGELLAU.

GOLWG well ar Ddolgellau—'n ddiballiant
Ddaw bellach am oesau;
Bri dieisawr, clodfawr, clau,
Ddodir i'r celfyddydau.

Gwir goethfawr gaerog weithfa—ofalus,
Sy'n y Felinucha',
Nwyfau teg, difreg, a da,
Yw llumon y lle yma.

Gwempus addurnol gampwaith—odiaethol
Gydweithir yn berffaith;
Peiriannau pur ar unwaith
Oll un wedd sy'n llawn o waith.

Dianaf gribydd doniol—galluog,
A lliwydd medrusol,
Rhai na âd yn fwriadol
Mo'u gwaith yr unwaith ar ol.

Rhai nyddwyr llawn rhinweddau—ac eraill
Yn cywrain wneud pinau,
A rhai gwâr, gweithgar, yn gwau,
Yma geir am y gorau.

Cwyradd frethynau caerog—a lliwdeg,
Wnaent ddilladu'r Marchog,
Defnydd prydferth glydferth glog,
A gleiniaidd lodrau gwlanog.

Y siriol wraig lwys eirian—a welir
 Yn rheoli'r cyfan;
 Hwyllo'r gwaith rhwyddfaith bob rhan
 O hono, a wna'i hunan.

Clamp o dlws arian yn gyfan gafodd
 Am nwyfau breiniawl, ethawl, a weithiodd;
 Ei choeth dda wiwddestl wych waith a'i haeddodd,
 Ar dŵr o gawri y dewr ragorodd;
 Ei chlodus barch a ledodd—drwy'r dalaeth,
 A bri ehelaeth i'w bro a hawliodd.

Holl feirddion gwiwlon Gwalia—eiddunwch,
 Drwy ddinam fwyneidd-dra,
 Fyd esmwyth i dylwyth da,
 Iachus, y Felinaucha'.

MR. ELLIS ROBERTS,
 (EOS MEIRION,)

TELYNOR TYWYSG CYMRU.

Ys mawrwych Eos Meirion—a ddenwyd
 I ddinas y Saeson;
 Hanodd y mād ŵr llād llon
 O bur wythi y Brython.

Dylanwad prif Delynawr—ein henwog
 Dywysog dieisiawr,
 Dros holl Frydain firain, fawr,
 A gyrhaedd i bob gorawr.

Yn Ewrob nid oes un arall—fesur
 Iawn fwsig mor ddiball;

Pergoeth i bob nôd purgall
Etyb ef, heb iot o ball.

Gwalia o benbwygilydd—er adfer
Gwir redfa llawenydd,
Mewn hwyl sy'n dysgwyl bob dydd
Am Ellis rhwng ei moelydd.

CALENIG

I GYMDEITHAS LENYDDOL Y BALA, ION. 12, 1853.

HAWDDAMOR i lenorion—y Bala,
Eirian belydr Meirion;
Mawreddawg ladmeryddion,
Dorf hardd, geir yn y dref hon.

Treiddgar iawn wiwgar enwogion—doethaidd,
O deithi'r hen Frython,
Yma sydd, daw mwy o son
Am eu drychawl ymdrechion.

Da beunydd yw'ch dybenion—unfrydawl,
Iawn frodyr heddychlun,
Cynnyddfawr, llwyddfawr, a llon,
Ddwysgu deg ddysgedigion.

Cawraidd bwysleiswyr cywrain—dir ydych,
Rydd d'rawiadol adsain,
Caiff pob gair, mawrair mirain,
Briodawl, gysonawl sain.

Nid diffraith goegwaith na gwegi—halog,
A heliwch yn wersi;
Ond gwaith iawn o goeth yni
Awduron breinlon eu bri.

Ewch y'mlaen drwy wych ymlyniad—grymus,
 Yn myg rwymau cariad,
 Lleufer mawr o'ch llafur mād
 Ga eraill yn gu wawriad.

Seithwell na doethwys Athen—dwys gydiwch
 Mewn dysgeidiaeth drylen;
 Boed pynciau eich llyfrau llèn
 Yn oleu a diniwlen.

Ymgyrhaedd am y gorau—a wneloch,
 Yn ol eich talentau,
 Ceir gwel'd llachar, glodgar, glau,
 Urdduniant eich heirdd ddoniau.

Dilwgr a fo'r frawdoliaeth—heb goledd,
 Bygylawg ddadleuaeth,
 Nac aelod mewn ffregod ffraeth,
 Flin yru am flaenoriaeth.

Cain addfwyn feib cynnyddfawr—a fyddoch,
 A rhyfeddol glodfawr;
 Gwyliwch yn ffel hyd elawr,
 Fwy fwy, rhag chwyddo'n V fawr.

Yn bybyr, arwyr eirian,—dihalog,
 Y deloch yn fuan;
 Parch hynod, a chlod achlân,
 Ennilloch o hyn allan.

Athrawon doethion a da—synwryol,
 Sy'n awr yn y Bala,—
 Michael a John union, a
 Llewelyn, bri holl Walia.

MARY JONES,

Merch fechan Mr. a Mrs. Jones, Liverpool House, Dolgellau.

MAIR seirian, O mor siriol—a thelaid,
Yw'th olwg serchiadol;
Mae'th ruddiau mwyth ireiddiol,
A'u lliw'n deg fel meillion dól.

MAIR ddestlus foddus ni fu—dewr eneth
Dirionach yn Nghymru;
Dy fam a'th dad ceinfad cu
Fywiogant wrth dy fagu.

A R A L L E I R I A D

O amrywiol ranau o'r Ysgrythyrau.

JOB XIV.

DYN o'i fabandod, hyn sydd wir,
Amgylchir gan drallodion,
A'i ddyddiau sydd yn fyrion iawn,
A rhei'ny'n llawn helbulon.

Daw allan fel planhigyn îr,
Ond chwai ei tòrir ymaith,
Ac megys cysgod cilio wna,
Ni bydd ei yrfa'n hirfaith.

O Arglwydd, a agori di
Ar fy math i dy lygad?
A ddygi di y fi i farn,
Fy anwyl gadarn Geidwad?

Pwy ddyry allan un peth glân
 O aflan? sydd ofyniad;
 Ni ddichon neb o ddynolryw
 Wneud hyny, yw'r atebiad.

Holl ddyddiau dyn, mor glir a'r gwawl,
 Gan Dduw hysbysawl ydynt;
 Rhifedi'i fisoedd sydd dan glo,
 Fel na chyrhaeddo drostynt.

Tro'th lid oddiwrtho enyd awr,
 Esmwytha'i ddirfawr drallod,
 Nes y gorpheno yn ddigas
 Fel cyflog was ei ddiwrnod.

Gwir yw fod gobaith o bren gwael,
 Er iddo gael ei dori,
 Y daw o'i foncyff flagur cu,
 I gadarn dyfu gwedi.

Er i'w brydferthwch yn y tir,
 A'i wreiddyn i'r heneiddio,
 A'i foncyff, oedd yn iraidd iawn,
 Mewn priddell lawn farweiddio,—

Fe ail flagura'n deg ar g'oedd,
 Wrth arogl dyfroedd wed'yn,
 A bwria allan yn ddigel
 Ganghenau fel planhigyn.

Ond gwr fydd marw'n wael ei fri,
 Caiff ef ei dori ymaith;
 A dyn a drenga, p'le mae fo?
 A welir mo'no eilwaith?

'Run fath a'r dyfroedd, fu'n ystôr
 O'r eang fôr, yn pallu;
 A'r afon oedd a'i ffrydiau'n bur,
 Mae hòno'n prysur sychu.

Ac felly gwr, yn ngwaelod bedd
 Fe orwedd ei ran farwol,
 Hyd gyfnewidiad daear lawr,
 A'r nefoedd fawr wybrenol.

Gan faint ei drallod yn y byd,
 Mae lawer pryd yn wylo;
 Chwennycha'n fynych yr un wedd
 Gael yn y bedd ei guddio.

Gwr a fydd marw,* hyn heb wâd
 Sydd yn osodiad dwyfol,
 Ac adgyfodir ef drachefn,
 Yn ol y drefn arfaethol.

Dysgwyliaf, meddai Job, yn glau,
 Holl ddyddiau fy milwriaeth,
 Y cyfyd Crist fy nghorff yn fyw,
 Er profi briw marwolaeth.

Ti elwi arnaf, O Dduw mau,
 A minnau a'th atebaf;
 Chwennychi waith dy ddwylaw mâd,
 Sydd o'th wneuthuriad harddaf.

Fy nghamrau 'nawr mewn anial dir
 A rifi'n gywir hynod;

* Nid os o ammheuaeth sydd yn yr adnod, oblegid credai Job athrawiaeth yr adgyfodiad mor gadarn a marwolaeth y corff.

Ac onid ydwyt (dyna 'nghred)
Yn gwylied ar fy mhechod?

Mewn côd gauedig, Duw fy rhi,
Y seliaist di fy nghamwedd;
A gwnio wnaethost, Arglwydd cu,
I fyny fy anwiredd.

Y mynydd cribog syrthio wna,
Ac a ddiflana hefyd,
A'r graig gadarna' dan y ne'
Caiff hon o'i lle ei symud.

Y dyfroedd treulio'r cèryg wnant,
A llwyr y golchant ymaith
Y pethau dyfant yn mhob dull,
A dyn a gyll ei obaith.

Gorchfygu'r ydwyt ei holl nerth
Trwy ofid certh a phrudd-der,
A chan mor salw yw ei wedd,
Fe syrth i'r bedd ar fyrder.

Ac felly rhybudd teg a roi
I ddyn osgoi ffolineb,
Am fod ei gred a'i obaith gwan
Yn llawn o annoethineb.

Ei feibion gyfyd dan y ser,
A chyfoeth lawer ganddynt;
Ond gan ei gur a'i ofid llym,
Nis gŵyr ef ddim oddiwrthynt.

Ei gnawd dolurio arno wna,
Fe guria dan ei gerydd;

Galara ynddo'i enaid tau,
Gan faint ei boenau beunydd.

O!r fath drueni ddygodd dyn
I'w ran ei hun drwy bechod;
Ond trefn i'w lwyr iachâu a gaed
Drwy santaidd waed y cymmod.

Gan hyny, na foddloned neb
Ar lai na phurdeb crefydd,
Fel gallo sefyll yn ddifraw
Ar ddeheu law y Barnydd.

 DIARHEBION IV.

GWRANDEWCH, O blant, ar addysg tad,
Atebawl fwriad diball,
Ac erglywch genyf gynghor cu
I dawel ddysgu deall.

Can's rhoddaf i chwi addysg dda,
Yr hon a'ch gwna yn ddoethion;
Ac na wrthodwch chwithau fyth
Fy nghyfraith ddilyth gyfion.

Yr oeddwn i yn fab i'm tad,
Diarchar fâd ei orchwyl,
Yn dyner hefyd a dinam
Yn mynwes fy mam anwyl.

Efe a'm dysgai yn ddidwyll
Mewn gwiwrwydd bwyll rhagorol,
A'i holl gynghorion oedd, mae'n ddir,
Yn addysg wirioneddol.

Cais wir ddoethineb yn ddiball,
 Cais berffaith ddeall hefyd,
 Na wyra chwaith o'r llwybr cu
 Sy'n arwain fry i'r bywyd.

Byth nac ymâd, er allo neb,
 A gwir ddoethineb nefol,
 Ond câr hi'n fwy na dynol gêd,
 Hi'th wared yn dragwyddol.

Y penaf peth yn drysor gwiw
 I'th enaid yw doethineb,
 Ac â'th holl nerth a'th gyfoeth mâd
 Cais ddeall a duwioldeb.

Dyrchafa di ddoethineb dda,
 Cei wledda mewn cu lwyddiant,
 A hithau a'th ddyrchafa di
 I fythawl fri heb fethiant.

Doethineb nef rydd i ti hawl
 O annherfynawl fwyniant,
 Ychwaneg ras i'th ben rydd hon,
 A choron o ogoniant.

Gan hyny gwrando'n awr, fy mab,
 A derbyn f'arab eiriau,
 Blyneddoedd d'ainioes a sicrheir,
 Ac amlheir dy ddyddiau.

Dy ddysgu'r ydwyf heddyw'n ddir
 Yn ffordd y wir ddoethineb,
 Ac yn dy dywys yn ddiwâd
 Yn llwybrau mâd uniondeb.

Pan rodiech, dy gerddediad fydd
 Yn hynod rydd a heini';
 A phan y rhedech, heb ddim cam
 Agweddiad, ni thramgwyddi.

Ymafael dithau mewn gwir ddysg,
 A cymer addysg heddyw,
 A chadw hefyd hon bob pryd,
 Dy odiaeth fywyd ydyw.

Na ddos, er dim a ddel i'th ran,
 I lwybr yr annuwiolion,
 Na rodia chwaith i borthi'th flys
 Hyd ffordd drygionus ddynion.

Gochel hi beunydd, ac na ddos
 Byth byth yn agos iddi;
 Ond cilia draw, mae hyny'n well,
 A chadw'n mhell oddiwrthi.

Ni huna'r cas ynyfydion certh
 Nes gwneuthur anferth ddrygau,
 Eu cwsg yn llwyr ei golli wnant,
 Nes cwmpant ryw eneidiau.

Eu hymborth beunydd yn llawn tra
 Yw bara annuwioldeb,
 A'u diod ydyw gwinoedd trais,
 Dibrisiant lais doethineb.

Ond llwybr y cyfiawn mawr ei fri
 Sydd fel goleuni 'sblenydd,
 Yr hwn lewyrcha'n hardd ei bryd
 Yn fwyfwy hyd ganolddydd.

Ond ffordd y rhai drygionus sydd
 Yn d'w'llwch cudd diwelliant;
 Ni wyddant wrth ba beth anfyg,
 Trwm gaddug, y tramgwyddant.

Fy mab, gan hyny, gwrando'n glau
 Fy ngeirian a'm cynghorion,
 Gogwydda'th glust fel bachgen call,
 A deall f'ymadroddion.

Na âd i'm doeth orch'mynion chwaith
 Fyn'd ymaith o dy olwg,
 Ond cadw hwynt yn ngheudod llon
 Dy galon yn ddigilwg.

Can's bywyd ydynt yn ddiffael
 I'r sawl sy'n cael eu meddu,
 Ac iechyd hefyd i'w holl gnawd,
 A phenaf ffawd i ffynu.

Cadw dy galon, a gwna frys,
 Yn ddiesgeulus hynod,
 O honi allan mewn iawn bryd
 Mae bywyd pur yn dyfod.

Bwrw oddiwrthyt draw bob gau
 Daeogaidd enau digus,
 A'r holl wefusau troeawg ffol,
 Dwl, eithaf hudoliaethus.

Edrych yn mlaen â'th lygaid tau,
 A dal d'amranta'u'n union;
 Na ddyro'th glust i wrando chwaith
 Ar ffaidd iaith ynyfydion.

Ystyria lwybr dy draed yn dda,
 A threfna'th ffyrdd yn uniawn,
 A dilyn reol pur air Duw,
 Gan gofio byw yn gyfiawn.

Na thro ar dde na'r aswy law
 I wyraw at anwiredd,
 Ond cerdd yn mlaen heb lwfrhau
 Hyd ganol llwybrau rhinwedd.

 DIARHEBION VIII.

DOETHINEB nefol oddifry
 Sydd yn llefaru'n firain,
 Yn foneddigaidd heb ddim trais
 A'i llafar lais mae'n llefain.

Mewn lleoedd uchel iawn yn glau,
 Lle gwelir llwybrau lawer,
 Y mae hi'n sefyll yn ddiwad
 I weini'n rhad bob amser.

Gerllaw y pyrth, yn mhen y dref,
 Mewn modd digyfref beunydd,
 Ac wrth y drysau'n ddigon clir
 Y clywir ei lleferydd.

Arnoch chwi, wŷr, drwy gariad mawr,
 'Rwy'n galw'n awr heb gelu,
 Ac at feib dynion mae fy llais,
 Dewisgar gais, i'w dysgu.

Ha! ha! ynfydion trawsion trwch,
 Dychwelwch yn orchwylus,

A byddwch chwithau, anghall wŷr,
O galon bur ddeallus.

Gwrandewch, mi draethaf i chwi'n awr
Ryw bethau mawr ardderchog,
Agoraf fy ngwefusau'n fflur
Ar bethau pur odidog.

Fy ngenau draetha'n hyf mewn hedd
Wirionedd yn ddiwyrni;
A ffaidd gan fy ngwefus fâd
Yw gweniaith a drygioni.

Holl eiriau teg fy ngenau glwys
Sydd gymhwys a digamwedd,
A diau nad oes ynddynt chwaith
Na threisiawl iaith na thrawsedd.

Y maent hwy oll yn amlwg iawn
I'r neb a'u llawn ddeallo;
Ac O, mor uniawn ynt i'r rhai
Gwybodus a'u defnyddio.

Derbyniwch f'addysg er eich clod,
Nid arian darfodedig,
A gwir wybodaeth a'ch gwna'n ddoeth,
O flaen aur coeth bathedig.

Gwell yw doethineb ar y llawr
Na'r gemau gwerthfawrocaf,
Mil mwy dymunol ydyw hon
Na'r holl drysorion penaf.

Myfi, Doethineb, driga'n nghyd
 A chall dduwiolfryd gwiwlan;
 Gwybodaeth, cynghor, yn ddiffael,
 'Rwyf fi'n ei gaffael allan.

Can's ofn yr Arglwydd yw casâu
 Niweidiawl ddrygau balchder,
 Ac uchder ysbryd drwg ei naws,
 A'r genau traws ysgeler.

Mi biau gynghor uwchlaw neb,
 A gwir ddoethineb hefyd;
 A deall ydwyf o fawr werth,
 Mi biau nerth a bywyd.

Trwof fi teyrnasu yn dda
 Ar ddynion wna brenhinoedd,
 Penaethiaid hefyd wnant iawn farn,
 Yn gadarn mewn brawdlysoedd.

Trwy f' addysg i rheoli wna
 T'wysogion yn dra hawddgar,
 A'r pendefigion fyddant bur,
 A duwiol farnwyr daear.

Y sawl a'm carant yn ddiau
 A garaf finnau'n hylwydd;
 A'r sawl a'm ceisio'n fore iawn
 A'm cânt drwy lawn foddlonrwydd.

Gyda myfi mae cyfoeth mât,
 Yn nghyda rhad anrhydedd,
 A golud a chyfiawnder mau
 Sydd i barhau'n ddiiddiwedd.

Gwell yw fy ffrwyth i nag aur coeth,
 Mae'n gyfoeth anlygredig,
 A'm cynnyrch sy'n rhagorach rhan
 Nac arian detholedig.

Hyd ffordd cyfiawnder mewn iawn hwyl,
 Rai anwyl, y'ch arweiniaf;
 Ac ar hyd canol llwybrau barn
 Eich Llywydd cadarn fyddaf.

Pair hyn i'r rhai a'm caro'n gu
 Gael etifeddu sylwedd,
 A llanw eu trysorau wnafl
 Ac a'u mawrhaf yn rhyfedd.

Yr Arglwydd a'm meddiannodd i
 A hylwydd fri yn helaeth,
 Cyn iddo 'rioed amlygu'n g'oedd
 Weithredoedd creadigaeth.

Er tragwyddoldeb, cyn bod dim,
 Mewn iawnwisg y'm heneiniwyd!
 Cyn creu y nef na'r ddaear lawr,
 Mor wiwgar y'm mawrygwyd!

Pryd nad oedd dyfnder i'w goffâu,
 Na phrenau na dyffrynoedd,
 A chyn bod ffrydiol lesol iawn
 Ffynhonau'n llawn o ddyfroedd,—

Cyn gosod seiliau cedyrn clir
 Mewn addurn i'r mynyddau,
 O flaen cyfleu mewn prydfferth ddrych
 Yr holl fireinwch fryniau,—

Cyn gwneud o hono'r ddaear gron,
 A'r meusydd ffrwythlon welir,
 Na llunio uchder llwch y byd,
 A'r cwbl i gyd ganfyddir,—

Pan barotodd efe'n hardd iawn
 Y nefoedd lawn dysgleirder,
 A phan osododd gylch yn glawr
 Ar wyneb mawr y dyfnder,—

Pan gadarnhaodd ef yn glau
 'R cymylau wrth y miloedd,
 A phan y nerthodd i barhau
 Ffynhonau y dyfnderoedd,—

Pan roddes ddeddf i'r môr ar g'oedd,
 A'r dyfroedd yn ddiderfyn,
 A'u rhwymo fel na wnaent osgoi,
 Na thòri mo'i orchymyn,—

Yr oeddwn gydag ef, mae'n ddir,
 Yn meddu gwir lawenydd,
 A cher ei fron myfi yn fflwch
 Oedd ei hyfrydwch beunydd.

Mawr lawenychu'r oeddwn ar
 Drigfanau'r ddaear dirion;
 Fy hyfryd serch a'm h'w'llys da
 Oedd gyda meibion dynion.

Yn awr, gan hyny, na nacewch,
 O feibion, gwrandewch arnaf,
 Gwyn fyd a gadwant fy ffyrdd i,
 Y rhei'ny a fendithiaf.

Derbyniwch addysg yr awr hon,
 A byddwch ddoethion hefyd;
 Nac ymwrthodwch byth â hi,
 Cyfrana i chwi fywyd.

Gwyn fyd y dyn wrandawo ar
 Fy eres ddoethgar eiriau,
 Gan wyllo'n ddyfal a didawl
 Yn rasawl wrth fy nrysau.

Y neb a'm caffo i mewn pryd
 Gaiff fywyd yn dragywydd,
 Meddiannu hefyd byth a wna
 Ewyllys da yr Arglwydd.

Ond sawl a becho'n f'erbyn i,
 Mae'n rhaid ei gosbi'n ddiâu;
 A'i unig enaid y gwna gam,
 Fe syrth i ddryglam angau.

 DIARHEBION IX.

Ei hawddgar dŷ, Doethineb fâd
 A loywdeg adeiladodd,
 A'i saith ardderchawg golofn lawn
 Yn weddus iawn a naddodd.

Ei hanifeiliaid glân, dihaint,
 I wledda'r saint, a laddodd;
 Ei melus win cymysgu wnaeth,
 A'i bwrdd a helaeth huliodd.

Hi yrodd ei morwynion cu
 I bur weinyddu'n addas,

A llefain beunydd mae hi'n glau
Ar uchelfanau'r ddinas.

A galw'n daer y clywir hi
Ar ddynion diddichellfryd;
Ac wrth yr annoeth byr ei ddawn,
Diwawdiaith iawn mae'n d'wedyd,—

De'wch oll, bwyteuoch fel doethion wŷr
O'm bara pur ddarperais;
Ac yfwch hefyd trwy fawr rin
O'm gloyw win gymysgais.

Llwyr ymadewch â rhai didduw,
A byddwch fyw yn ddoethgall,
A cherddwch hefyd er eich llwydd
Yn ffordd ddidramgwydd deall.

'R hwn a geryddo ddyn afrwydd
Gaiff w'radwydd hyd yr eithaf;
A'r neb a feio ar ddrwg ei fryd,
Caiff hwnw hefyd anaf.

Gwatwarwr na cherydda di
Rhag iddo'th gyfri'n elyn;
Cerydda'r doeth â rheswm teg,
Fe'th gâr yn wiwdeg wed'yn.

I'r doeth cyfrana addysg glir,
Fe gyrhaedd wir wybodaeth;
A dysg y cyfiawn mewn ffordd dda,
Chwanegu wna'i ddysgeidiaeth.

Dechreuad gwir ddoethineb rwydd
 Yw ofn yr Arglwydd cyfiawn;
 Gwybodaeth y dyn santaidd call
 Yw llonwych ddeall uniawn.

Can's trwof fi gwneir amlhau
 Dy araul ddyddiau eirioes,
 Ac y chwanegir i barhau
 Yn dyner, flwyddau d'einioes.

Os doeth a fyddi, erglyw'n awr,
 I ti daw mawr ddaioni;
 Ond os gwatwarwr, gwarth a lŷn,
 A thi dy hun a'i dygi.

Gwraig ffol a fydd siaradus iawn,
 A'i delw'n llawn hudoliaeth;
 Ei genau aflan, heb ddim braw,
 Sydd yn meginaw gweniaith.

Ar ddrws ei thŷ yr eistedd hon
 A golwg ddigon diras;
 A'i hudol faine a esyd ar
 Brif leoedd ucha'r ddinas.

I alw ar y neb a fo
 Yn myned heibio'n brydlawn,
 Y rhai sy'n cerdded, er eu clod,
 Eu ffyrdd yn hynod uniawn.

"Pwy bynag sydd yn ehud iawn,
 "Tröed yma i mewn heb gyffro;"
 A phob dyn ynfyd a digred,
 A hi a ddywed wrtho,—

“Holl ddyfroedd lladrad nos a dydd,
 “Fel osai, sydd felysaidd;”
 Ac hefyd gwed â'i thafod rhydd
 “Fod bara cudd yn beraidd.”

Ond och! ni wŷr efe yn chwai
 Mai meirw yw'r rhai sydd yno,
 A bod ei holl wahoddwyr hi
 I'r dwfn drueni'n suddo.

ADGYFODIAD CRIST.

Y TRYDYDD dydd yn hardd ei wedd,
 Cyfododd Crist yn fyw o'r bedd;
 Ac ymddangosodd heb ddim braw
 I'r gwragedd duwiol oedd gerllaw.

Ac wedi hyny'n nghŵr y wlad,
 Gorddiwes wnaeth ddau ddysgybl mâd,
 Ac iddynt yr eglurodd ef
 Ddirgelwch arfaeth fawr y nef.

Onid oedd raid i'r Iesu gwyn
 Wynebu'r holl arteithiau hyn,
 Ac esgyn fry goruwch y llawr
 I ganol ei ogoniant mawr?

Ac wedi i'r dydd yn mbell hwyrhau,
 Pan oedd y drysau oll yn nghau,
 Daeth Crist i mewn i'r 'stafell deg
 Lle'r ymgynnullai'r unarddeg.

Eu cyfarch wnaeth yn siriol iawn
 A'i dangnefeddol ddwyfol ddawn,

A llawenhau wnaent hwythau'n awr
Am adgyfodi'r Ceidwad mawr.

Addewid iddynt a roes ef,
Pan yr esgynai fry i'r nef,
Caent eu bedyddio â nefol dân,
Sef gweithrediadau'r Ysbryd Glan.

Cyflawnodd ei addewid fawr,
Ar ddydd y Sulgwyn daeth i lawr,
Fel nerthol wynt yn rhuthro'n gry',
Nes i'w effeithiau lenwi'r tŷ.

"Ewch a phregethwch," ebai ef,
"I bob creadur dan y nef,
"Cyhoeddwch yr efengyl hon
"Dros holl derfynau'r ddaear gron.

"Pob un a gred, cadwedig fydd,
"Trwy fywiol wir effeithiau ffydd;"
Mynegu'n llawn un dawn nid oes
Anfeidrol haeddiant gwaed y groes.

Gwynebu wnaethant ar wahan
I holl gyffiniau'r byd achlân,
A lluoedd lawer yn mhob gwlad
A gredodd eu hymadrodd mât.

ADGYFODIAD Y SAINT.

FE welir cyrff y saint
Yn ddysglaer fel y wawr,
Yn d'od i'r làn o'r bedd,
Pan gano'r udgorn mawr;

Cânt etifeddu teyrnas Dduw
Ar ddelw hardd eu Prynwr byw.

Mor hawddgar fydd eu gwedd
O flaen yr orsedd fry,
A mynwes lawn o hedd,
Yn lân, ogonedd lu;
